

## PWYLLGOR MONITRO RHAGLENNI CYMRU

## CRONFEYDD STRWYTHUROL A BUDDSODDI EWROPEAIDD 2014-2020

Dyddiad: 1 Rhagfyr 2017

Amser: 9.30yb

Lleoliad: Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Merthyr Tudful

## AGENDA

|     |                                                                                                                                                                                                                                                                                                         |                                                                  |                                                                                        |
|-----|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------|
| 1.  | Croeso ac ymddiheuriadau                                                                                                                                                                                                                                                                                | 09:30 - 09:35                                                    |                                                                                        |
| 2.  | Cofnodion cyfarfod mis Mehefin, camau gweithredu a materion eraill sy'n codi                                                                                                                                                                                                                            | 09:35 – 09:45                                                    | WPMC(17)M                                                                              |
| 3.  | Y diweddaraaf am hynt y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd, gan gynnwys gwaith datblygu portffolio                                                                                                                                                                                            | 09:45 – 10:00                                                    | WPMC(17)113                                                                            |
|     | <u>Gan gynnwys:</u><br>(a) Rhaglenni ERDF<br>(b) Rhaglenni ESF<br>(c) Rhaglenni Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru<br>(d) Cronfeydd Strwythurol: Rhestr o Weithrediadau Cymeradwyo<br>(e) WGRC-RDP 2014 – 2020: Rhestr o Weithrediadau Cymeradwyo Economaidd-Gymdeithasol<br>(f) Fframwaith Perfformiad | 10:00 – 10:15<br>10:15 – 10:30<br>10:30 – 10:45<br>10:45 – 11:00 | WPMC(17)114<br>WPMC(17)115<br>WPMC(17)116<br>WPMC(17)117<br>WPMC(17)118<br>WPMC(17)119 |
| 4.  | Addasiadau Rhaglenni ERDF<br>Addasiadau Rhaglenni ESF                                                                                                                                                                                                                                                   | 11:00 – 11:40                                                    | WPMC(17)120<br>WPMC(17)121                                                             |
| 5.  | Cynigion i'r ail Addasiad Digwygiadau i'r Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020                                                                                                                                                                                      | 11:40 – 12:00                                                    | WPMC(17)122                                                                            |
|     | <b>**Egwyl 12:00-12:15**</b>                                                                                                                                                                                                                                                                            |                                                                  |                                                                                        |
| 6.  | Themau Trawsbynciol: Trechi Tlodi                                                                                                                                                                                                                                                                       | 12:15 – 12:35                                                    | WPMC(17)123                                                                            |
| 7.  | Diwygiadau i'r Strategaeth Monitro a Gwerthuso                                                                                                                                                                                                                                                          | 12:35 – 12:55                                                    | WPMC(17)124                                                                            |
| 8.  | Cyflwyniad: Banc Datblygu Cymru                                                                                                                                                                                                                                                                         | 12:55 – 13:25                                                    |                                                                                        |
| 9.  | Y diweddaraaf ynghylch Dyfodol Polisi Rhanbarthol                                                                                                                                                                                                                                                       | 13:25 – 13:45                                                    |                                                                                        |
| 10. | Unrhyw Fater Arall                                                                                                                                                                                                                                                                                      | 13:45 – 14:00                                                    |                                                                                        |
|     | <b>**Cinio 14:00**</b>                                                                                                                                                                                                                                                                                  |                                                                  |                                                                                        |

**PWYLLGOR MONITRO RHAGLENNI CYMRU Y CRONFEYDD STRWYTHUROL A  
BUDDSODDI EWROPEAIDD 2014-2020**

**Dydd Gwener 15 Medi 2017  
Llywodraeth Cymru, Merthyr Tudful**

**Nodiadau Cyfarfod**

**EITEM 1: Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau**

1. Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i gyfarfod Pwyllgor Monitro Rhaglenni (PMRh) Cymru. Estynnwyd croeso arbennig i Mr Alexander Bartovič, Pennaeth Uned newydd, DG Agri. Rhestrir y bobl a oedd yn bresennol ac ymddiheuriadau yn **Atodiad A**. Cafodd yr aelodau eu hatgoffa gan y Cadeirydd mai cyfarfod PMRh ym mis Mehefin oedd cyfarfod olaf Damien O'Brien fel Prif Weithredwr WEFO, a chroesawyd Sioned Evans i'w chyfarfod PMRh cyntaf fel Prif Weithredwr WEFO.

**EITEM 2: Cofnodion cyfarfod mis Mehefin, camau gweithredu a materion eraill sy'n codi**

2. Hysbyswyd yr aelodau bod y diwygiadau a dderbyniwyd gan DG Agri, wedi'u cynnwys yn y cofnodion a ddosbarthwyd i aelodau. Ni chafwyd unrhyw sylwadau pellach, felly, wedi ystyried y diwygiadau hynny, cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod.

**EITEM 3: Diweddariad ar Gynnydd y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd, gan gynnwys datblygiad portffolio**

Trosolwg

3. Rhoddodd Sioned Evans drosolwg o gynnydd rhaglenni ers y cyfarfod ar 16 Mehefin 2017:
  - Yn gyffredinol, mae 66% (61% ERDF, 74% ESF) o adnoddau'r Cronfeydd Strwythurol (£1.4 biliwn) wedi'i neilltuo. Mae hyn yn gynnydd o gymharu â'r 65% a nodwyd yn y cyfarfod diwethaf ac mae'n cynrychioli cyfanswm buddsoddiad o £2.6 biliwn. Mae pob un o dargedau gwariant (N+3) y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer 2017 wedi'u cyflawni mewn perthynas â'r Cronfeydd Strwythurol.
  - Ar hyn o bryd, mae'r Rhaglen Datblygu Gwledig wedi'i neilltuo'n llawn (102%), yn dilyn cymeradwyo'r addasiad ym mis Mehefin. Ers cyfarfod diwethaf PMRh, mae £20m ychwanegol wedi'i wario.
  - Mae cymhariaeth â phapur diweddar gan y Comisiwn Ewropeaidd sy'n meincnodi cyflawniad ym mhob un o 28 o aelod-wladwriaethau'r UE yn dangos y byddai Cymru yn yr ail safle o ran symiau a neilltuwyd a'r seithfed safle o ran gwariant datganedig.

- Mae cystadleuaeth wedi'i lansio i ddathlu 60 mlynedd ers sefydlu Cronfa Gymdeithasol Ewrop. Anogwyd yr aelodau i gyflwyno enwebiadau ar gyfer prosiectau/gweithrediadau yn eu hardal erbyn 20 Hydref.
- Mae Rhwydwaith Gwledig Cymru, ar y cyd â sefydliadau eraill, yn hyrwyddo Digwyddiad Rhwydwaith Gwledig Cenedlaethol y DU a gaiff ei gynnal ym Melfast yn ystod mis Hydref 2017.

|                                                                                                                       |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <p><b>Cam Gweithredu: Yr Ysgrifenyddiaeth i ddosbarthu dolen gwefan WEFO ar Gystadleuaeth ESF 60 i'r aelodau.</b></p> |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|

4. Nododd Sioned Evans hefyd fod disgwyl i bapur ar Fuddsoddiad Rhanbarthol yng Nghymru y tu allan i'r UE gael ei gyhoeddi'n fuan. Bwriedir cynnal dau ddigwyddiad ymgynghori yn ystod yr hydref er mwyn ysgogi trafodaeth ar y ffordd orau o lywio trefniadau yn y dyfodol.
5. Mewn ymateb i gwestiwn gan un o'r aelodau ynghylch y cyfraddau cyfnewid a ddefnyddir ar gyfer y Rhaglen Datblygu Gwledig, nododd David McNeill y gallai cyfyngiadau cyllidebol atal Llywodraeth Cymru rhag neilltuo rhagor o gyllid i'r Rhaglen Datblygu Gwledig, yn sgil y gofyniad i sicrhau lefel sefydlog o gyllid domestig. Mae tîm y Rhaglen Datblygu Gwledig wrthi'n gweithio ar hyn gyda'r posibilrwydd y gallai addasiad gael ei gyflwyno i PMRh ym mis Rhagfyr.
6. Yn dilyn sylw gan y cadeirydd ynghylch y lefelau isel o wariant a nodwyd, nododd Peter Ryland fod camau yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â phryderon cyfredol a bod mwy o hyfforddiant yn cael ei gynnig i fuddiolwyr lle y bo angen. Er bod sefyllfa'r gyfradd gyfnewid ar gyfer Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol ychydig yn llai cymhleth nag ar gyfer y Rhaglen Datblygu Gwledig, mae sicrhau arian cyfatebol yn parhau i fod yn her. At hynny, wrth i ddyddiad gadael yr UE nesáu, mae Trysorlys EM yn gofyn am fwy o wybodaeth am weithrediadau yn unol â'r warant gyllido ac nid oes cytundeb eto ar gyfradd cynllunio gyffredin ar gyfer pob un o Awdurdodau Rheoli'r DU.
7. Hefyd, yn ôl Sioned Evans, er bod cynnydd da wedi'i wneud o ran neilltuo symiau a bod gwariant yn dechrau gwella, mae'r terfyn amser ar gyfer cymeradwyaethau cynllunio, sef 30 Mawrth 2019, yn lleihau'r amserlen yn sylweddol. At hynny, roedd y gostyngiad yng ngwerth y Sterling wedi arwain at gynnydd yn y cyllid a oedd ar gael, gan olygu bod y nod o gyflawni rhaglen lawn yn fwy heriol fyth. Cytunodd yr aelodau ei bod hi'n bwysig cydweithio i gyflawni'r nod hwn ond nodwyd rhai o'r heriau sy'n gysylltiedig â datgan gwariant ar brosiectau.
8. Nododd y Cadeirydd ei bod yn bwriadu ysgrifennu at Lywodraeth Cymru, yn rhinwedd ei rôl fel Cadeirydd WPMC, i dynnu sylw at yr heriau a drafodwyd a phwysigrwyd sicrhau mwy o gynnydd o ran lefelau gwariant isel. Cytunodd yr aelodau y byddai hwn yn gam defnyddiol i'w gymryd.

## Rhaglenni ERDF

9. Dywedodd Sue Price, Pennaeth Rhaglenni ERDF, WEFO, fod rhaglenni ERDF yn parhau i wneud cynnydd da, gyda lefelau neilltuo o 60% ar gyfer rhaglenni Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a 62% ar gyfer rhaglenni Dwyrain Cymru, sef lefel neilltuo gyffredinol o 61% rhwng y ddwy raglen. Mae wyth gweithrediad arall gwerth cyfanswm o £29 miliwn wedi'u cymeradwyo ers cyfarfod PMRh ym mis Mehefin ac mae 34 o weithrediadau ar y cam cynllunio busnes ar hyn o bryd ar gyfer Blaenoriaethau 1, 3 a 4 (£70 miliwn Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, £10 miliwn Dwyrain Cymru). Soniodd Sue Price hefyd fod cyfraddau cynllunio yn cael eu trafod a'u hadolygu'n rheolaidd iawn, gan ganolbwyntio ar gyflawni'r targedau a bennwyd.

10. Rhoddodd Sue Price y wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau ar weithgarwch o fewn pob blaenoriaeth, gan dynnu sylw at y canlynol:

- Blaenoriaeth 1: Ymchwil ac Arloesedd – Cafodd gweithrediad y Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol ei gymeradwyo yr wythnos hon ac mae cynnydd da yn cael ei wneud gyda'r 17 o weithrediadau a symudodd ymlaen i'r cam cynllunio busnes yn dilyn yr alwad ddiweddar. Yn sgil llwyddiant yr alwad a wnaed ar ddechrau 2017, mae WEFO yn ystyried gwneud galwad bellach ar ddechrau 2018, gyda'r posibilrwydd o ehangu cwrdd y gweithgarwch. Cynhelir sgysiau cyn yr alwad tuag at ddiwedd y flwyddyn hon a neilltuir uchafswm o wyth wythnos ar gyfer ceisiadau oherwydd yr angen i gymeradwyo gweithrediadau mewn da bryd ar gyfer terfyn amser Trysorlys EM ym mis Mawrth 2019.
- Blaenoriaeth 2: Cystadleurwydd BBaCh – Mae'r Blaenoriaeth yn sefydlog gyda lefelau neilltuo uchel dros y ddwy raglen. Nid ymddengys fod unrhyw fwlch mewn darpariaeth felly mae'r ffocws ar hyn o bryd ar y portffolio o weithrediadau sy'n rhan o 'Deulu Busnes Cymru'.
- Blaenoriaeth 3: Ynni Adnewyddadwy ac Effeithlonrwydd Ynni – Er ei bod yn profi i fod yn fwy o her na'r disgwyl, mae cynnydd yn cael ei wneud, yn enwedig o ran gweithio gyda datblygwyr sy'n awyddus i ddefnyddio'r dyfroedd o amgylch Cymru ar gyfer eu dyfeisiau ynni'r tonnau ac ynni'r llanw. Cymeradwywyd dau weithrediad ynni morol; META - safle i brofi dyfeisiau ynni'r tonnau yn y byrdymor a chymeradwyaeth i gefnogi proses gydsynio Parth Arddangos Morlais. Cafodd yr Alwad Ynni Cymunedol, a gaewyd yn ddiweddar, ei chroesawu, gyda chyfanswm o 43 o gynigion yn cael eu cyflwyno. Mae nifer o'r rhain wedi symud i'r cam Cynllunio Busnes ac mae'n debygol y cânt eu cymeradwyo y flwyddyn nesaf. Bydd

canlyniadau'r alwad yn darparu'r dystiolaeth sydd ei hangen nawr i baratoi ar gyfer yr addasiad i'r Rhaglen.

- Blaenoriaeth 4: Cysylltedd a Datblygu Trefol – Mae pedwar gweithrediad Safle ac Eiddo awdurdod lleol a flaenoriaethwyd yn rhanbarthol wedi'u cymeradwyo yr wythnos hon, gan gynnwys Parc Busnes Lime Avenue. Mae gweithrediadau Cyrchfannau Denu Twristiaeth ac Adeiladu ar gyfer y Dyfodol yn parhau i wneud cynnydd da, gyda chwe phrosiect unigol arall yn cael eu cytuno gan WEFO. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt i nodi ffyrdd o wella'r broses fonitro a chyflwynu'r broses o gyflwyno ceisiadau. Mae trafodaethau hefyd yn parhau ar weithrediad Band Eang y Genhedlaeth Nesaf, gyda'r posibilrwydd y caiff ei gymeradwyo erbyn diwedd 2017. Mae Adran Drafnidiaeth Llywodraeth Cymru yn parhau i wneud cynnydd cyson mewn perthynas â'r Metro ac mae trafodaethau'n parhau gyda Trafnidiaeth Cymru, y Comisiwn Ewropeaidd a JASPERS.

11. Soniodd Sue Price hefyd fod allbynnau ERDF yn aml yn cael eu cyflawni'n hwyrach yn ystod cyfnod y Rhaglen, yn rhannol oherwydd natur gweithgareddau seilwaith. Mae gwaith yn mynd rhagddo i fynd i'r afael â'r cynnydd o ran y nifer o fentrau sy'n derbyn cymorth, ac mae WEFO yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn y Comisiwn Ewropeaidd ar sut y gellir adlewyrchu effaith ganolog i hirdymor gweithrediadau Ymchwil ac Arloesedd yn well.
12. Cafodd yr aelodau eu hatgoffa o'r angen i wario a chyflawni yn unol â'r proffil, a chroesawyd y cyfle i gynnal trafodaethau pellach â buddiolwyr ynghylch opsiynau pellach.
13. Diolchodd un o aelodau PMRh i Sue Price am y wybodaeth ddiweddaraf a nododd mai disgwyliad isel a welwyd pan gafodd y Rhaglen ei datblygu'n wreiddiol o ran y nifer a fyddai'n manteisio o dan Flaenoriaeth 1. Mae hyn wedi cael ei brofi'n anghywir. O ystyried yr amgylchedd newidiol hwn, gofynnodd yr aelod a oedd modd gwneud mwy i sicrhau mwy o gyfleoedd cyllido cysylltiedig yng Nghymru, yn enwedig mewn perthynas â'r Bargeinion Dinesig, eu heffaith a'r cyfleoedd sydd ynghlwm wrthynt.
14. Cadarnhaodd Sue Price fod y portffolio yn cael ei adolygu fel rhan o'r addasiad ei hun, ac mae WEFO yn croesawu'r ymgysylltiad llawn hwn sydd ei angen gan Randdeiliaid. Mae WEFO eisoes wedi cymryd risgiau gyda rhai gweithrediadau a bydd yn parhau i wneud hynny er mwyn sicrhau twf sectorau sy'n datblygu.

15. Tynnodd Michael Parkinson, Pennaeth Sgiliau a Gweithgarwch Economaidd, WEFO, sylw'r aelodau at y ffaith bod rhai o'r ffigurau yn Nhabl 4: Cynnydd yn erbyn dangosyddion, wedi'u diweddarau a rhoddwyd tabl diwygiedig i'r aelodau.
16. Nododd Michael Parkinson fod rhaglenni ESF yn parhau i wneud cynnydd da gyda 73% wedi'i neilltuo ar draws y ddwy raglen yn gyffredinol, sef 77% ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a 61% ar gyfer Dwyrain Cymru. Mae swm o £229m heb ei neilltuo eto (£161m ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a £68m ar gyfer Dwyrain Cymru). Mae cyfanswm o 79 o weithrediadau wedi'u cymeradwyo, gan olygu bod swm cyffredinol o £631m wedi'i neilltuo – £3m ychwanegol ar gyfer rhaglenni ESF ers cyfarfod diwethaf PMRh.
17. Mae cynnydd da yn cael ei wneud hefyd o ran nifer y cyfranogwyr. Mae 95,000 yn cymryd rhan ar hyn o bryd, sef 22% o'r cyfranogwyr sydd ei angen er mwyn cyflawni'r targed cyffredinol. Hyd yma, mae 5,000 o gyfranogwyr wedi cael help i gael gwaith a 36,000 o gyfranogwyr wedi ennill cymwysterau. Fodd bynnag, mae'n ddyddiau cynnar o hyd o ran unrhyw ganlyniadau.
18. Tynnodd Michael Parkinson sylw hefyd at y canlynol:
- Blaenoriaeth 1 - Trechi Tlodi drwy Flaenoriaeth Cyflogaeth Gynaliadwy – Y lefelau neilltuo cyfredol yw 64% ar gyfer Rhaglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a 39% ar gyfer Rhaglen Dwyrain Cymru. Cynhaliwyd galwadau yn ystod yr haf, gan gynnig cyfle i neilltuo £20m pellach o arian ESF ym mhob un o ardaloedd y rhaglen. Mae'r swm a neilltuwyd ar gyfer y flaenoriaeth hon yn is, a bydd angen ystyried hyn wrth fynd i'r afael â'r addasiad i'r Rhaglen.
  - Blaenoriaeth 2 – Sgiliau ar gyfer Twf – Mae'r lefelau neilltuo ar gyfer y flaenoriaeth hon yn uchel, sef 86% ar gyfer Rhaglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a 57% ar gyfer Rhaglen Dwyrain Cymru. Mae cyfanswm o 58,000 o gyfranogwyr eisoes wedi'u cofrestru gan weithrediadau cymeradwy. Mae'r perfformiad cyffredinol yn addawol ac mae'r cyflawniad hyd yma yn well na'r disgwyl, gyda nifer o dargedau fframwaith perfformiad ar gyfer 2018 wedi'u cyflawni eisoes.
  - Blaenoriaeth 3 – Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Pobl Ifanc – Unwaith eto, mae lefelau neilltuo ar gyfer y flaenoriaeth hon yn uchel. Mae dau weithrediad newydd wedi'u cymeradwyo ar gyfer Rhaglen Dwyrain Cymru ers cyfarfod diwethaf PMRh; Cynnydd ac ADTRAC. Mae'r perfformiad cyffredinol ar gyfer y flaenoriaeth hon yn parhau i fod yn gadarnhaol iawn, gyda mwy nag 20,000 o gyfranogwyr hyd yma. Mae'r canlyniadau cyffredinol yn dda, yn enwedig ar gyfer grŵp targed NEET lle mae 80% o'r

rheini sydd wedi cyfranogi hyd yma wedi cyflawni un o'u canlyniadau allweddol. Mae'r cynnydd yn arafach yn y categorïau 'yn wynebu risg' a STEM oherwydd yr amser a'r niferoedd sydd eu hangen i wneud cynnydd gwirioneddol a'r buddsoddiad pellach sydd ei angen i recriwtio cyfranogwyr i gyflawni'r canlyniadau.

19. Mewn ymateb i gais gan y Cadeirydd ynghylch cynnydd ym maes Gofal Plant Blynnyddoedd Cynnar, cadarnhaodd Michael Parkinson nad oes unrhyw ddangosyddion wedi'u hawlio hyd yma, er bod y gweithlu wrthi'n cyflawni gweithgareddau. Mae cynnydd da wedi'i wneud gyda llawer o weithgareddau yn mynd rhagddynt, ac mae'r gwaith wedi'i alinio'n agos â gweithrediadau Prentisiaethau. Mae'r sector hefyd wedi nodi bod angen cymwysterau Lefel 3 ym maes Datblygiad a Gofal Plant.

#### Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig

20. Rhoddodd David McNeill, Dirprwy Bennaeth Awdurdod Rheoli'r Rhaglen Datblygu Gwledig, y wybodaeth ddiweddaraf, gan dynnu sylw at y ffaith bod yr addasiad cyntaf i'r rhaglen bellach wedi'i gymeradwyo, gan olygu bod llai o arian ar gyfer y rhaglen, sef £774.4 miliwn. Fodd bynnag, mae'r gwaith sy'n cael ei wneud ar lawr gwlad wedi parhau i fynd rhagddo ac yn dechrau gwneud cynnydd. Y gwariant ar hyn o bryd yw 14% ac mae'r ganran honno'n parhau i dyfu. Erbyn hyn, mae'r adroddiad a gyflwynir i'r aelodau hefyd yn dangos y cynnydd sydd wedi cael ei wneud o ran y dangosyddion.
21. Aeth David McNeill ati i egluro'r gwahaniaeth rhwng y ffigurau a ragwelir ar gyfer y Rhaglen Datblygu Gwledig a'r rhaglenni ERDF ac ESF. Mae'r ffigurau a ragwelir ar gyfer y Rhaglen Datblygu Gwledig yn ymwneud â phroffil cyflawni prosiectau cymeradwy yn unig. Ar gyfer rhai mathau o brosiectau, dim ond ar ôl i'r prosiect gael ei gwblhau y caiff y data eu casglu, felly 0% yw'r ganran a nodir ar gyfer rhai cyflawniadau ar hyn o bryd; er enghraifft, nifer ar yr ochr economaidd-gymdeithasol. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i geisio nodi barn fwy myfyriol ar gynnydd a bydd y broses hon yn esblygu.
22. Hyd yma, gwnaed taliadau o £104m, sef £20m yn fwy ers cyfarfod diwethaf PMRh. O ran cynlluniau Economaidd-gymdeithasol, mae 637 o'r rheini a gyflwynodd Ddatganiad o Ddiddordeb wedi'u gwahodd i gyflwyno cais llawn, sef cynnydd o 65 ers cyfarfod diwethaf PMRh. Mae 235 o brosiectau wedi'u cymeradwyo hyd yma, sef cynnydd o 50% ers mis Mehefin 2017. Mae hyn yn golygu bod cyfanswm o £184m wedi'i neilltuo i'r cynlluniau hyn.

23. O ran cynlluniau sy'n ymwneud â thir, mae cyfanswm o £249m wedi'i neilltuo (o swm arfaethedig o £332m); mae £97m o daliadau wedi'u gwneud hyd yn hyn, sef cynnydd o 29%.
24. Eglurodd David McNeill i'r aelodau fod lefelau neilltuo yn amrywio, gyda lefel neilltuo o 59% ar hyn o bryd ar lefel prosiect a lefel neilltuo o 100% ar lefel Corff Cyfryngol. Caiff hyn ei nodi mewn papurau a gyflwynir i PMRh yn y dyfodol, gan ei fod yn rhoi darlun gwell o'r cynnydd sydd wedi'i wneud.

**Cam gweithredu – lefelau neilltuo ar gyfer prosiectau'r Rhaglen Datblygu Gwledig i'w cynnwys mewn papurau a gyflwynir i PMRh yn y dyfodol.**

25. Yna, eglurodd David McNeill fod nifer o welliannau wedi'u gwneud nawr bod y cynlluniau gwahanol yn gwbl weithredol. Ymhlith y gwelliannau hyn mae'r canlynol:
- Yn dilyn dau gylch o'r Grant Busnes i Ffermydd, mae'r meini prawf gwariant wedi'u mireinio ac mae problemau TG partner busnes wedi'u datrys.
  - Mae problemau a gafwyd gyda'n systemau TG ein hunain wedi'u datrys, sy'n golygu bod modd gwneud taliadau nawr i brosiectau â Sawl Maes Ffocws.
  - Mae strwythur Partneriaeth Arloesi Ewrop wedi'i newid er mwyn hwyluso ceisiadau nawdd.
  - Mae'r canllawiau ar gyfer y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig a'r Cynllun Rheoli Cynaliadwy wedi'u diwygio er mwyn cyflymu canlyniadau.
  - Er mwyn mynd i'r afael ag achosion o orgyffwrdd a dyblygu o ran Datganiadau o Ddiddordeb Cydweithredu, cynhaliwyd gweithdy cydweithredu a gwella gyda buddiolwyr er mwyn rhesymoli ceisiadau.
  - Roedd hawliad cyntaf Mesur 1 KT&I (Cyswllt Ffermio) wedi'i dalu a chaiff ei gynnwys yn yr adroddiad nesaf i PMRh.
26. Mewn ymateb i gwestiwn gan un o'r aelodau ynghylch y modd yr ymdrinnir â cheisiadau uniongyrchol, cadarnhaodd David McNeill fod y ffigurau a nodir hefyd yn cynnwys prosiectau LEADER a chontractau a gynigiwyd. Mae ceisiadau uniongyrchol eraill drwy fentrau a arweinir gan Lywodraeth Cymru a chaiff hyn ei egluro mewn adroddiadau yn y dyfodol.

**Cam gweithredu: Llywodraeth Cymru i egluro'r eirfa mewn adroddiadau yn y dyfodol.**

27. Holodd aelod arall p'un a allai costau gweithredu gael eu nodi yn sgil yr angen i dynnu sylw at y buddiannau sydd ynghlwm wrth gadw'r broses weithredu yng Nghymru ar ôl mis Mawrth 2019. Nododd David y byddai archwiliad gwerth am arian SAC, sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd, yn ddefnyddiol yn hyn o beth.

**Cam gweithredu: Llywodraeth Cymru i roi copi o adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru i'r aelodau unwaith y caiff ei gwblhau.**

28. Hefyd, nododd y Cadeirydd y byddai'n ddefnyddiol arfer safbwynt amddiffynnol ynghylch hyn er mwyn cefnogi'r safiad sy'n cael ei gymryd gan Gymru a'r Alban ar hyn o bryd ynghylch cadw pwerau datganoledig.
29. Mewn ymateb i gwestiwn gan DG Agri ynghylch cyrraedd targedau/cerrig milltir 2018, eglurodd David McNeill nad oes pryder gan Llywodraeth Cymru ynglyn a chyrraedd y cerrig milltir ac y byddai targedau gwariant yn cael eu cyflawni, er hynny bydd angen cryn dipyn o waith pellach er mwyn cyflawni cerrig milltir eraill.
30. Nododd un o'r aelodau y byddai rhestr o weithrediadau cymeradwy'r Rhaglen Datblygu Gwledig, yn debyg i'r un a gynhyrchir gan WEFO, yn ddefnyddiol.

**Cam gweithredu: – Rhestr o weithrediadau cymeradwy'r Rhaglen Datblygu Gwledig i'w cynnwys yn y papurau a gyflwynir yng nghyfarfodydd PMRh yn y dyfodol.**

31. Holodd un o'r aelodau gwestiwn arall ynghylch y gwahaniaeth mawr a welir rhwng y nifer sy'n cyflwyno Datganiad o Ddiddordeb a'r nifer sy'n cyflwyno cais llawn ar gyfer y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig. Eglurodd Gail Merriman nad oes gan y ceiswyr hyn y gallu i wneud hynny yn aml. Nododd fod y tîm polisi wedi gweithio'n galed gyda buddiolwyr i ddeall y materion a'u datrys. Erbyn hyn, mae gwelliannau wedi'u gwneud, gan gynnwys Cwestiynau Cyffredin gwell i geiswyr ar y wefan, ac mae'r sefyllfa'n cael ei monitro'n barhaus. Gwnaeth yr ymdrech sy'n cael ei wneud i ddeall a datrys y materion hyn gryn argraff ar yr aelodau, ac awgrymwyd y gallai Grwpiau Gweithredu Lleol a Chyrff Cyflawni Arweiniol gynorthwyo hefyd.
32. Ychwanegodd Sioned Evans, o safbwynt WEFO, fod ymdrechion yn cael eu gwneud hefyd i weithio'n agos gyda buddiolwyr i symleiddio prosesau cymaint â phosibl. Roedd yr aelodau yn cefnogi unrhyw gyfleoedd i ddileu rhwystrau a lleihau'r baich gweinyddol lle y bo'n bosibl.

#### **EITEM 4: Addasiadau i Raglenni ERDF ac ESF**

33. Rhoddodd Tom Smithson y wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau ar y cynnydd sy'n cael ei wneud gyda'r addasiadau arfaethedig i Raglenni'r Cronfeydd Strwythurol. Eglurodd fod y data pellach a gafwyd o'r galwadau diweddar wedi helpu i roi

dealltwriaeth gliriach a'i fod, mewn rhai achosion, wedi newid rhai o'r tybiaethau a wnaed yn y papur cynnig a gyflwynwyd i PMRh yn ei gyfarfod ym mis Mehefin. Nododd Tom Smithson rai o'r materion a wynebir gan bob cronfa:

- ERDF - Mae'r tybiaethau a'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i bennu targedau yn wreiddiol, yn dangos nad yw profiad yn y gorffennol bob amser yn ddangosydd da, yn bennaf oherwydd gweithgareddau newydd nad ydynt wedi'u cyflawni yn ystod Rhaglenni blaenorol. Er enghraifft, ar hyn o bryd, mae Ymchwil ac Arloesedd yn canolbwyntio ar fanylebau a chydweithrediadau SMART, sy'n golygu bod llai o fusnesau yn cymryd rhan. Felly, un o'r newidiadau a gynigiwyd yw lleihau nifer y busnesau a chynyddu nifer y cydweithrediadau.
- ESF - Mae camau i dynhau'r farchnad lafur yn golygu ei bod hi'n anodd nodi cyfranogwyr ac mae'r cyni parhaus yn gosod pwysau sylweddol ar bob sector wrth geisio mynd ati i sicrhau arian cyfatebol. Nid yw'r materion hynny sy'n ymwneud â dangosyddion yr un fath â'r rhai ar gyfer ERDF gan fod busnesau yn ymgymryd â'r un gweithgareddau ag a wnaethant yn ystod rhaglenni blaenorol. Mae angen rhai mân addasiadau i'r dangosyddion; er enghraifft, mae angen newid y diffiniad 'Sgiliau/Dim Sgiliau' i 'Dim Sgiliau/Sgiliau Isel' er mwyn adlewyrchu bwriad gwirioneddol y dangosydd hwn ac oherwydd yr anawsterau a nodwyd o ran cyflawni diffiniad y Comisiwn Ewropeaidd o 'dim sgiliau'. Bydd yr addasiad hefyd yn anelu at gyflwyno 'meithrin capasiti' fel gweithgarwch newydd i'r Rhaglenni er mwyn adlewyrchu'r gwaith sy'n mynd rhagddo i ranbartholi datblygiad economaidd.

34. Cadarnhaodd Tom Smithson y caiff papur dull ei gyflwyno ar gyfer ei drafod yng nghyfarfod PMRh ym mis Rhagfyr ac y bydd trafodaethau ffurfiol yn dechrau gyda'r Comisiwn Ewropeaidd wedi hynny.

35. Mewn ymateb i ymholiad gan un o'r aelodau ynghylch y broses ymgynghori, cadarnhaodd Tom Smithson y caiff trafodaethau eu cynnal â grwpiau allweddol nawr bod y newidiadau tebygol yn hysbys.

36. Gofynnodd aelod arall p'un a ellid gwneud mwy i gefnogi'r agenda 'tlodi cudd' ar gyfer pobl sydd eisoes mewn gwaith. Eglurodd Michael Parkinson fod y galwadau dros yr haf wedi cwmpasu'r maes hwn ac, er bod modd cyflwyno cynigion ar gyfer y flaenoriaeth hon o hyd, bod llai o alw.

## **EITEM 5: Strategaeth Gwybodaeth a Chyhoeddusrwydd y Rhaglen Datblygu Gwledig**

**I gynnwys: Cynllun Gwaith Rhwydwaith Gwledig Cymru 2017**

37. Gwahoddwyd John Davies i roi trosolwg a diweddariad ar Strategaeth Gwybodaeth a Chyhoedduswydd y Rhaglen Datblygu Gwledig. Eglurodd John fod y papur a'r cynllun gwaith cysylltiedig yn amlinellu'r ffordd yr eir ati i roi cyhoedduswydd i'r cynlluniau hynny a ariennir drwy'r Rhaglen Datblygu Gwledig. Mae'r cynllun gwaith yn rhan hanfodol o Strategaeth Gwybodaeth a Chyhoedduswydd Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru ac yn chwarae rôl allweddol yn y gwaith o gydgyssylltu'r gweithgareddau cyfathrebu, gwybodaeth a chyhoedduswydd ar gyfer Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru a'i chynlluniau cysylltiedig. Aeth John Davies ymlaen i egluro bod Uned Gymorth Rhwydwaith Gwledig Cymru wedi'i sefydlu er mwyn trefnu cyfleoedd rhwydweithio, hyfforddiant a chyfnewid gwybodaeth er mwyn cynorthwyo'r gwaith o roi Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 ar waith a'i chyflawni. Yna symudodd ymlaen at y cyflwyniad a oedd yn rhoi trosolwg o waith y tîm.
38. Croesawodd cynrychiolydd y Comisiwn y pwynt hwn. Nododd y dylai papur y Strategaeth ddiwallu anghenion Cymru yn bennaf, er gwaethaf rhwymedigaethau rheoliadol yr UE. Estynnodd DG Agri hefyd wahoddiad i Lywodraeth Cymru barhau i gymryd rhan mewn gweithgareddau wedi'u cynllunio gyda'r nod o'u gwella ymhellach.

#### **Eitem 6: Cyflwyniad: Rhwydwaith Gwledig Cymru**

39. Gwahoddwyd John Davies i roi cyflwyniad ar waith Rhwydwaith Gwledig Cymru. Gwnaethpwyd y pwyntiau allweddol canlynol:
- Y rôl bwysig sydd gan Rhwydwaith Gwledig Cymru o ran sicrhau bod partïon sy'n ymwneud â gweithgarwch datblygu gwledig yn gallu rhwydweithio a rhyngweithio. Mae'r rhwydwaith hefyd yn gweithio'n galed i hyrwyddo cyfleoedd cyllido a dangos enghreifftiau o'r prosiectau a ariennir. Darperir cyngor ac arweiniad i Grwpiau Gweithredu Lleol ar bob agwedd ar waith datblygu lleol a arweinir gan y gymuned.
  - Mae Uned Gymorth Rhwydwaith Gwledig Cymru yn rhan o Rhwydwaith Gwledig Cenedlaethol y DU sy'n dwyn ynghyd rwydweithiau gwledig o bob cwr o'r DU i gasglu a rhannu gwybodaeth, arfer gorau a hyfforddiant.
  - Mae Rhwydwaith Datblygu Gwledig Ewrop yn rhannu gwybodaeth, arfer gorau a gweithgarwch cyfathrebu o bob un o raglenni datblygu'r Undeb Ewropeaidd.
40. Fel rhan o'r cyflwyniad, cafodd yr aelodau gyfle hefyd i weld gwefan Rhwydwaith Gwledig Cymru. Dangoswyd dau fideo i'r aelodau a gafodd eu ffrydio'n fyw o'r wefan. Roedd y cyntaf yn trafod "Ynni Adnewyddadwy ac Effeithlonrwydd Cymunedol" yn Sir Fynwy ac roedd yr ail, "Rhodd Eryri", yn annog cyfraniadau lleol tuag at brosiectau yn yr ardal.

41. Croesawodd yr aelodau gyflwyniad John Davies a gwnaethpwyd y sylwadau canlynol:

- Pwysleisiwyd pwysigrwydd gweld effaith prosiectau 'ar lawr gwlad', a nodwyd bod y gallu i chwilio'r wefan yn ôl ardal ddaearyddol yn fantais wirioneddol. Awgrymwyd y gallai'r gronfa ddata ddaearyddol gael ei chryfhau er mwyn dangos mwy o fanylion ysgrifenedig ynghylch pam bod prosiect wedi'i gymeradwyo a'r gweithgarwch y mae'n ei gyflawni.
- Gwnaethpwyd cais i gynnwys y prosiectau unigol a gymeradwyir o dan y gweithrediadau mantell yn y rhestr o weithrediadau'r Cronfeydd Strwythurol, ynghyd â manylion lleoliadau daearyddol.
- Pwysleisiwyd y buddiannau sydd ynghlwm wrth ymgysylltu â Rhwydwaith Datblygu Gwledig Ewrop a nodwyd bod angen annog mwy o gyfranogiad gan y rhwydwaith hwn.
- Tynnwyd sylw at fanteision gweithgarwch cyfathrebu da mewn perthynas â'r rhaglenni a phwysigrwyd cyfleu negeseuon er mwyn dangos yr hyn sydd wedi'i gyflawni ar gyfer Cymru.
- Cafodd gwaith y Rhwydwaith ei ganmol, a phwysleisiwyd y gwelliant sylweddol a wnaed o gymharu â rhaglenni blaenorol.

42. Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch cyfranogiad cymunedau gwledig nad ydynt yn aelodau o LEADER, cadarnhaodd John Davies fod cysylltiadau agos wedi'u meithrin â Cyswllt Ffermio er mwyn cyfleu negeseuon, a bod adnoddau cyfathrebu eraill fel Twitter a chylchlythyrau rheolaidd yn cael eu defnyddio.

## **Eitem 7: Diweddaru Polisi Rhanbarthol yn y Dyfodol**

43. Soniodd y cadeirydd wrth yr aelodau fod y Prif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol wedi lansio eu trydedd ddogfen Brexit ar 7 Medi – Brexit a Thegwch o ran Symudiad Pobl – fel rhan o gyfres 'Diogelu Dyfodol Cymru'.

44. Yna, gwahoddwyd Tom Smithson i roi diweddariad i aelodau ar y cynnydd sy'n cael ei wneud. Ailadroddodd bwysigrwydd y Bil Ymadael a thynnodd sylw at yr ymateb cyflym a gafwyd gan Brif Weinidog Cymru a Phrif Weinidog yr Alban. Yn gynharach yn yr wythnos, cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban ddatganiad a oedd yn nodi pam bod yr Alban a Chymru yn gwrthwynebu'r bil ac yn awgrymu diwygiadau y cytunwyd arnynt ar y cyd. Gallai'r bil arwain at gyfyngiadau sylweddol wrth fynd ati i ddatblygu polisiau yn y dyfodol.

45. Ers cyfarfod diwethaf PMRh, mae'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol wedi cyhoeddi canlyniadau ei adolygiad 'Beth nesaf i Gymru', y disgwylir iddo gael ei drafod yn y cyfarfod llawn ar 27 Medi 2017.

46. Nododd Tom Smithson hefyd fod pob un o'r papurau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cyhoeddi hyd yma mewn perthynas â Brexit wedi cael eu croesawu, ac y

bydd y papur nesaf yn y gyfres yn trafod dyfodol polisïau rhanbarthol. Disgwylir i'r papur hwnnw gael ei gyhoeddi o fewn y mis nesaf. Bwriedir i'r papur ysgogi trafodaethau ynghylch egwyddorion eang cyllido rhanbarthol, ac arwain at bartneriaeth agored a thryloyw yn seiliedig ar y modd y rheolwyd cronfeydd ESI.

47. Gwnaeth yr aelodau y sylwadau canlynol:

- Pwysigrwydd defnyddio'r papur i ddylanwadu ar syniadau a'r penderfyniadau a wneir yn Whitehall lle y bo'n bosibl.
- Nid oes eglurhad wedi'i roi eto ynghylch y bwriad i greu Cronfa Ffyniant a Rennir ar gyfer DU a bydd mwy o waith ymgysylltu a thrafodaethau â Whitehall yn hanfodol.
- Bydd ymarferion ymgynghori yn sicrhau bod modd datblygu a defnyddio'r gwersi a ddysgwyd o ran cyllid yr UE yn y dyfodol. Cydnabuwyd bod gan yr aelodau rôl i'w chwarae wrth ysgogi trafodaethau yn eu meysydd eu hunain.
- Pwysigrwydd defnyddio'r ymgynghoriad hwn i ddod â chymunedau ynghyd a cheisio mynd i'r afael â'r bwlch rhwng y cenedlaethau.

48. Cadarnhaodd Rob Halford y byddai digwyddiadau ymgynghori WEFO yn cael eu cynnal yn y gogledd a'r de er mwyn sicrhau bod ymgysylltu cydweithredol â phob partner. Bydd cyfle hefyd i ymgysylltu'n ehangach â rhanddeiliaid: gyda staff WEFO ar gael ac yn awyddus i ymgysylltu'n uniongyrchol â rhanddeiliaid a'u hetholaethau mewn ffyrdd y tybia rhanddeiliaid sydd fwyaf priodol er mwyn sicrhau'r cyfranogiad mwyaf posibl.

## **Eitem 8: Unrhyw Fater Arall**

49. Cyfeiriwyd yr aelodau at y papurau canlynol ac ni chafwyd unrhyw sylwadau pellach:

- Gwnaeth yr aelodau gytuno ar Feini Prawf Dethol y Rhaglen Datblygu Gwledig ac Atodiad 1.
- Adroddiadau Gweithredu Blynnyddol 2016: Sylwadau Aelodau PMRh a phapur Ymatebion yr Awdurdod Rheoli.

50. Cyflwynodd Sioned Evans bapur ar Ddyddiadau Cyfarfodydd PMRh yn y Dyfodol a chytunodd yr aelodau ar y canlynol:

- Dylai cyfarfod deuddydd PMRh gael ei gynnal yng ngogledd Cymru yn 2018.
- Byddai cyfarfodydd PMRh yn parhau i gael eu cynnal ar ddydd Gwener.
- Byddai PMRh yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn yn hytrach na phedair gwaith y flwyddyn.
- Byddai hyn rhoi mwy o amser i'r aelodau ymgysylltu â phrosiectau yn eu hardaloedd.

|                                                                                                                      |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <p><b>Cam gweithredu: Ysgrifenyddiaeth PMRh i anfon dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd 2018 cyn gynted â phosibl</b></p> |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|

51. Cynhelir cyfarfod nesaf PMRh ddydd Gwener 1 Rhagfyr 2017 yn swyddfa Llywodraeth Cymru ym Merthyr Tudful.

**Ysgrifenyddiaeth PMRh  
Medi 2017**

**Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd 2014-2020 PMRh Cymru  
15 Medi 2017  
Swyddfa Llywodraeth Cymru, Merthyr Tudful**

**Cadeirydd – Julie Morgan (AC)**

***Enwebir yr aelodau ar sail gynrychioliadol, o bartneriaid a chyrff statudol:***

|                         |                                                                                            |
|-------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------|
| Dr David Blaney         | Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru                                                           |
| Derek Walker            | Canolfan Cydweithredol Cymru                                                               |
| Rhian Jardine           | Cynaliadwyedd Amgylcheddol (Cyfoeth Naturiol Cymru)                                        |
| Lowri Gwilym            | Llywodraeth Leol (CLILC)                                                                   |
| Charlotte Priddy        | Undeb Amaethwyr Cymru (UAC)                                                                |
| Huw Bryer               | <i>Eilydd dros Duncan Hamer</i> - Llywodraeth Cymru (Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol) |
| Yr Athro David Shepherd | Addysg Uwch Cymru                                                                          |
| Jocelyn Llewellyn       | Canolfan Byd Gwaith                                                                        |
| Lowri Owain             | LEADER                                                                                     |
| Alex Bevan              | TUC Cymru                                                                                  |
| Rachel Garside-Jones    | Dirprwy Gyfarwyddwr Dros Dro, Sgiliau, Cyflogadwyedd a Chyllid yr UE                       |

***Aelodau wedi'u dethol drwy'r broses Penodiadau cyhoeddus:***

|                           |
|---------------------------|
| Beth Winkley              |
| Siân Price                |
| Yr Athro Richard B Davies |
| David (Dai) Davies        |
| Grahame Guilford          |
| Joy Kent                  |

***Cynghorwyr:***

|                          |                                                                                      |
|--------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------|
| Guus Muijzers            | Comisiwn Ewropeaidd, Swyddog Desg y DU sy'n gyfrifol am Raglenni 2014-2020, DG Regio |
| Joanna Gawrylczyk-Malesa | Comisiwn Ewropeaidd, Swyddog Desg ar gyfer Rhaglenni ESF, DG Employ                  |
| Marek Beran              | Comisiwn Ewropeaidd, DG AGRI                                                         |
| Alexander Bartovič       | Comisiwn Ewropeaidd, Pennaeth Uned, DG AGRI                                          |

**Awdurdodau Rheoli Rhaglenni:****Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru / Adran yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol**

|                   |                                                                         |
|-------------------|-------------------------------------------------------------------------|
| Sioned Evans      | Prif Weithredwr, WEFO (ERDF, ESF)                                       |
| David McNeill     | Pennaeth yr Is-adran Datblygu Gwledig                                   |
| Rob Halford       | Pennaeth Cynllunio a Strategaeth, WEFO                                  |
| Peter Ryland      | Dirprwy Gyfarwyddwr, Perfformiad Rhaglenni a Chyllid (ERDF, ESF)        |
| Sue Price         | Pennaeth Rhaglenni ERDF                                                 |
| Michael Parkinson | Pennaeth Sgiliau a Gweithgarwch Economaidd, WEFO                        |
| Gail Merriman     | Rheolwr Cynlluniau Cymunedol a Chydweithredu'r Rhaglen Datblygu Gwledig |
| John Davies       | Pennaeth Rhwydwaith Gwledig Cymru                                       |
| Tom Smithson      | Pennaeth Strategaeth, WEFO                                              |
| Cath Cleaton      | Ysgrifenyddiaeth                                                        |
| Rhiannon Clancy   | Ysgrifenyddiaeth                                                        |
| Aled Wright       | Ysgrifenyddiaeth                                                        |

**YMDDIHEURIADAU**

|                |                                                          |
|----------------|----------------------------------------------------------|
| Tom Whyatt     | Busnes a Menter (Diwydiant Cymru)                        |
| Arfon Williams | RSPB                                                     |
| Julie Cook     | TUC Cymru                                                |
| Duncan Hamer   | Llywodraeth Cymru (Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol) |
| Phil Fiander   | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC)                |

## **PWYLLGOR MONITRO RHAGLENNI CYMRU, CRONFEYDD STRWYTHUROL A BUDDSODDI EWROPEAIDD 2014 – 2020**

### **ADRODDIAD MONITRO'R RHAGLENNI**

#### **Trosolwg**

Mae'r papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithredu Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd: Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, ERDF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Rhaglenni ESF a Rhaglenni ERDF ac ESF Dwyrain Cymru. Ceir adroddiadau ar gronfeydd penodol yn Atodiadau 1 i 3. Mae'r holl ddata'n gyfredol ar 31/10/2017. Y cyfraddau cynllunio a ddefnyddir yn yr adroddiad yw £1:€1.17 ar gyfer Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol a £1:€1.25 ar gyfer Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020. Mae cyfeiriadau at gyfarfod blaenorol Pwyllgor Monitro'r Rhaglenni drwy'r ddogfen gyfan yn cyfeirio at y cyfarfod ym mis Medi 2017.

#### **Y sefyllfa gyffredinol**

- Mae 166 o weithrediadau gwerth £2,612m (gan gynnwys arian yr UE gwerth £1,387m), yn cael eu cefnogi ar hyn o bryd gan y Cronfeydd Strwythurol a byddant yn cynorthwyo dros 40,300 o fusnesau ac yn rhoi cymorth hyfforddiant/cyflogaeth i fwy na 404,700 o bobl.
- Mae Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 yn cefnogi cyfanswm o 6,877 o gontractau amaeth-amgylchedd ar hyn o bryd, sy'n cwmpasu 676,469 ha ynghyd â 593 o gontractau organig newydd sy'n cwmpasu 72,562 ha. Crëwyd 462ha o goetir newydd trwy Glastir - Creu Coetir. Mae 4,005 o gyfranogwyr wedi'u hyfforddi gyda 524 o fuddiolwyr wedi eu cynghori.


#### **Cynnydd ariannol**

##### **Neilltuo cyllid**


- O dan Raglenni ERDF, mae cyfanswm o £1,441m wedi cael ei neilltuo ar hyn o bryd (75% o gyfanswm y dyraniad), mae £753m ohono yn arian yr UE (63% o ddyraniad yr UE).
- O dan Raglenni ESF, mae cyfanswm o £1,171m wedi cael ei neilltuo ar hyn o bryd (92% o gyfanswm y dyraniad), mae £635m ohono yn arian yr UE (74% o ddyraniad yr UE).
- O dan Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, mae cyfanswm o £787m (102% o werth y rhaglen) wedi ei neilltuo, mae £521m ohono yn arian yr UE.

**Gwariant**

- Mae tua £256m o gyfanswm y gwariant wedi'i gofnodi o dan Raglenni ERDF, mae £129m ohono yn arian yr UE.
- Mae tua £183m o gyfanswm y gwariant wedi'i gofnodi o dan Raglenni ESF, mae £118m ohono yn arian yr UE.
- Mae gwariant o gwmpas £125m wedi'i gofnodi yn Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, mae £89m ohono yn arian yr UE.

**Siart 1: Cyfanswm Gwariant Rhaglenni a Neilltuwyd / a Wariwyd**

Ar gyfer Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 mae Cyfanswm Gwariant y Rhaglen yn cynnwys Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig ynghyd â chyllid domestig Llywodraeth Cymru. Ar gyfer y Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol mae'n cynnwys ERDF neu ESF ynghyd ag arian cyfatebol.

**Siart 2: Cronfeydd yr UE a Neilltuwyd / a Wariwyd (ERDF / ESF / EAFRD)**

**Data ar Ddangosyddion Atodiadau**

**Atodiad 1: Diweddariad ERDF**

**Atodiad 2: Diweddariad ESF**

**Atodiad 3: Diweddariad WGRC-RDP 2014-2020**

**Atodiad 4: Cronfeydd Strwythurol: Rhestr gweithrediadau a gymeradwywyd**

**Atodiad 5: Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 – Rhestr Prosiectau Economaidd-Gymdeithasol a gymeradwyd**

**Atodiad 6: Fframwaith perfformiad**

## Adran 1: Rhaglenni ERDF: Neilltuo Cyllid

1. Mae'r adran hon yn nodi'n fanwl y cynnydd ariannol presennol o dan Raglenni ERDF, gan gynnwys trosolwg o'r Rhaglenni a gwybodaeth ar lefel Blaenoriaeth.
2. Dengys Tabl 1 nifer Grantiau'r UE a'r symiau a neilltuwyd ar gyfer Gweithrediadau cymeradwy o dan Raglenni ERDF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru.

**Tabl 1: Neilltuo Grant yr UE yn ôl Rhaglen a Blaenoriaeth: Gweithrediadau Cymeradwy**

| £ Miliynau                       |                |                           |                             |                       |        |                          |       |                       |       |                          |       |
|----------------------------------|----------------|---------------------------|-----------------------------|-----------------------|--------|--------------------------|-------|-----------------------|-------|--------------------------|-------|
| Blaenoriaeth                     | Gweithrediadau | Dyraniad                  |                             | Wedi'i neilltuo       |        |                          |       | Gwariant              |       |                          |       |
|                                  |                | Cyfansw<br>m <sup>1</sup> | Grant yr<br>UE <sup>1</sup> | Cyfanswm <sup>2</sup> |        | Grant yr UE <sup>2</sup> |       | Cyfanswm <sup>3</sup> |       | Grant yr UE <sup>3</sup> |       |
| ERDF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd |                |                           |                             |                       |        |                          |       |                       |       |                          |       |
| 1                                | 20             | 386.5                     | 255.8                       | 358.7                 | (93%)  | 210.6                    | (82%) | 34.0                  | (9%)  | 19.7                     | (8%)  |
| 2                                | 7              | 284.8                     | 177.8                       | 275.8                 | (97%)  | 146.4                    | (82%) | 96.8                  | (34%) | 46.9                     | (26%) |
| 3                                | 8              | 210.3                     | 146.0                       | 79.2                  | (38%)  | 48.8                     | (33%) | 13.2                  | (6%)  | 6.9                      | (5%)  |
| 4                                | 20             | 652.6                     | 428.5                       | 458.9                 | (70%)  | 216.1                    | (50%) | 34.8                  | (5%)  | 22.8                     | (5%)  |
| 5                                | 7              | 27.6                      | 20.6                        | 26.4                  | (96%)  | 19.5                     | (95%) | 3.5                   | (13%) | 2.3                      | (11%) |
| Cyfanswm                         | 62             | 1,561.8                   | 1,028.6                     | 1,199.0               | (77%)  | 641.3                    | (62%) | 182.2                 | (12%) | 98.7                     | (10%) |
| ERDF Dwyrain Cymru               |                |                           |                             |                       |        |                          |       |                       |       |                          |       |
| 1                                | 9              | 152.3                     | 76.2                        | 146.3                 | (96%)  | 64.2                     | (84%) | 22.1                  | (14%) | 7.1                      | (9%)  |
| 2                                | 7              | 68.2                      | 34.1                        | 63.2                  | (93%)  | 31.6                     | (93%) | 40.5                  | (59%) | 17.1                     | (50%) |
| 3                                | 1              | 38.3                      | 19.1                        | 7.1                   | (19%)  | 3.6                      | (19%) | 0.0                   | (0%)  | 0.0                      | (0%)  |
| 4                                | 2              | 81.8                      | 40.9                        | 18.6                  | (23%)  | 9.3                      | (23%) | 11.0                  | (13%) | 5.7                      | (14%) |
|                                                                                                                                                                                                    | Cyfranogwyr sydd wedi eu tangyflogi sydd mewn sefyllfa well ar y farchnad lafur wrth adael fel contract parhaol ag oriau uwch                                              | 40%                         | 0%                | 0%                | 0%                 | n/a           | n/a               | n/a               | n/a                |

Ffynhonnell: SCEC, 31/10/2017

13. Mae'r perfformiad cyffredinol ar gyfer y flaenoriaeth hon yn dal yn addawol gyda thros 13,000 o gyfranogwyr hyd yma. Fel arfer, mae nifer y cyfranogwyr a ragwelir yn rhagori ar dargedau'r rhaglen yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd. Fodd bynnag, mae'r cynnydd yn erbyn y targedau a ragwelwyd yn dangos nad yw tybiaethau cynllunio cynnar gan weithrediadau wedi cyflawni'n unol â'r disgwyl. Yr arwyddion yw bod cryfder y farchnad lafur a'r her o ymgysylltu â grŵp o gleientiaid anos eu helpu yn effeithio ar y gwaith cyflawni. Mae WEFO yn parhau i fonitro gweithrediadau unigol yn agos.
14. *Colli swydd a diweithdra byrdymor (AP1.1 Gorllewin Cymru a'r Cymoedd)*: Nid yw nifer y bobl sydd wedi gwneud cais am gymorth ar ôl colli swydd o dan weithrediad ReACT wedi bod mor uchel â'r hyn a ddisgwyliwyd yn wreiddiol gan fod nifer y swyddi a gollwyd yn y farchnad lafur yn is na'r disgwyl. Felly, mae'n gadarnhaol ar y cyfan bod y niferoedd yn is na'r disgwyl ond mae'n rhywbeth y bydd angen i WEFO ei fonitro o ran lefelau gwariant cyffredinol yn yr amcan penodol hwn. Hefyd, mae gweithrediad ReAct wedi cael ei newid er mwyn ei alluogi i gefnogi diweithdra byrdymor o fis Mawrth 2018.
15. *Economaidd Anweithgar a Di-waith yn yr Hirdymor (AP1.2 Gorllewin Cymru a'r Cymoedd ac AP1 Dwyrain Cymru)*: Mae'r rhagolygon yn rhagori ar dargedau'r rhaglenni o ystyried y lefel neilltuo ond, o ganlyniad i'r prinder ymatebion i'r alwad yn Nwyrain Cymru, ceir heriau o ran cyflawni'r maes hwn o fewn y rhaglen. Mae'r ffaith mai nifer fach o gyfranogwyr yr ymgysylltwyd â nhw hyd yma yn erbyn y proffil, yn ôl pob golwg, yn adlewyrchu'r ffaith ei bod wedi cymryd mwy o amser nag a ragwelwyd i roi systemau ar waith a dechrau cyflawni, ynghyd â'r ffaith ei bod yn fwy heriol ymgysylltu â grwpiau targed anos eu cyrraedd, sy'n sail i amcanion y rhaglen. Adlewyrchir hyn hefyd yn y dangosyddion canlyniadau yn yr ystyr bod angen ymyriadau dwysach yn y tymor hwy gyda'r garfan anos ei chyrraedd ac felly caiff y canlyniadau a ragwelir eu sicrhau'n ddiweddarach nag a gynlluniwyd. Mae'r hyn a gyflawnwyd yn dangos gwelliant yn y canlyniadau, yn enwedig ymhlith y garfan Economaidd Anweithgar sy'n mynd i mewn i waith.
16. *Unigolion tangyflogedig ac unigolion cyflogedig â chyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio (AP3 Gorllewin Cymru a'r Cymoedd)*: Unwaith eto, mae'r hyn a gyflawnwyd yn is na'r disgwyl ar y cam hwn o'r broses weithredu am ei bod wedi cymryd mwy o amser nag a ragwelwyd i roi prosesau cyflawni ar waith. Disgwylir y bydd yr alwad ddiweddar am hyn ar gyfer yr Amcan Penodol hwn yn rhaglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd ac estyniadau i'r gweithrediadau sydd eisoes yn bodoli yn golygu y bydd yr holl adnoddau sydd ar gael yn cael eu neilltuo ac yn cyfrannu at berfformiad gwell yn 2018.

## Blaenoriaeth 2: Sgiliau ar gyfer Twf

Tabl 4: Neilltuo Grant yr UE yn ôl Amcan Penodol

| £ Miliynau                      |                 |          |             |                 |        |             |        |          |       |             |       |
|---------------------------------|-----------------|----------|-------------|-----------------|--------|-------------|--------|----------|-------|-------------|-------|
| Amcan Penodol                   | Gweithredia dau | Dyraniad |             | Wedi'i neilltuo |        |             |        | Gwariant |       |             |       |
|                                 |                 | Cyfanswm | Grant yr UE | Cyfanswm        |        | Grant yr UE |        | Cyfanswm |       | Grant yr UE |       |
| ESF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd |                 |          |             |                 |        |             |        |          |       |             |       |
| AP2.1                           | 5               | 191.5    | 142.4       | 152.3           | (80%)  | 88.5        | (62%)  | 23.8     | (12%) | 20.1        | (14%) |
| AP2.2                           | 8               | 132.7    | 88.9        | 205.2           | (155%) | 123.5       | (139%) | 35.2     | (27%) | 28.5        | (32%) |
| AP2.3                           | 2               | 61.6     | 45.8        | 56.8            | (92%)  | 39.7        | (87%)  | 10.1     | (16%) | 6.9         | (15%) |
| AP2.4                           | 1               | 24.6     | 18.3        | 7.3             | (30%)  | 5.6         | (30%)  | 4.9      | (20%) | 4.0         | (22%) |
| Cyfanswm                        | 16              | 410.4    | 295.4       | 421.6           | (103%) | 257.2       | (87%)  | 73.9     | (18%) | 59.5        | (20%) |
| ESF Dwyrain Cymru               |                 |          |             |                 |        |             |        |          |       |             |       |
| AP2.1                           | 3               | 106.8    | 53.4        | 75.2            | (70%)  | 19.0        | (36%)  | 8.4      | (8%)  | 0.8         | (2%)  |
| AP2.2                           | 6               | 53.4     | 24.0        | 113.1           | (212%) | 25.4        | (106%) | 22.6     | (42%) | 4.5         | (19%) |
| AP2.3                           | 1               | 8.4      | 4.2         | 3.0             | (36%)  | 2.4         | (58%)  | 1.7      | (21%) | 1.6         | (38%) |
| Cyfanswm                        | 10              | 168.6    | 81.6        | 191.4           | (114%) | 46.9        | (57%)  | 32.7     | (19%) | 7.0         | (9%)  |

Ffynhonnell: SCEC, 31/10/2017

Nodiadau:

AP2.1: Sgiliau Sylfaenol

AP2.2: Addasrwydd a Datblygiad

AP2.3: Ymchwil ac Arloesi

AP2.4: Cydraddoldeb Rhywiol (AP2.3 Dwyrain Cymru)

**Cymeradwyaethau ers cyfarfod diwethaf Pwyllgor Monitro'r Rhaglenni (PMRh)**

17. Dim cymeradwyaethau ers cyfarfod blaenorol PMRh.

18. Nid oes unrhyw weithrediadau newydd wedi'u cymeradwyo ers cyfarfod diwethaf PMRh o dan y Flaenoriaeth hon. Neilltuwyd £4.3 miliwn arall yn rhaglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd ar gyfer gweithrediad yr **Academi Deunyddiau a Gweithgynhyrchu** sy'n bodoli eisoes, a arweinir gan Brifysgol Abertawe, er mwyn helpu graddedigion ychwanegol i astudio ar gyfer Doethuriaethau Peirianeg a Graddau Meistr Ymchwil â ffocws ar ddiwydiant ym maes deunyddiau a gweithgynhyrchu uwch. Mae hyn yn golygu bod y lefelau neilltuo ar gyfer y Flaenoriaeth, sy'n eithaf uchel yn barod, yn 87% yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a 57% yn Nwyrain Cymru, gyda chyfanswm o £304.1m o gyllid yr UE eisoes wedi'i neilltuo a dim ond £72.9m heb ei ddyrannu eto. Mae nifer o gynigion yn dal i gael eu datblygu a cheir potensial i ymestyn rhai gweithrediadau cymeradwy sydd eisoes yn bodoli am gyfnodau hwy, yn amodol ar berfformiad. Mae'r portffolio o weithrediadau hyd yma yn adeiladu ar gyflawniadau rhaglen 2007-13, drwy ganolbwyntio ar ddarparu'r sgiliau hanfodol, technegol ac arbenigol sydd eu hangen i greu gweithlu ystwyth ac ymatebol sy'n barod i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a'r potensial o ran twf a gynigir gan economi wybodaeth fodern. Er bod sgiliau sylfaenol a hanfodol yn sylfaen gyffredin, ac angenrheidiol, i'r gweithlu cyfan, mae'r

wybodaeth am gyfleoedd twf allweddol a'r sectorau sy'n datblygu a'r sectorau â blaenoriaeth a nodwyd yn y Fframwaith Blaenoriaethu Economaidd, ynghyd â'r Cynlluniau Cyflogaeth a Sgiliau sy'n cael eu datblygu gan y Partneriaethau Dysgu Rhanbarthol a Gwybodaeth am y Farchnad Lafur yn adnoddau allweddol i arwain y gwaith o dargedu ymyriadau sgiliau a'u ffocws, yn enwedig y rhai sy'n cyflwyno sgiliau ar lefel ganolraddol ac uwch.

19. Mae buddiolwyr sy'n awyddus i roi hyfforddiant i'r gweithlu cyflogedig yn ymateb yn gadarnhaol i gyfeiriad polisi newydd cyd-fuddsoddi gan gyflogwyr a nodwyd yng Nghynllun Gweithredu Sgiliau Llywodraeth Cymru ac sy'n cael ei annog gan y Rhaglenni Gweithredol. Mae arian cyfatebol preifat o gyfraniadau arian parod cyflogwyr yn rhan annatod o'r gweithrediadau hyn wrth iddynt gael eu datblygu a'u cymeradwyo.
20. O fewn rhaglen Gorllewin Cymru, mae 20% o'r cyfanswm gwerth grant bellach wedi cael ei dalu i fuddiolwyr.

Tabl 5: Cynnydd yn erbyn dangosyddion

| Amcan Penodol                                                                                                                  | Allbynnau                                                                                                                                                                                             | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd |                   |                   |                    | Dwyrain Cymru |                   |                   |                    |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------|-------------------|-------------------|--------------------|---------------|-------------------|-------------------|--------------------|
|                                                                                                                                |                                                                                                                                                                                                       | Targed                      | Rhagolwg Prosiect | Proffilio hyd yma | Cyflawnwyd hyd yma | Targed        | Rhagolwg Prosiect | Proffilio hyd yma | Cyflawnwyd hyd yma |
| AP2.1 Cynyddu lefelau sgiliau, gan gynnwys sgiliau sy'n berthnasol i waith, y rhai yn y gweithlu sydd â sgiliau isel os o gwbl | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig heb gymwysterau ffurfiol - Dynion                                                                                                                  | 14,029                      | 5,280             | 1,947             | 563                | 7,799         | 1,950             | 688               | 86                 |
|                                                                                                                                | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig heb gymwysterau ffurfiol - Menywod                                                                                                                 | 12,771                      | 5,599             | 1,805             | 429                | 7,101         | 2,025             | 838               | 97                 |
|                                                                                                                                | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig sydd â chymwysterau hyd at a chan gynnwys addysg uwchradd is - Dynion                                                                              | 23,870                      | 21,557            | 6,735             | 6,795              | 13,296        | 8,938             | 2,446             | 3,276              |
|                                                                                                                                | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig sydd â chymwysterau hyd at a chan gynnwys addysg uwchradd is - Menywod                                                                             | 21,730                      | 26,089            | 6,726             | 6,812              | 12,104        | 10,625            | 2,610             | 3,646              |
|                                                                                                                                | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig heb unrhyw gymwysterau ffurfiol sy'n ennill sgiliau hanfodol neu gymhwyster technegol neu benodol i swydd wrth adael - Dynion                      | 72%                         | 79%               | 45%               | 44%                | 72%           | 79%               | 31%               | 0%                 |
|                                                                                                                                | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig heb unrhyw gymwysterau ffurfiol sy'n ennill sgiliau hanfodol neu gymhwyster technegol neu benodol i swydd wrth adael - Menywod                     | 72%                         | 79%               | 50%               | 46%                | 72%           | 79%               | 29%               | 0%                 |
|                                                                                                                                | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig gyda hyd at ac yn cynnwys addysg uwchradd is sy'n ennill cymhwyster sgiliau hanfodol neu benodol i swydd ar lefel uwchradd is wrth adael - Dynion  | 72%                         | 79%               | 45%               | 58%                | 72%           | 80%               | 41%               | 54%                |
|                                                                                                                                | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig gyda hyd at ac yn cynnwys addysg uwchradd is sy'n ennill cymhwyster sgiliau hanfodol neu benodol i swydd ar lefel uwchradd is wrth adael - Menywod | 72%                         | 79%               | 51%               | 55%                | 72%           | 80%               | 40%               | 50%                |

| Amcan Penodol                                                                                                     |  | Allbynnau                                                                                                                                                                                                                          | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd |                   |                   |                    | Dwyrain Cymru |                   |                   |                    |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------|-------------------|-------------------|--------------------|---------------|-------------------|-------------------|--------------------|
|                                                                                                                   |  |                                                                                                                                                                                                                                    | Targed                      | Rhagolwg Prosiect | Proffilio hyd yma | Cyflawnwyd hyd yma | Targed        | Rhagolwg Prosiect | Proffilio hyd yma | Cyflawnwyd hyd yma |
| AP2.2 Cynyddu nifer y bobl yn y gweithlu sydd â sgiliau technegol a phenodol i waith ar lefel ganolraddol ac uwch |  | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig sydd ag addysg uwchradd is (FfCChC 2) - Dynion                                                                                                                                  | 16,070                      | 22,233            | 5,461             | 4,583              | 6,438         | 9,873             | 2,346             | 1,847              |
|                                                                                                                   |  | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig sydd ag addysg uwchradd is (FfCChC 2) - Menywod                                                                                                                                 | 14,630                      | 27,469            | 5,527             | 4,733              | 5,862         | 12,240            | 2,475             | 1,847              |
|                                                                                                                   |  | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig sydd ag addysg uwchradd uwch (FfCChC 3) neu uwch - Dynion                                                                                                                       | 10,731                      | 11,852            | 4,414             | 5,246              | 4,292         | 5,353             | 1,847             | 1,847              |
|                                                                                                                   |  | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig sydd ag addysg uwchradd uwch (FfCChC 3) neu uwch - Menywod                                                                                                                      | 9,769                       | 12,941            | 6,620             | 9,633              | 3,908         | 5,471             | 3,415             | 3,415              |
|                                                                                                                   |  | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig ag addysg uwchradd is (FfCChC 2) sy'n ennill cymhwyster galwedigaethol technegol neu benodol i swydd wrth adael ar lefel uwchradd uwch (FfCChC 3) neu uwch - Dynion             | 60%                         | 80%               | 38%               | 50%                | 60%           | 80%               | 35%               | 35%                |
|                                                                                                                   |  | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig ag addysg uwchradd is (FfCChC 2) sy'n ennill cymhwyster galwedigaethol technegol neu benodol i swydd wrth adael ar lefel uwchradd uwch (FfCChC 3) neu uwch - Menywod            | 60%                         | 80%               | 42%               | 50%                | 60%           | 81%               | 50%               | 50%                |
|                                                                                                                   |  | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig ag addysg uwchradd uwch (FfCChC 3) neu uwch sy'n ennill cymhwyster galwedigaethol technegol neu benodol i swydd ar lefel uwchradd uwch (FfCChC 3) neu uwch wrth adael - Dynion  | 60%                         | 79%               | 40%               | 35%                | 60%           | 79%               | 49%               | 49%                |
|                                                                                                                   |  | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig ag addysg uwchradd uwch (FfCChC 3) neu uwch sy'n ennill cymhwyster galwedigaethol technegol neu benodol i swydd ar lefel uwchradd uwch (FfCChC 3) neu uwch wrth adael - Menywod | 60%                         | 79%               | 30%               | 42%                | 60%           | 80%               | 32%               | 32%                |

# WPMC(17)115

| Amcan Penodol                                                                                                                 | Allbynnau                                                                                                                                          | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd |                   |                   |                    | Dwyrain Cymru |                   |                   |                    |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------|-------------------|-------------------|--------------------|---------------|-------------------|-------------------|--------------------|
|                                                                                                                               |                                                                                                                                                    | Targed                      | Rhagolwg Prosiect | Proffilio hyd yma | Cyflawnwyd hyd yma | Targed        | Rhagolwg Prosiect | Proffilio hyd yma | Cyflawnwyd hyd yma |
| AP2.3 Cynyddu nifer y bobl â graddau neu gymhwyster cyfatebol sy'n cyflawni gweithgareddau ymchwil ac arloesedd ym myd busnes | Cyfranogwyr sydd ag ôl-radd neu gymhwyster cyfwerth - Dynion                                                                                       | 780                         | 486               | 231               | 183                | n/a           | n/a               | n/a               | n/a                |
|                                                                                                                               | Cyfranogwyr sydd ag ôl-radd neu gymhwyster cyfwerth - Menywod                                                                                      | 720                         | 386               | 165               | 133                | n/a           | n/a               | n/a               | n/a                |
|                                                                                                                               | Nifer y Mentrau sy'n cydweithio â darparwyr dysgu                                                                                                  | 750                         | 566               | 263               | 208                | n/a           | n/a               | n/a               | n/a                |
|                                                                                                                               | Cyfranogwyr ag ôl-radd neu gymhwyster cyfwerth sy'n ennill cymhwyster wrth adael ar lefel Meistr (FICChC 7) neu Ddoethuriaeth (FICChC 8) - Dynion  | 63%                         | 82%               | 1%                | 4%                 | n/a           | n/a               | n/a               | n/a                |
|                                                                                                                               | Cyfranogwyr ag ôl-radd neu gymhwyster cyfwerth sy'n ennill cymhwyster wrth adael ar lefel Meistr (FICChC 7) neu Ddoethuriaeth (FICChC 8) - Menywod | 63%                         | 79%               | 0%                | 0%                 | n/a           | n/a               | n/a               | n/a                |
|                                                                                                                               | Cyfranogwyr â gradd ôl-radd neu gymhwyster cyfwerth sydd mewn cyflogaeth wrth adael - Dynion                                                       | 52%                         | 0%                | 0%                | 0%                 | n/a           | n/a               | n/a               | n/a                |
|                                                                                                                               | Cyfranogwyr â gradd ôl-radd neu gymhwyster cyfwerth sydd mewn cyflogaeth wrth adael - Menywod                                                      | 52%                         | 0%                | 0%                | 0%                 | n/a           | n/a               | n/a               | n/a                |
| AP2.4 Gwellu sefyllfa menywod yn y gweithlu<br>(AP2.3 Dwyrain Cymru)                                                          | Nifer y mentrau micro bach a chanolig a gynorthwyir (gan gynnwys mentrau cydweithredol, mentrau yr economi gymdeithasol)                           | 800                         | 347               | 245               | 215                | 300           | 153               | 108               | 89                 |
|                                                                                                                               | Cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig                                                                                                             | 4,400                       | 1,407             | 841               | 774                | 1,500         | 800               | 594               | 562                |
|                                                                                                                               | Cyfranogwyr sy'n ennill cymhwyster wrth adael                                                                                                      | 75%                         | 80%               | 48%               | 46%                | 73%           | 80%               | 44%               | 46%                |
|                                                                                                                               | Mentrau â chymorth sydd wedi mabwysiadu neu wella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro                                      | 50%                         | 80%               | 67%               | 69%                | 50%           | 80%               | 60%               | 58%                |
|                                                                                                                               | Cyfranogwyr sydd mewn sefyllfa well ar y farchnad wrth adael                                                                                       | 40%                         | 40%               | 9%                | 7%                 | 40%           | 40%               | 16%               | 10%                |

Ffynhonnell: SCEC, 31/10/2017

21. Mae'r sefyllfa o ran perfformiad ar gyfer y flaenoriaeth hon yn dal yn galonogol iawn. Lle y ceir bylchau yn yr allbynnau a neilltuwyd i fuddiolwyr mae cyllid ar gael o hyd i fynd i'r afael â nhw. Hyd yma, mae dros 60,000 o gyfranogwyr eisoes wedi'u cofrestru gan weithrediadau cymeradwy yn y Flaenoriaeth hon. Mae'r cyflawniad yn erbyn y rhan fwyaf o'r dangosyddion yn agos at y proffil neu'n rhagori arno, ac mae'r darlun calonogol hwn bellach wedi'i adlewyrchu yn y data ar gymwysterau yn ogystal â nifer y cyfranogwyr, wrth i gyfranogwyr ddechrau cwblhau cyrsiau ac ennill eu dyfarniadau.
22. *Cynyddu lefelau sgiliau'r rhai sydd â sgiliau isel os o gwbl (AP2.1)*: Mae'r rhagolygon yn uchel yn erbyn targedau'r rhaglen, o ystyried y swm cymharol isel a neilltuwyd hyd yma (54% ar gyfartaledd), ac mae'r cyflawniadau hyd yma yn galonogol. Yr eithriad yw cyfranogwyr heb ddim cymwysterau ffurfiol; mae hyn oherwydd ei bod yn profi'n anodd diffinio ystyr 'dim cymwysterau ffurfiol'. Mae rhai gweithrediadau yn nodi bod gweithwyr sgiliau isel iawn yn aml yn dweud bod ganddynt o leiaf ryw fath o gymhwyster blaenorol (e.e. dyfarniad lefel mynediad) sy'n golygu eu bod yn cofnodi llai o gyfranogwyr 'heb gymwysterau' na'r disgwyl.
23. *Lefelau sgiliau canolraddol ac uwch (AP2.2)*: Ledled Cymru disgwylir rhagori ar bob targed a chanlyniad. Yn galonogol, mae targedau fframwaith perfformiad 2018 yr amcan penodol hwn (sy'n ymwneud â chyfranogwyr ag addysg uwchradd is) bellach wedi cael eu cyflawni. Mae nifer y cyfranogwyr ag addysg uwchradd uwch, yn enwedig merched, hefyd yn gryf iawn.
24. *Gweithgarwch Ymchwil ac Arloesedd (AP2.3 yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd yn unig)*: Mae cyllid bellach wedi cael ei neilltuo a fydd yn helpu ychydig dros 800 o gyfranogwyr yn yr amcan penodol hwn (ysgoloriaethau meistr a doethuriaethau diwydiannol). Er ein bod yn gobeithio cynyddu nifer yr ysgoloriaethau ymhellach, mae'r targed gwreiddiol o 1,500 o gyfranogwyr ar gyfer yr amcan penodol hwn bellach yn ymddangos yn rhy uchel o ystyried bod gweithgarwch yn y maes hwn yn gyfyngedig i feysydd 'her fawr' Gwyddoniaeth ar gyfer Cymru a bod allbynnau (e.e. doethuriaethau) yn cymryd nifer o flynyddoedd i'w cyflawni. Yn galonogol, mae lefel is y cyfranogwyr wedi'i lliniaru i ryw raddau gan y ffaith y disgwylir i gyfran sylweddol uwch o'r cyfranogwyr hynny gyflawni canlyniadau allweddol.
25. *Gwella sefyllfa menywod yn y gweithlu (SO2.4 WWV / SO2.3 EW)*: Mae'r targed ar gyfer y ddwy raglen yn unol yn fras â'r disgwyliadau.

## Blaenoriaeth 3: Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Ieuenctid

Tabl 6: Neilltuo Grant yr UE yn ôl Amcan Penodol

| £ Miliynau                      |                 |          |             |                 |        |             |       |          |       |             |       |
|---------------------------------|-----------------|----------|-------------|-----------------|--------|-------------|-------|----------|-------|-------------|-------|
| Amcan Penodol                   | Gweithredia dau | Dyraniad |             | Wedi'i neilltuo |        |             |       | Gwariant |       |             |       |
|                                 |                 | Cyfanswm | Grant yr UE | Cyfanswm        |        | Grant yr UE |       | Cyfanswm |       | Grant yr UE |       |
| ESF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd |                 |          |             |                 |        |             |       |          |       |             |       |
| AP3.1                           | 6               | 154.7    | 115.0       | 154.9           | (100%) | 97.9        | (85%) | 18.5     | (12%) | 15.8        | (14%) |
| AP3.2                           | 6               | 98.1     | 73.0        | 65.7            | (67%)  | 47.1        | (64%) | 16.2     | (17%) | 11.6        | (16%) |
| AP3.3                           | 1               | 14.4     | 10.7        | 2.1             | (15%)  | 1.7         | (15%) | 1.1      | (7%)  | 1.0         | (9%)  |
| AP3.4                           | 1               | 14.1     | 10.5        | 6.4             | (45%)  | 4.2         | (40%) | 0.8      | (6%)  | 0.0         | (0%)  |
| Cyfanswm                        | 14              | 281.3    | 209.2       | 229.1           | (81%)  | 150.8       | (72%) | 36.6     | (13%) | 28.4        | (14%) |
| ESF Dwyrain Cymru               |                 |          |             |                 |        |             |       |          |       |             |       |
| AP3.1                           | 8               | 76.9     | 38.4        | 104.3           | (136%) | 33.3        | (87%) | 7.7      | (10%) | 6.5         | (17%) |
| AP3.2                           | 4               | 25.6     | 12.8        | 18.3            | (71%)  | 8.8         | (68%) | 4.7      | (18%) | 2.2         | (17%) |
| Cyfanswm                        | 12              | 102.5    | 51.3        | 122.6           | (120%) | 42.0        | (82%) | 12.4     | (12%) | 8.7         | (17%) |

Ffynhonnell: SCEC, 31/10/2017

Nodiadau:

AP3.1: Diweithdra ymhlith Pobl Ifanc

AP3.2: Cyrhaeddiad Pobl Ifanc ac Ymgysylltu â Nhw

AP3.3: STEM

AP3.4: Y blynyddoedd cynnar

**Cymeradwyaethau ers cyfarfod diwethaf Pwyllgor Monitro'r Rhaglenni (PMRh)**

26. Dim cymeradwyaethau ers cyfarfod blaenorol PMRh.

27. Nid oes unrhyw weithrediadau newydd wedi'u cymeradwyo ers cyfarfod diwethaf PMRh o dan y Flaenoriaeth hon ond mae £1m o gyllid ESF ychwanegol wedi cael ei ddyfarnu i'r gronfa **Cynhwysiant Gweithredol Ieuenctid** a reolir gan CGGC. Mae'r cyllid ychwanegol yn galluogi CGGC i gynyddu cwrpas y gronfa er mwyn cefnogi prosiectau cenedlaethol mwy mewn ymateb i adborth a gafwyd gan sefydliadau cenedlaethol sydd am gyflawni prosiectau ar raddfa fwy. Mae hyn yn golygu bod y lefel neilltuo ar gyfer y Flaenoriaeth yn Nwyrain Cymru yn 82% ac yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd mae'r lefel neilltuo yn parhau i fod yn 72%. Mae cyfanswm o £192.8m o gyllid yr UE eisoes wedi'i neilltuo a dim ond £67.6m sydd heb ei ddyrannu. Gan fod nifer o weithrediadau'n dal i gael eu datblygu, ceir cyfle pellach i adeiladu ar y lefelau neilltuo cadarnhaol a chadarn o dan y Flaenoriaeth hon.

28. Mae'r portffolio o weithrediadau yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â diweithdra a chyrhaeddiad ymhlith pobl ifanc yr ystyrir eu bod yn NEET neu'n debygol o fod yn NEET.

Tabl 7: Cynnydd yn erbyn dangosyddion

| Amcan Penodol                                                                                       | Allbynnau                                                                                                                                           | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd |                   |                   |                    | Dwyrain Cymru |                   |                   |                    |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------|-------------------|-------------------|--------------------|---------------|-------------------|-------------------|--------------------|
|                                                                                                     |                                                                                                                                                     | Targed                      | Rhagolwg Prosiect | Proffilio hyd yma | Cyflawnwyd hyd yma | Targed        | Rhagolwg Prosiect | Proffilio hyd yma | Cyflawnwyd hyd yma |
| AP3.1 Lleihau nifer y bobl ifanc 16-24 oed Nad ydynt mewn Cyflogaeth, Addysg na Hyfforddiant (NEET) | Cyfranogwyr NEET (16-24 oed)                                                                                                                        | 42,700                      | 48,483            | 14,888            | 13,170             | 21,200        | 28,266            | 6,965             | 4,883              |
|                                                                                                     | Cyfranogwyr NEET (16 - 24 oed) sy'n ennill cymwysterau wrth adael - ag addysg gynradd neu uwchradd is                                               | 20%                         | 40%               | 11%               | 30%                | 20%           | 42%               | 7%                | 33%                |
|                                                                                                     | Cyfranogwyr NEET (16 - 24 oed) sydd mewn addysg/hyfforddiant wrth adael                                                                             | 17%                         | 17%               | 15%               | 22%                | 17%           | 17%               | 15%               | 32%                |
|                                                                                                     | Cyfranogwyr NEET (16 - 24 oed) sy'n mynd i gyflogaeth wrth adael                                                                                    | 28%                         | 30%               | 23%               | 21%                | 28%           | 32%               | 26%               | 20%                |
| AP3.2 Lleihau nifer y bobl ifanc rhwng 11 a 24 oed sy'n wynebu risg o ddod yn NEET                  | Cyfranogwyr sydd mewn Perygl o fod yn NEET (11-24 mlwydd oed)                                                                                       | 49,700                      | 16,064            | 9,302             | 4,905              | 13,000        | 6,836             | 3,126             | 1,734              |
|                                                                                                     | Cyfranogwyr sydd mewn perygl o fod yn NEET (11-24 oed) sy'n ennill cymwysterau wrth adael - ag addysg gynradd (FfCChC 1) neu uwchradd is (FfCChC 2) | 7%                          | 14%               | 6%                | 3%                 | 27%           | 17%               | 10%               | 2%                 |
|                                                                                                     | Cyfranogwyr sydd mewn perygl o fod yn NEET (11-24 oed) sy'n mynd i addysg/hyfforddiant wrth adael                                                   | 19%                         | 8%                | 6%                | 4%                 | 18%           | 11%               | 9%                | 2%                 |
|                                                                                                     | Cyfranogwyr sydd mewn perygl o fod yn NEET (11-24 oed) sydd â llai o berygl o fod yn NEET wrth adael                                                | -                           | 58%               | 36%               | 15%                | -             | 58%               | 38%               | 19%                |

# WPMC(17)115

| Amcan Penodol                                                                         | Allbynnau                                                                                                                                    | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd |                   |                   |                    | Dwyrain Cymru |                   |                   |                    |
|---------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------|-------------------|-------------------|--------------------|---------------|-------------------|-------------------|--------------------|
|                                                                                       |                                                                                                                                              | Targed                      | Rhagolwg Prosiect | Proffilio hyd yma | Cyflawnwyd hyd yma | Targed        | Rhagolwg Prosiect | Proffilio hyd yma | Cyflawnwyd hyd yma |
| AP3.3 Cynyddu lefelau cofrestru a chyrraedd pynciau STEM ymhlith pobl ifanc 11-19 oed | Pobl Ifanc 11 -19 oed - Dynion                                                                                                               | 8,400                       | 2,160             | 1,390             | 1,893              | n/a           | n/a               | n/a               | n/a                |
|                                                                                       | Pobl Ifanc 11 -19 oed - Menywod                                                                                                              | 15,000                      | 2,830             | 1,870             | 2,570              | n/a           | n/a               | n/a               | n/a                |
|                                                                                       | Pobl Ifanc 11-19 oed sy'n cwblhau hyfforddiant mewn mathemateg Gwyddoniaeth Peirianeg a Thechnoleg - Dynion                                  | 55%                         | 63%               | 63%               | 49%                | n/a           | n/a               | n/a               | n/a                |
|                                                                                       | Pobl Ifanc 11-19 oed sy'n cwblhau hyfforddiant mewn mathemateg Gwyddoniaeth Peirianeg a Thechnoleg - Menywod                                 | 55%                         | 34%               | 34%               | 24%                | n/a           | n/a               | n/a               | n/a                |
|                                                                                       | Cyfranogwyr 11-19 oed sy'n parhau i astudio pwnc Mathemateg Gwyddoniaeth Peirianeg a Thechnoleg ar ôl 16 oed - Dynion                        | 45%                         | 16%               | 8%                | 0%                 | n/a           | n/a               | n/a               | n/a                |
|                                                                                       | Cyfranogwyr 11-19 oed sy'n parhau i astudio pwnc Mathemateg Gwyddoniaeth Peirianeg a Thechnoleg ar ôl 16 oed - Menywod                       | 45%                         | 4%                | 2%                | 0%                 | n/a           | n/a               | n/a               | n/a                |
| AP3.4 Cynyddu sgiliau'r gweithlu Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant                    | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig o sector y blynnyddoedd cynnar a gofal plant - dynion                                     | 300                         | 73                | 73                | 15                 | n/a           | n/a               | n/a               | n/a                |
|                                                                                       | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig o sector y blynnyddoedd cynnar a gofal plant - menywod                                    | 2,700                       | 1,370             | 1,370             | 441                | n/a           | n/a               | n/a               | n/a                |
|                                                                                       | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig o sector y blynnyddoedd cynnar a gofal plant sy'n ennill cymwysterau wrth adael - Dynion  | 77%                         | 77%               | 15%               | 0%                 | n/a           | n/a               | n/a               | n/a                |
|                                                                                       | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig o sector y blynnyddoedd cynnar a gofal plant sy'n ennill cymwysterau wrth adael - Menywod | 77%                         | 76%               | 15%               | 11%                | n/a           | n/a               | n/a               | n/a                |

Flynhonnell: SCEC, 31/10/2017

29. Mae'r perfformiad cyffredinol ar gyfer y flaenoriaeth hon yn parhau i fod yn gadarnhaol iawn, gyda mwy na 29,000 o gyfranogwyr hyd yma.
30. *Lleihau NEET (AP3.1)*: Ar y cyfan, mae'r perfformiad hyd yma yn gadarnhaol ac mae'r rhagolygon yn dangos y bydd y flaenoriaeth yn cyrraedd y nod, sef cael 28% o bobl i mewn i gyflogaeth. Mae'n cymryd mwy o amser na'r bwriad i gyflawni'r canlyniadau hyn, yn bennaf oherwydd cryfder y farchnad lafur ac effaith gweithio gyda grŵp carfan anos ei gyrraedd. Bu cynnydd sylweddol yn nifer y cyfranogwyr sy'n ennill cymwysterau, yn bennaf am fod nifer fawr o gyfranogwyr yn llwyddo i adael y gweithrediadau Hyfforddeiaeth gyda chymwysterau.
31. *Wynebu risg o ddod yn NEET (AP3.2)*: Mae'r gwaith o gyflawni gweithgarwch yn mynd rhagddo'n dda ac mae'r wybodaeth am berfformiad prosiectau yn awgrymu bod y gweithrediadau yn llwyddo i dargedu'r rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf o ddod yn NEET ac sydd â llawer o rwystrau cymhleth rhag ymgysylltu ag addysg. Fodd bynnag, mae'n cymryd mwy o amser nag a ragwelwyd i ymgysylltu â'r garfan hon a chyflawni ymyriadau iddi. Mae WEFO yn gweithio gydag arweinwyr y gweithrediadau i ystyried dichonoldeb rhoi cymorth mwy dwys ac effeithiol i gyfranogwyr. Bydd y targedau cyffredinol yn y maes hwn yn cael eu hystyried fel rhan o'r addasiadau arfaethedig i raglenni.
32. *Astudio pynciau STEM (AP3.3. Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn unig)*: Mae'r cynnydd yn erbyn yr allbynnau yn parhau i wella ac, wrth i weithgarwch prosiectau ddwysáu, mae'r cyflawniad yn erbyn rhai o'r canlyniadau i'w weld bellach. Yn bennaf, amseru'r flwyddyn academiaidd yw'r rheswm dros y lefelau isel o barhau i astudio pynciau STEM ôl-16 a gofnodwyd. Bydd rhagor o wybodaeth ar gael gan ysgolion a cholegau ym mis Medi.
33. *Gweithlu Gofal Plant y Blynyddoedd Cynnar (AP3.4 Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn unig)*: Mae'r gwaith o gyflawni gweithgarwch yn mynd rhagddo, ond nid oes unrhyw ddangosyddion wedi'u hawlio hyd yma. Mae gwybodaeth am reoli perfformiad gan arweinydd y gweithrediad yn dangos cynnydd da hyd yma.

**Blaenoriaeth 4: Cymorth Technegol****Tabl 8: Neilltuo Grant yr UE**

| £ Miliynau                      |                    |          |                |                 |        |             |        |          |       |             |       |
|---------------------------------|--------------------|----------|----------------|-----------------|--------|-------------|--------|----------|-------|-------------|-------|
|                                 | Gweithredia<br>dau | Dyraniad |                | Wedi'i neilltuo |        |             |        | Gwariant |       |             |       |
|                                 |                    | Cyfanswm | Grant yr<br>UE | Cyfanswm        |        | Grant yr UE |        | Cyfanswm |       | Grant yr UE |       |
| ESF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd |                    |          |                |                 |        |             |        |          |       |             |       |
| Cyfanswm                        | 6                  | 18.4     | 13.7           | 24.6            | (134%) | 13.8        | (101%) | 4.4      | (24%) | 2.6         | (19%) |
| ESF Dwyrain Cymru               |                    |          |                |                 |        |             |        |          |       |             |       |
| Cyfanswm                        | 5                  | 7.0      | 3.5            | 5.6             | (80%)  | 2.7         | (77%)  | 1.1      | (15%) | 0.5         | (14%) |
| Ffynhonnell: SCEC. 31/10/2017   |                    |          |                |                 |        |             |        |          |       |             |       |

Ffynhonnell: SCEC, 31/10/2017

**Cymeradwyaethau ers cyfarfod diwethaf Pwyllgor Monitro'r Rhaglenni (PMRh)**

34. Dim cymeradwyaethau ers cyfarfod blaenorol PMRh.

35. Sefydlwyd pedwar Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol i helpu i wella'r ffordd rydym yn cyflwyno ac yn rheoli rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2014-2020. Maent wedi'u lleoli yn y gogledd, yn y canolbarth, ym Mae Abertawe ac yn y de-ddwyrain.

36. Maent yn ychwanegu gwerth at y ffordd y mae WEFO yn cyflwyno ac yn rheoli'r rhaglenni drwy sicrhau y caiff y gwaith hwn ei integreiddio'n rhanbarthol. Maent hefyd yn cyfrannu at y cam tuag at fodel cyflawni mwy strategol gyda fframwaith cliriach ar gyfer blaenoriaethu economaidd drwy sicrhau cysoni rhanbarthol a chydlyniant gweithrediadau. Un o brif swyddogaethau'r timau yw hwyluso'r broses o brawfesur gweithrediadau a gynigir o safbwynt rhanbarthol er mwyn rhoi barn ranbarthol i WEFO ynghylch y graddau y mae'r holl weithrediadau arfaethedig yn gyson â'r strategaethau perthnasol ac ymyriadau a gweithgareddau ehangach ac, ar adegau, hwyluso'r broses o flaenoriaethu rhai gweithrediadau arfaethedig yn rhanbarthol yn unol â chais gan WEFO (er enghraifft, ar gyfer Amcan Penodol 4.4 ERDF). Mae'r timau hefyd yn gweithio gyda'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol mewn perthynas â phrawfesur rhanbarthol ac ymgysylltu â gweithrediadau Cronfa Gymdeithasol Ewrop.

37. Mae'r holl weithrediadau Cymorth Technegol wedi'u cymeradwyo bellach.

## Adran 1: Rhaglen Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig (WGRC-RDP) Neilltuo Cyllid

1. Dengys Tabl 1 y gwariant hyd yma, y dyraniad hyd yma a swm Grant yr UE a neilltuwyd o dan WGRC-RDP2014-2020.

**Tabl 1: Dyraniad, Gwariant a Chyllid a Neilltuwyd**

| £ Miliynau            |                    |                              |        |       |        |                       |       |       |       |
|-----------------------|--------------------|------------------------------|--------|-------|--------|-----------------------|-------|-------|-------|
| Dyraniad <sup>1</sup> |                    | Wedi'i Neilltuo <sup>2</sup> |        |       |        | Gwariant <sup>2</sup> |       |       |       |
| CYFANSWM <sup>1</sup> | EAFRD <sup>1</sup> | CYFANSWM                     |        | EAFRD |        | CYFANSWM              |       | EAFRD |       |
| 774                   | 520                | 787                          | (102%) | 521   | (100%) | 125                   | (16%) | 89    | (17%) |

Ffynhonnell: SCEC, 31-10-2017

<sup>1</sup> Yn seiliedig ar gyfradd drosi o £1:€1.25

<sup>2</sup> Dengys y canrannau gyfran o'r dyraniad

### Diweddariad Cyffredinol o'r Rhaglenni

2. Mae WGRC-RDP2014-2020 yn parhau i wneud cynnydd da ers iddi gael ei chymeradwyo ar 26 Mai 2015.
3. Yn seiliedig ar gyfradd drosi o £1:€1.25, y lefel neilltuo bresennol ar lefel polisi ar gyfer y Rhaglen yw £787.3m (£521m o gyllid yr UE) sef ychydig dros 102% o'r Rhaglen. Ar lefel prosiectau, cyfanswm y cyllid sydd wedi ei ymrwymo yw £461.3m, sy'n 59.6% o gronfeydd y Rhaglen. Mae rhai rhannau o'r Rhaglen yn fwy datblygedig o ran cyflawni a chymeradwyo prosiectau nag eraill; dylid disgwyl hyn o ystyried yr amrywiaeth eang o weithgareddau y gellir eu cefnogi drwy'r rhaglen a'r cam y mae'r broses o gyflawni Rhaglen wedi'i gyrraedd ar hyn o bryd. Mae gwariant cyffredinol y Rhaglen hyd yn hyn wedi cynyddu dros £20m ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Monitro Rhaglenni i £124.5m (£89.5m Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig), o hyn mae £58m yn ymwneud â thaliadau trosglwyddo Colofn 1. Bydd y gwerthoedd hyn yn cynyddu ymhellach wrth i geisiadau sy'n cael eu harfarnu gael eu cymeradwyo. Mae'r Rhaglen yn dal ar y trywydd cywir i gyrraedd ei tharged N+3 sef €123.8m yn ystod 2018. Mae'r rhagolygon yn dangos y dylem gyrraedd y targed erbyn diwedd 2017.
4. O ran cynlluniau economaidd-gymdeithasol yn y rhaglen, gwahoddwyd cyfanswm o 545 o ddatganiadau o ddiddordeb llwyddiannus a 126 o geisiadau uniongyrchol<sup>1</sup> i gyflwyno cais llawn. Hyd yma, mae 499 (o

<sup>1</sup> Mae'r ceisiadau uniongyrchol hyn yn cwmpasu gweithgarwch wedi'i gaffael, fel Cyswllt Ffermio, prosiectau LEADER a gyflwynwyd gan Gyrrff Gweinyddol Grwpiau Gweithredu Lleol yn dilyn y broses gystadleuol i ddewis Grwpiau Gweithredu Lleol, y datganiadau o ddiddordeb hynny a ailgyfeiriwyd at ran arall o'r Rhaglen ar ôl cael eglurhad technegol gan y Comisiwn Ewropeaidd ynghylch gweithgarwch Mesur 16.4, y prosiectau hynny a ddaeth yn wreiddiol drwy gylch cystadleuol o ddatganiadau o ddiddordeb fel prosiectau cam 1, sef y cam prawf cysyniad, i symud ymlaen i gam 2,

geisiadau llawn datganiadau o ddiddordeb a cheisiadau uniongyrchol) wedi dod i law. Mae cyfanswm o 286 o weithrediadau (datganiadau o ddiddordeb a cheisiadau uniongyrchol) wedi'u cymeradwyo gyda dyraniad cyffredinol, yn cynnwys ceisiadau LEADER a cheisiadau uniongyrchol gwerth £203m. Bydd hyn yn cynyddu ymhellach dros y misoedd sydd i ddod o ganlyniad i gyfnodau datganiadau o ddiddordeb diweddar.

5. Mae'r cynnydd yn erbyn y Fframwaith Perfformiad ar gyfer WGRC-RDP2014-2020 i'w weld yn Atodiad 6.

### **Cynnydd yn erbyn Dangosyddion**

6. Ar y cam hwn o gyflawni'r rhaglen, nid oes modd llunio rhagolygon yn erbyn dangosyddion ar gyfer pob Mesur/Maes Canolbwyntio. Darperir gwerthoedd targed cymeradwy yn ôl Maes Canolbwyntio hyd yn oed lle nad yw data rhagolygon ar gael eto.

**Adran 2: Cynnydd yn ôl Echel Blaenoriaeth****Blaenoriaeth 1: Meithrin trosglwyddo gwybodaeth ac arloesi ym maes amaethyddiaeth, coedwigaeth ac ardaloedd gwledig****Tabl 2: Cynnydd yn erbyn dangosyddion**

| Maes Canolbwyntio                                                                                       | Mesur       | Allbynnau                                                                                              | Targed | Rhagolwg | Cyflawnwyd Hyd yn Hyn |     |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------|----------|-----------------------|-----|
| FA 1(a) Meithrin arloesi a'r sylfaen gwybodaeth mewn ardaloedd gwledig                                  | 1           | Cyfanswm gwariant cyhoeddus (£'m)                                                                      | £66.0  | £82.3m   | £0.0m                 | 0%  |
|                                                                                                         | 2           | Cyfanswm gwariant cyhoeddus (£'m)                                                                      | £16.3  | £11.5m   | £0.0m                 | 0%  |
|                                                                                                         | 16          | Cyfanswm gwariant cyhoeddus (£'m)                                                                      | £91.5  | £1.7m    | £0.3m                 | 0%  |
| FA 1(b) Cryfhau'r cysylltiadau rhwng amaethyddiaeth a coedwigaeth ac ymchwil arloesi                    | 16.1        | Nifer y grwpiau gweithredol EIP Iw cefnogi (sefydliad a gweithrediad)                                  | 45     | 45       | 0                     | 0%  |
|                                                                                                         | 16.2 i 16.9 | Nifer y gweithrediadau cydweithredu eraill (grwpiau, rhwydweithiau / clystyrau, prosiectau peilot....) | 1,027  | 57       | 0                     | 0%  |
| FA 1(c) Meithrin dysgu gydol oes a hyfforddiant galwedigaethol yn y sectorau amaethyddol a choedwigaeth | 1.1         | Nifer o cyfranogwyr mewn hyfforddiant                                                                  | 13,500 | 13,000   | 10,010                | 74% |

Ffynhonnell: SCEC, 31-10-2017

**Blaenoriaeth 1****Trosglwyddo Gwybodaeth, Arloesi a Gwasanaethau Cynghori - Mesurau 1 a 2**

7. Rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth: Fel rhan o'r Rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth, mae rhwydwaith Arddangos i Gymru gyfan wedi cael ei sefydlu, sy'n cynnwys 8 Safle Arloesi, 12 o Ffermydd Arddangos a 77 o Safleoedd Ffocws. Mae amrywiaeth o brosiectau yn mynd rhagddynt ar y safleoedd, er enghraifft ffocws ar gynhyrchu glaswelltir, parasitoleg a genomeg.
8. Mae ffermydd traws-sector ledled Cymru wedi cael eu dewis i gymryd rhan ym 'Mhrosiect Porfa Cymru', a fydd yn mesur a monitro cyfraddau twf glaswellt wythnosol. Mae pob fferm yn defnyddio mesurydd plât i gasglu mesuriadau twf glaswellt wythnosol, ac yn casglu samplau glaswellt misol er mwyn dadansoddi'r ansawdd. Drwy gael data cywir ar dwf glaswellt a faint o ddeunydd sych sydd ar gael, gall rheolwr pob fferm wneud penderfyniadau rheoli porfa yn seiliedig ar ffeithiau a fydd yn gwella defnydd ac effeithlonrwydd ar y fferm.
9. Ar un Safle Ffocws sy'n rhan o Brosiect Porfa Cymru, mae'r pwysau byw ŵyn a gynhyrchir fesul dafad wedi cynyddu 14%, drwy wella prosesau rheoli glaswelltir a geneteg defaid. Mae hyn wedi arwain at £12 yn fwy fesul dafad a £3600 yn fwy yn y praid o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

10. Rhaglen Dysgu Gydol Oes a Datblygu: Hyd yma, mae 1,603 o fuddiolwyr wedi cwblhau hyfforddiant achrededig a hawlio amdano ers mis Hydref 2015. Mae 32 o fodiwlau e-ddysgu ar gael ac mae e-ddysgu wedi cael ei gwblhau 2,355 o weithiau. Mae'r pynciau e-ddysgu yn cynnwys iechyd a diogelwch, cyllid fferm a rheoli llyngyr yr afu ar fferm. Mae 3,172 o Gynlluniau Datblygu Personol wedi cael eu cwblhau ers dechrau'r rhaglen.
11. Gwasanaeth Cyngchori: Hyd yma, mae 821 o geisiadau am gyngor un i un a 804 am gyngor i grwpiau wedi cael eu cymeradwyo ar gyfer y gwasanaeth ers mis Rhagfyr 2016. Mae'r galw am gyngor i grwpiau yn parhau i gynyddu ac mae'r gwasanaeth wedi rhagori ar y targed gwreiddiol ar gyfer cymeradwyo ceisiadau.
12. Meincnodi: Mae system meincnodi ar-lein Cyswllt Ffermio (Measure 2 Manage) bellach yn weithredol a bydd y data a gesglir gan ffermwyr fel rhan o grwpiau trafod Cyswllt Ffermio yn cael eu mewnbynnu i'r system meincnodi o fis Tachwedd ymlaen. O fis Ionawr 2018 ymlaen, yn unol â phenderfyniadau a wnaed gan Grŵp Gweithredol Menter Strategol Amaethyddiaeth, caiff system Measure 2 Manage ei disodli gan system meincnodi'r Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB), sef Farmbench, a fydd yn rhan o Fenter Strategol Amaethyddiaeth.
13. Menter: Hyd yma, mae 107 o newydd-ddyfodiaid a 96 o ffermwyr sefydledig wedi datgan diddordeb yn y rhaglen. Mae unigolion sydd wedi dod o hyd i ddarpar bartneriaid busnes bellach yn symud ymlaen i wneud cais am gyngor i grŵp drwy'r gwasanaeth cyngchori, a rhagor o arweiniad cyfreithiol lle bo angen. Mae 33 o barau posibl wedi cael eu nodi, ac mae pob un ohonynt ar gamau amrywiol o broses Menter. Ceir cadarnhad bellach bod saith o'r 33 o barau yn Gyd-fentrau swyddogol.
14. Model segmentu: Mae Cyswllt Ffermio wedi bod yn gweithio gyda chwmni ymgynghori Brook Lyndhurst i integreiddio'r model segmentu ffermwyr i rai agweddau ar y gwaith o gyflawni Cyswllt Ffermio, er enghraifft sut y gellir defnyddio'r model i annog pobl i ddefnyddio prosesau meincnodi yn ogystal â symleiddio llenyddiaeth hyrwyddo.
15. Gwerthusiad annibynnol: Mae'r contract ar gyfer gwerthuso'r rhaglenni Trosglwyddo Gwybodaeth, Arloesi a Gwasanaethau Cyngchori a gyflawnir drwy Cyswllt Ffermio yn cael ei hysbysebu ar wefan gwerthwchigymru ar hyn o bryd. Y dyddiad cau yw 13 Tachwedd 2017.
16. Sylwadau cyffredinol: Mae Llywodraeth Cymru wedi cael y ddau hawliad cyntaf gan y naill contractwr a'r llall, sy'n werth cyfanswm o £7.4 m ar gyfer Mesur 1 a £0.8m mewn perthynas â Mesur 2. Cafodd yr hawliad cyntaf ei

brosesu a'i glirio ar 29 Medi 2017 a chafodd yr ail hawliad ei brosesu a'i glirio ar 6 Hydref 2017.

17. Bydd y trydydd hawliad yn cwmpasu gweithgarwch mewn perthynas â'r cyfnod rhwng 1 Awst 2017 a 30 Medi 2017. Gwerth rhagamcanol yr hawliadau hyn yw £0.8m ar gyfer Mesur 1 a £0.2m ar gyfer Mesur 2. Mae'n debygol y caiff yr hawliadau hyn eu talu ym mis Tachwedd 2017.

**Rhaglen Arloesi Ewropeaidd Cymru – Mesur 16.1**

18. Derbyniwyd un cais dan y model cyflwyno newydd (Menter a Busnes). Mae'r cais yn cael ei werthuso ar hyn o bryd, ac yn cynrychioli cyfanswm ymrwymiad grant o £1.8m.

## Blaenoriaeth 2: Gwella hyfywedd a chystadleurwydd ffermydd ym mhob maes amaethyddol ac ym mhob rhanbarth gan hyrwyddo technolegau fferm arloesol a rheolaeth gynaliadwy ar gyfer coedwigoedd

**Tabl 3: Cynnydd yn erbyn dangosyddion**

| Maes Canolbwyntio                                                                                                                                                                                                                                         | Mesur     | Allbynnau                                                                                   | Targed  | Rhagolwg | Cyflawnwyd Hyd yn Hyn |     |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------|---------------------------------------------------------------------------------------------|---------|----------|-----------------------|-----|
| FA 2(a) Hwyluso ailstrwythuro ffermydd sy'n wynebu problemau strwythurol mawr, yn enwedig ffermydd â gradd isel o gyfranogiad yn y farchnad, ffermydd sy'n canolbwyntio ar sectorau penodol yn y farchnad a ffermydd sydd angen arallgyfeirio amaethyddol | 1.1       | Caffaeliad hyfforddiant/sgiliau - Nifer y cyfranogwyr mewn hyfforddiant                     | 10,010  | 10,010   | 3,084                 | 31% |
|                                                                                                                                                                                                                                                           | 1.1       | Nifer o diwrnodau o hyfforddiant a roddwyd                                                  | 16,160  | 8,008    | 2,404                 | 15% |
|                                                                                                                                                                                                                                                           | 1.1       | Caffaeliad hyfforddiant/sgiliau - Cyfanswm gwariant cyhoeddus ar gyfer hyfforddiant/sgiliau | £2.5m   | £3.2m    | £1.0m                 | 40% |
|                                                                                                                                                                                                                                                           | 1.2       | Nifer o gweithrediadau arddangos / camau gwybodaeth a gefnogwyd                             | 1,395   | 1,395    | 1,088                 | 78% |
|                                                                                                                                                                                                                                                           | 1.3       | Nifer gweithrediadau cyfnewid fferm a gefnogwyd                                             | 39      | 39       | 12                    | 31% |
|                                                                                                                                                                                                                                                           | 1.1 -1.3  | Cyfanswm gwariant cyhoeddus (£m) (hyfforddiant, cyfnewidiadau fferm, arddangos)             | £34.1m  | £42.7m   | £5.7m                 | 17% |
|                                                                                                                                                                                                                                                           | 2.1       | Nifer o fuddiolwyr a gynghorwyd                                                             | 2,963   | 2,963    | 307                   | 10% |
|                                                                                                                                                                                                                                                           | 2.3       | Nifer o cynghorwyr a hyfforddwyd                                                            | 260     | 260      | 0                     | 0%  |
|                                                                                                                                                                                                                                                           | 2.1 - 2.3 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus (£m)                                                            | £6.8m   | £6.7m    | £0.5m                 | 7%  |
|                                                                                                                                                                                                                                                           | 4.1       | Nifer o daliadau a gefnogwyd ar gyfer buddsoddiad mewn daliadau amaethyddol                 | 2,431   | 15       | 0                     | 0%  |
|                                                                                                                                                                                                                                                           | 4.1       | Cyfanswm gwariant cyhoeddus (£m)                                                            | £56.1m  | £7.8m    | £0.0m                 | 0%  |
|                                                                                                                                                                                                                                                           | 4         | Cyfanswm gwariant cyhoeddus (£m) ar gyfer buddsoddiadau mewn seilwaith                      | £140.3m | £20.5m   | £0.0m                 | 0%  |
|                                                                                                                                                                                                                                                           | 4         | Cyfanswm gwariant (£m) (cyhoeddus a preifat)                                                | £56.1m  | £7.8m    | £0.0m                 | 0%  |
|                                                                                                                                                                                                                                                           | 16        | Cyfanswm gwariant cyhoeddus (£m)                                                            | £0.4m   | £0.3m    | £0.0m                 | 0%  |

Flynnonell: SCEC, 31-10-2017

### **Maes Canolbwyntio 2a**

#### **Cynllun Grant Busnes i Ffermydd – Mesur 4.1**

19. Nod y cynllun Grant Busnes i Ffermydd o dan Fesur 4.1 yw helpu ffermwyr yng Nghymru i wella perfformiad economaidd ac amgylcheddol eu busnesau amaethyddol. Yr amcan yw cynyddu buddsoddiad ar y fferm er mwyn gwella perfformiad technegol ac arbedion effeithlonrwydd o ran cynhyrchiant ac adnoddau ar y fferm.

20. Mae'r grant yn cynnig buddsoddiad cyfalaf mewn cyfarpar a pheiriannau y nodwyd ymlaen llaw eu bod yn cynnig buddiannau clir a mesuradwy i fusnes eich fferm. Mae cost safonedig a manyleb ofynnol wedi cael eu dyrannu ar gyfer pob un o'r eitemau cyfalaf drwy'r Grant Busnes i Ffermydd. Mae grant gwerth rhwng £3,000 a £12,000 ar gael (costau prosiect gwerth rhwng £7,500

a £30,000). Yr uchafswm cyfradd grant i unrhyw fusnes fferm unigol yw 40% o gyfanswm cost y buddsoddiad. Ceir crynodeb o'r ddau gyfnod gwneud cais a gynhaliwyd isod;

**21. Y cyfnod cyntaf:**

- Dechreuodd ar 3 Ebrill a daeth i ben ar 30 Mehefin 2017
- Dyraniad cyllidebol o £6m
- Cyfanswm nifer y ceisiadau a gyflwynwyd oedd 507
- Gwnaed cais am gyfanswm gwerth grant o £3.47m
- Cyfanswm nifer y ceisiadau a gymeradwywyd oedd 493
- Cyfanswm y gwerth grant a gymeradwywyd oedd £3.31m
- Cafodd 14 o geisiadau eu gwrthod neu eu tynnu'n ôl gan yr ymgeisydd (£103k)

**22. Yr ail gyfnod:**

- Dechreuodd ar 2 Awst a daeth i ben ar 29 Medi 2017
- Dyraniad cyllidebol o £7.6m gyda chyllid dros ben o'r cyfnod cyntaf yn cael ei gario ymlaen i'r ail gyfnod.
- Cyfanswm nifer y ceisiadau a gyflwynwyd oedd 327
- Gwnaed cais am gyfanswm gwerth grant o £2.34m
- Gwnaed cais am grant gwerth £7,254 ar gyfartaledd
- Aeth 318 o geisiadau drwy broses arfarnu, gyda chyfanswm gwerth grant o £2.32m
- Ar 1 Tachwedd, mae 312 o'r rhain wedi cael eu cymeradwyo (£2.28m)
- Mae un cais wedi cael ei ohirio (mae angen newid teitlau ar CAPIT) £7k
- Cafodd pum cais eu gwrthod neu eu tynnu'n ôl gan yr ymgeisydd (£32k)

### **Cynllun Grant Cynhyrchu Cynaliadwy – Mesur 4.1**

23. Hyd yma, cynhaliwyd tri chylch o'r Grant Cynhyrchu Cynaliadwy, y cyntaf am gyllideb o £2.0m gyda 172 wedi dod i law a 12 o fuddiolwyr yn cael eu gwahodd i gyflwyno cais llawn a'r ail am £6.0m gyda 172 o ddatganiadau o ddiddordeb wedi dod i law a 39 o fuddiolwyr. O dan y trydydd cylch, a oedd hefyd yn werth £6.0m, cyflwynwyd 152 o ddatganiadau o ddiddordeb y cafodd 30 ohonynt eu gwahodd i ail gam y broses gwneud cais.

24. Mae taliadau grant gwerth cyfanswm o £0.9m wedi cael eu talu i 10 buddiolwr.

25. Datganiadau o Ddiddordeb: Hyd yma, gwahoddwyd 81 o ddatganiadau o ddiddordeb llwyddiannus i gyflwyno ceisiadau llawn o dan Flaenoriaeth 2

(Maes Canolbwyntio 2a) y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy, sef cyfanswm lefel neilltuo grant ar y cam datgan diddordeb o £14.2m. O'r rhain:

- mae 19 o geisiadau llawn yn cael eu harfarnu ar hyn o bryd, gyda lefel neilltuo grant o £4m
- mae 54 o geisiadau wedi cael eu cymeradwyo, gyda chyfanswm gwerth grant o £9.7m, y mae 45 wedi derbyn (£9.0m)
- mae wyth wedi cael eu tynnu'n ôl/eu gwrthod, gyda chyfanswm gwerth grant o £1.5m

26. Ceisiadau Uniongyrchol: Hefyd, o dan Faes Canolbwyntio 2a, gwahoddwyd 10 cais uniongyrchol, gyda lefel neilltuo grant o £29.9m. O'r rhain, mae wyth wedi'u cymeradwyo (£29.1m), y mae saith ohonynt wedi derbyn (£27.7m). Mae'r 10 cais uniongyrchol yn cynnwys y canlynol:

- wyth cais Cyswllt Ffermio
- un cais Gwasanaeth Cynghori Busnesau Gwledig (CNC)
- un cais Grant Cynhyrchu Cynaliadwy (Greenfin Aquaponics)

27. Mae'r wyth cais uniongyrchol a gymeradwywyd yn cynnwys y canlynol:

- saith cais Cyswllt Ffermio
- un cais Gwasanaeth Cynghori Busnesau Gwledig (RBAS)

28. Mae'r ddau gais uniongyrchol nad ydynt wedi'u cyflwyno eto yn cynnwys y canlynol:

- un cais Grant Cynhyrchu Cynaliadwy
- un cais Cyswllt Ffermio

## Blaenoriaeth 3: Hyrwyddo trefniadaeth y gadwyn fwyd a rheoli risg mewn amaethyddiaeth

Tabl 4: Cynnydd yn erbyn dangosyddion

| Maes Canolbwyntio                                                                                                                                                                                     | Mesur     | Allbynnau                                                                                                                                               | Targed | Rhagolwg | Cyflawnwyd Hyd yn Hyn |     |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------|----------|-----------------------|-----|
| FA 3(a) Integreiddio gwell o gynhyrchwyr cynradd yn y gadwyn fwyd drwy gynlluniau o ansawdd, hyrwyddo mewn marchnadoedd lleol a chylchoedd cyflenwi byr, grwpiau cynhyrchwyr a sefydliadau cydadronol | 1.1       | Caffaeliad hyfforddiant/sgiliau - Nifer y cyfranogwyr mewn hyfforddiant                                                                                 | 1,150  | 650      | 200                   | 17% |
|                                                                                                                                                                                                       | 1.1       | Nifer o ddiwrnodau hyfforddiant a roddwyd                                                                                                               | 6,345  | 520      | 156                   | 2%  |
|                                                                                                                                                                                                       | 1.1       | Caffaeliad hyfforddiant/sgiliau - Cyfanswm gwariant cyhoeddus ar gyfer hyfforddiant/sgiliau                                                             | £21.8m | £0.2m    | £0.1m                 | 0%  |
|                                                                                                                                                                                                       | 1.2       | Nifer o weithrediadau arddangos / camau gwybodaeth a gefnogwyd                                                                                          | 91     | 91       | 71                    | 78% |
|                                                                                                                                                                                                       | 1.1 - 1.3 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ (hyfforddiant, cyfnewidiadau fferm, arddangos)                                                                            | £23.9m | £2.8m    | £0.4m                 | 2%  |
|                                                                                                                                                                                                       | 2.1       | Nifer o buddiolwyr a gynghorwyd                                                                                                                         | 303    | 303      | 31                    | 10% |
|                                                                                                                                                                                                       | 2.3       | Nifer o cynghorwyr a hyfforddwyd                                                                                                                        | 27     | 27       | 0                     | 0%  |
|                                                                                                                                                                                                       | 2.1 - 2.3 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus £                                                                                                                           | £0.7m  | £0.9m    | £0.1m                 | 7%  |
|                                                                                                                                                                                                       | 4.1 + 4.2 | Nifer o weithrediadau a gefnogwyd ar gyfer fuddsoddiad (ee mewn taliadau amaethdool, mewn prosesu ac mewn marchnata cynnyrch amaethyddol) (4.1 and 4.2) | 120    | 24       | 0                     | 0%  |
|                                                                                                                                                                                                       | 4         | Cyfanswm gwariant £ (cyhoeddus a preifat)                                                                                                               | £93.6m | £73.7m   | £0.0m                 | 0%  |
|                                                                                                                                                                                                       | 4         | Cyfanswm gwariant cyhoeddus £                                                                                                                           | £35.8m | £24.6m   | £0.0m                 | 0%  |
|                                                                                                                                                                                                       | 16.4      | Nifer o daliadau amaethyddol yn cymryd rhan mewn cydweithredu/hybu lleol ymhlith gweithredwyr yn y gadwyn gyflenwi (16.4)                               | 165    | 414      | 0                     | 0%  |
|                                                                                                                                                                                                       | 16        | Nifer y gweithrediadau cydweithredu a gefnogwyd (nid EIP)                                                                                               | 165    | 0        | 0                     | 0%  |
|                                                                                                                                                                                                       | 16        | Cyfanswm gwariant cyhoeddus £                                                                                                                           | £26.5m | £1.6m    | £0.0m                 | 0%  |

Ffynhonnell: SCEC, 31-10-2017

### Maes Canolbwyntio 3a

29. Datganiad o Ddiddordeb: Hyd yma, gwahoddwyd 103 o ddatganiadau o ddiddordeb llwyddiannus i gyflwyno cais llawn o dan Flaenoriaeth 3 (Maes Canolbwyntio 3a) y Rhaglen. O'r rhain, mae 73 o geisiadau llawn yn cael eu harfarnu ar hyn o bryd neu wedi cael eu cymeradwyo, sef lefel neilltuo grant o £38.7m sy'n cynnwys:

- Mae pedwar cyfnod datgan diddordeb wedi dechrau ar gyfer y Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio: mae chwe chais wedi cael eu cymeradwyo (£2.8m); mae chwe chais wedi cael eu gwrthod (£1.4m);
- Mae pum cyfnod datgan diddordeb wedi dechrau ers i'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd gael ei lansio: mae 36 o geisiadau'n cael eu harfarnu ar hyn o bryd (£6.1m); mae 31 o geisiadau llawn wedi

cael eu cymeradwyo a'u derbyn (£29.8m), mae 30 o geisiadau wedi cael eu gwrthod (£3m);

30. Ceisiadau Uniongyrchol: Mae wyth ymgeisydd uniongyrchol wedi cyflwyno ceisiadau llawn ar gyfer y Cynllun Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi o dan Fesur 1.1. Mae pump wedi cael eu cymeradwyo, sef lefel neilltuo grant o £24.5m. Mae hyn yn cynnwys Prosiect Helix sy'n werth £21.9m.

## Blaenoriaeth 4: Adfer, gwarchod a gwella ecosystemau sy'n dibynnu ar amaethyddiaeth a choedwigaeth

**Tabl 5: Cynnydd yn erbyn dangosyddion**

| Blaenoriaeth                                                                                                         | Mesur     | Allbynnau                                                                                   | Targed    | Rhagolwg | Cyflawnwyd Hyd yn Hyn |      |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------|---------------------------------------------------------------------------------------------|-----------|----------|-----------------------|------|
| Blaenoriaeth 4: Adfer, gwarchod a gwella ecosystemau sy'n dibynnu ar amaethyddiaeth a choedwigaeth (tir amaethyddol) | 1.1       | Caffaeliad hyfforddiant/sgiliau - Nifer o cyfranogwyr mewn hyfforddiant                     | 1,040     | 1,040    | 320                   | 31%  |
|                                                                                                                      | 1.1       | Nifer o ddiwmodau hyfforddiant a roddwyd                                                    | 832       | 832      | 250                   | 30%  |
|                                                                                                                      | 1.1       | Caffaeliad hyfforddiant/sgiliau - Cyfanswm gwariant cyhoeddus ar gyfer hyfforddiant/sgiliau | £0.3m     | £0.3m    | £0.1m                 | 38%  |
|                                                                                                                      | 1.2       | Nifer o weithrediadau arddangos / camau gwybodaeth a gefnogwyd                              | 145       | 145      | 113                   | 78%  |
|                                                                                                                      | 1.3       | Nifer o weithrediadau cyfnewid fferm a gefnogwyd                                            | 4         | 4        | 1                     | 25%  |
|                                                                                                                      | 1.1 - 1.3 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ (hyfforddiant, cyfnewidiadau fferm, arddangos)                | £3.5m     | £4.4m    | £0.6m                 | 17%  |
|                                                                                                                      | 2.1       | Nifer o buddiolwyr a gynghorwyd                                                             | 3,344     | 758      | 79                    | 2%   |
|                                                                                                                      | 2.3       | Nifer o cynghorwyr a hyfforddwyd                                                            | 67        | 67       | 0                     | 0%   |
|                                                                                                                      | 2.1 - 2.3 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus £                                                               | £4.0m     | £2.2m    | £0.1m                 | 3%   |
|                                                                                                                      | 4.4       | Nifer o weithrediadau cymorth ar gyfer fuddsoddiadau anghynhyrciol (4.4)                    | 14,590    | 9,453    | 239                   | 2%   |
|                                                                                                                      | 4         | Cyfanswm gwariant £ (cyhoeddus a preifat)                                                   | £86.0m    | £107.0m  | £1.1m                 | 1%   |
|                                                                                                                      | 4         | Cyfanswm gwariant cyhoeddus £                                                               | £86.0m    | £107.0m  | £1.1m                 | 1%   |
|                                                                                                                      | 8.1       | Arwynebedd (ha) i gael ei coedwigo (sefydliad yn unig- 8.1)                                 | 2,498     | 2,000    | 349                   | 14%  |
|                                                                                                                      | 8.1       | Cyfanswm gwariant cyhoeddus £                                                               | £14.3m    | £10.6m   | £1.4m                 | 10%  |
|                                                                                                                      | 8.2       | Arwynebedd (ha) i'w sefydlu mewn systemau amaeth-coedwigaeth (8.2)                          | 50        | 50       | 1                     | 2%   |
|                                                                                                                      | 8.2       | Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ (8.2)                                                         | £0.03m    | £0.21m   | £0.00m                | 6%   |
|                                                                                                                      | 10.1      | Cyfanswm arwynebedd (ha) o dan hinsawdd amaeth-amgylcheddunder (10.1)                       | 1,417,210 | 0        | 0                     | 0%   |
|                                                                                                                      | 10.1      | Arwynebedd Ffisegol (ha) o dan hinsawdd ameth-amgylchedd (10.1)                             | 635,399   | 528,010  | 676,469               | 106% |
|                                                                                                                      | 10.1      | Nifer o contractau a gefnogwyd                                                              | 7,338     | 7,338    | 6,877                 | 94%  |
|                                                                                                                      | 10.1      | Cyfanswm gwariant cyhoeddus (£) (10.1+10.2)                                                 | £184.7m   | £230.1m  | £40.3m                | 22%  |
|                                                                                                                      | 11.1      | Nifer o daliadau a gefnogwyd                                                                | 201       | 201      | 147                   | 73%  |
|                                                                                                                      | 11.1      | Arwynebedd (ha) a trosglwywyd i ffermio organig                                             | 11,153    | 11,153   | 15,018                | 135% |
|                                                                                                                      | 11.2      | Nifer y daliadau a gefnogwyd                                                                | 341       | 341      | 446                   | 131% |
|                                                                                                                      | 11.2      | Arwynebedd (ha) cynnal ffermio organig                                                      | 57,287    | 57,287   | 57,544                | 100% |
|                                                                                                                      | 11        | Cyfanswm gwariant cyhoeddus (£)                                                             | £21.2m    | £21.2m   | £4.1m                 | 19%  |
|                                                                                                                      | 16        | Nifer o weithrediadau cydweithredu a gefnogwyd (dim EIP)                                    | 25        | 0        | 0                     | 0%   |
|                                                                                                                      | 16        | Cyfanswm gwariant cyhoeddus (£)                                                             | £7.6m     | £0.4m    | £0.0m                 | 0%   |

Ffynhonnell: SCEC, 31-10-2017

| Blaenoriaeth                                                                                                       | Mesur     | Allbynnau                                                                                                       | Targed | Rhagolwg | Cyflawnwyd Hyd yn Hyn |      |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------|----------|-----------------------|------|
| Priority 4: Adfer, gwarchod a gwella ecosystemau sy'n dibynnu ar amaethyddiaeth a choedwigaeth (ardal coedwigaeth) | 1.1       | Caffaeliad hyfforddiant/sgiliau - Nifer o cyfranogwyr mewn hyfforddiant                                         | 130    | 130      | 40                    | 31%  |
|                                                                                                                    | 1.1       | Nifer o ddiwrnodau hyfforddiant a roddwyd                                                                       | 104    | 104      | 31                    | 30%  |
|                                                                                                                    | 1.1       | Caffaeliad hyfforddiant/sgiliau - Cyfanswm gwariant cyhoeddus ar gyfer hyfforddiant/sgiliau                     | £0.03m | £0.04m   | £0.01m                | 40%  |
|                                                                                                                    | 1.2       | Nifer o gweithrediadau arddangos / camau gwybodaeth a gefnogwyd                                                 | 18     | 18       | 14                    | 78%  |
|                                                                                                                    | 1.3       | Nifer o weithrediadau cyfnewid fferm a gefnogwyd                                                                | 1      | 1        | 0                     | 0%   |
|                                                                                                                    | 1.1 - 1.3 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ (hyfforddiant, cyfnewidiadau fferm, arddangos)                                    | £0.4m  | £0.4m    | £0.1m                 | 17%  |
|                                                                                                                    | 2.1       | Nifer o buddiolwyr a gynghorwyd                                                                                 | 851    | 51       | 5                     | 1%   |
|                                                                                                                    | 2.3       | Nifer o cynghorwyr a hyfforddwyd                                                                                | 4      | 4        | 0                     | 0%   |
|                                                                                                                    | 2.1 - 2.3 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus £                                                                                   | £1.2m  | £0.1m    | £0.0m                 | 1%   |
|                                                                                                                    | 8.3       | Nifer o fuddiolwyr ar gyfer camau gweithredu ataliol (8.3)                                                      | 1      | 0        | 0                     | 0%   |
|                                                                                                                    | 8.3       | Arwynebedd a gefnogwyd (ha)                                                                                     | 76,000 | 0        | 0                     | 0%   |
|                                                                                                                    | 8.3       | Cyfanswm gwariant cyhoeddus (£)                                                                                 | £0.3m  | £0.0m    | £0.0m                 | 0%   |
|                                                                                                                    | 8.4       | Nifer o fuddiolwyr a gefnogwyd                                                                                  | 61     | 0        | 79                    | 130% |
|                                                                                                                    | 8.4       | Arwynebedd a gefnogwyd (ha)                                                                                     | 594    | 0        | 507                   | 85%  |
|                                                                                                                    | 8.4       | Cyfanswm gwariant cyhoeddus £                                                                                   | £1.3m  | £0.0m    | £1.2m                 | 93%  |
|                                                                                                                    | 8.5       | Nifer o weithrediadau (fuddsoddiadau ar gyfer wella gwydnwch a werth ecosystemau coedwigaeth) (8.5)             | 403    | 501      | 172                   | 43%  |
|                                                                                                                    | 8.5       | Ardaloedd sy'n gysylltiedig a fuddsoddiadau gwella gwydnwch a gwerth amgylcheddol ecosystemau coedwigoedd (8.5) | 9,445  | 7,000    | 386                   | 4%   |
|                                                                                                                    | 8.5       | Cyfanswm gwariant cyhoeddus £                                                                                   | £4.1m  | £5.6m    | £0.5m                 | 13%  |
|                                                                                                                    | 15.1      | Nifer o contractau a gefnogwyd                                                                                  | 70     | 0        | 0                     | 0%   |
|                                                                                                                    | 15.1      | Ardaloedd dan gontract amgylchedd coedwig                                                                       | 700    | 0        | 0                     | 0%   |
|                                                                                                                    | 15.1      | Cyfanswm gwariant cyhoeddus £                                                                                   | £0.3m  | £0.0m    | £0.0m                 | 0%   |
|                                                                                                                    | 16        | Nifer o weithrediadau cydweithredu a gefnogwyd (dim EIP)                                                        | 10     | 0        | 0                     | 0%   |
|                                                                                                                    | 16        | Cyfanswm gwariant cyhoeddus £                                                                                   | £3.4m  | £0.1m    | £0.0m                 | 0%   |

Ffynhonnell: SCEC, 31-10-2017

## **Blaenoriaeth 4**

31. **Mesur 4.4** - Bydd y cylch nesaf ar gyfer Cynllun Grantiau Bach Glastir ar y thema 'Carbon' (i fynd i'r afael â Maes Canolbwyntio 5e) yn dechrau ar 1 Tachwedd gyda chyllideb o £1.5m. Y dyddiad cau ar gyfer y cylch hwn fydd 13 Rhagfyr 2017. Ceir rhagor o wybodaeth yn: <http://gov.wales/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/farming/schemes/glastir/glastir-small-grants/carbon/?skip=1&lang=cy>

32. Mae **Mesur 10.1** yn cynnwys cynlluniau Glastir Sylfaenol, Glastir Uwch a Glastir – Tir Comin. Mae hefyd yn cynnwys taliadau amlflwydd ar sail

arwynebedd ar gyfer coetiroedd fferm sy'n bodoli eisoes o dan Glastir – Rheoli Coetir a chafwyd cyfanswm gwariant o £28.2m. Y nifer wirioneddol o gontractau o dan Fesur 10.1 yw 6,877 sy'n cwmpasu arwynebedd o 676,469 ha. Mae Glastir Sylfaenol wedi sicrhau cyfanswm o 4,603 o gontractau, sef cyfanswm arwynebedd o 543,496ha o gymharu ag arwynebedd a ragwelwyd o 548,750ha. Ni chaiff unrhyw gontractau Sylfaenol eraill eu cynnig, gan fod Llywodraeth Cymru o'r farn bod ymyriadau wedi'u targedu'n fwy, megis y rhai o dan Glastir Uwch a, bellach, Grantiau Bach Glastir yn fwy priodol er mwyn cyflawni ei hamcanion. Bydd cyfranogwyr Glastir Sylfaenol y mae eu contractau yn dod i ben ym mis Rhagfyr yn cael cyfle i wneud cais i Grantiau Bach Glastir, sef cynllun cyfalaf a ariennir drwy Fesur 4.4 sy'n mynd i'r afael â Meysydd Canolbwyntio 4a a 4b Blaenoriaeth 4, yn ogystal â Meysydd Canolbwyntio 5d a 5e Blaenoriaeth 5.

33. **Mesurau 10.1 a 4.4** – Mae Glastir Uwch bellach yn cynnwys 2,403 o gontractau ac, o'r rhain, mae 895 yn gontractau ar wahân, mae 1,508 yn gontractau wedi'u hategu gan Glastir Sylfaenol ac mae 79 arall yn rhan o Glastir – Tir Comin. Y gwariant o dan y Rhaglen Datblygu Gwledig hon yw £13.9m ar gyfer Mesur 4.4 ac £16.9m ar gyfer Mesur 10.1.
34. Dechreuodd y cyfnod datgan diddordeb ar gyfer Glastir Uwch 2019 ar 18 Medi a daeth i ben am hanner nos ar 20 Hydref 2017. Cyflwynwyd 321 o ddatganiadau o ddiddordeb. Nid yw'r broses ddethol wedi'i chynnal eto.
35. Mae Llywodraeth Cymru ar fin dechrau cynnig adnewyddu contractau i fuddiolwyr cymwys Glastir tan 31 Rhagfyr 2019.
36. **Mesur 10.1** – Glastir – Tir Comin – dim newid ers yr adroddiad blaenorol.
37. **Mesur 11** – Glastir Organig – dim newid ers yr adroddiad blaenorol.
38. **Mesur 8.1 ac 8.2:** O dan **Glastir – Creu Coetir**, crëwyd 507ha o goetir newydd. Mae'r rhan fwyaf wedi'i greu o dan Fesur 8.1 – Coedwigo a chreu coetir, gyda dim ond 1ha o dan Fesur 8.2 – Amaeth-goedwigaeth. Cyfanswm y gwariant hyd yma yw £2.1m. Mae'r hawliadau cyntaf ar gyfer cynnal a chadw ac incwm a gollwyd wedi dod i law drwy SAF2017. Caiff yr hawliadau eu prosesu ym mis Chwefror 2018.
39. Dechreuodd pumed cylch ar gyfer Glastir – Creu Coetir ar 31 Gorffennaf a daeth i ben ar 25 Awst 2017. Cyflwynwyd 102 o ddatganiadau o ddiddordeb a oedd yn cwmpasu cyfanswm arwynebedd plannu o 723ha â gwerth cyfalaf o £2.6m. Cynhelir proses ddethol er mwyn cadw o fewn y gyllideb a ddyrannwyd, sef £1.7m.

40. Bydd y cyfnod nesaf yn dechrau ym mis Chwefror 2018 gyda chyllideb o £1.7m ar gyfer gwariant cyfalaf a chyllid ychwanegol i dalu am incwm a gollwyd a chostau cynnal a chadw.
41. Mae **Mesur 8.5** – Glastir – Rheoli Coetir yn cynnwys contractau etifeddol yn unig o'r Rhaglen Datblygu Gwledig flaenorol ac fe'i telir drwy Fesur 8.5 ar gyfer taliadau cyfalaf a Mesur 10.1 ar gyfer taliadau amlflwydd sy'n seiliedig ar arwynebedd. Ar hyn o bryd, mae 268 o gontractau ar waith, gyda gwariant gwerth £2.1m o dan y Rhaglen Datblygu Gwledig hon ar gyfer Mesur 8.5.
42. **Mesur 8.4:** Dechreuodd pumed cylch o Glastir - Adfer Coetir, gyda chyllideb o £1.0m ar 5 Mehefin a daeth i ben ar 30 Mehefin 2017. Cyflwynwyd 63 o ddatganiadau o ddiddordeb a oedd yn cwmpasu cyfanswm arwynebedd ailstocio o 442ha â gwerth cyfalaf o ychydig yn llai na £1.0m. O'r rhain, dewiswyd 59 o ddatganiadau o ddiddordeb, yn dilyn gwiriadau cymhwysedd, i gyflwyno cynllun Rheoli Coedwig, ac maent yn cwmpasu cyfanswm arwynebedd ailstocio o 424ha.
43. **Mesur 2.1:** Hyd yma, nid oes unrhyw gyllid wedi cael ei ddyfarnu o dan raglen Cymorth Cynghorol Glastir.
44. Ar gyfer cyngor hanesyddol a chyngor ar ansawdd dŵr Glastir, mae'r contract cyntaf ar gyfer cyngor hanesyddol wedi cael ei ddyfarnu i ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru. Mae ail ran y broses gymeradwyo ar gyfer gweddill y cyngor yn cael ei gaffael ar hyn o bryd. Mae'r system ar gyfer cyflawni'r rhaglen cyngor ar ansawdd dŵr yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd.
45. **Mesur 16.5:** Hyd yma, gwahoddwyd 25 o ddatganiadau o ddiddordeb llwyddiannus i gyflwyno ceisiadau llawn i'r Cynllun Rheoli Cynaliadwy, sef cyfanswm lefel neilltuo grant o £15m. Mae pob un o'r 25 o ddatganiadau o ddiddordeb llwyddiannus wedi cyflwyno ceisiadau llawn. Mae saith o'r prosiectau hyn (cyfanswm o £3.9m) wedi cael eu cymeradwyo ac maent bellach ar waith. Mae 17 o geisiadau eraill yn cael eu harfarnu, gyda lefel neilltuo grant o £8.6m.
| 3            | Nifer y prototeipiau ynni adnewyddadwy a brofwyd                                                                      | 8                                       | 3                                                  | 38%                                   | n/a                                              | n/a                                             | n/a                                   | 0                        | 0%                                         | n/a                                        |
| 3            | Nifer y cartrefi â dosbarthiad defnydd o ynni gwell <sup>2</sup>                                                      | 5,500                                   | 3,060                                              | 56%                                   | 2,750                                            | 0                                               | 0%                                    | 0                        | 0%                                         | 0%                                         |
| 4            | Gwariant (€M) <sup>1</sup>                                                                                            | 764                                     | 537                                                | 70%                                   | 195                                              | 118                                             | 60%                                   | 40                       | 5%                                         | 21%                                        |
| 4            | Canran o'r dyraniad ariannol â blaenoriaeth y rhoddwyd cyfrif amdano gan gytundebau er mwyn cyflawni gwaith seilwaith | n/a                                     | >100                                               | n/a                                   | 35                                               | 52                                              | >100                                  | 9                        | n/a                                        | 26%                                        |
| 4            | Cilometrau teithwyr gros ar drafnidiaeth gyhoeddus <sup>2</sup>                                                       | 400,000,000                             | 1,790,041                                          | 0%                                    | n/a                                              | n/a                                             | n/a                                   | 0                        | 0%                                         | n/a                                        |
| 4            | Nifer y prosiectau a gyflwynwyd i'r Awdurdod Rheoli ar ôl dilyn proses flaenoriaethu gytûn                            | 5                                       | 55                                                 | >100%                                 | 3                                                | 35                                              | >100%                                 | 10                       | >100%                                      | >100%                                      |
| 4            | Tir wedi'i ddatblygu (Ha)                                                                                             | 50                                      | 103                                                | >100%                                 | n/a                                              | n/a                                             | n/a                                   | 0                        | 0%                                         | n/a                                        |

Ffynhonnell: SCEC, 31/10/2017

<sup>1</sup> Mae'r rhagolygon Gwariant Cymwys yn geidwadol ac yn seiliedig ar y rhagolygon presennol a ragwelir i fis Mehefin 2018 ac wedi'u haddasu ar gyfer yr amrywiant cyfredol i broffil. Bydd hyn yn caniatáu digon o amser i geisiadau cyllid a gyflwynir gael eu gwirio. Bydd yr holl dargedau Gwariant yn cael eu newid yn yr addasiad i'r rhaglen.

<sup>2</sup> Bydd y dangosydd / targed yn cael ei newid yn yr addasiad i'r rhaglen sydd i ddod.

<sup>3</sup> Seilir rhagolygon ar ddata o brosiectau a gymeradwyir ar hyn o bryd ac maent yn rhagdybio y bydd gweithrediadau'n yn dilyn eu proffil.

Tabl 2: Rhaglen ERDF Dwyrain Cymru: Dangosyddion Fframwaith Perfformiad

| Blaenoriaeth | Dangosydd                                                                                                             | Targed<br>terfynol erbyn<br>diwedd 2023 | Rhagolygon<br>erbyn<br>diwedd<br>2023 <sup>3</sup> | Rhagolygon<br>cyfran o<br>darged 2023 | Targed<br>carreg filltir<br>erbyn<br>diwedd 2018 | Rhagolygon<br>erbyn diwedd<br>2018 <sup>3</sup> | Rhagolygon<br>cyfran o<br>darged 2018 | Cyflawnwyd<br>hyd yn hyn | Cyfran o<br>darged 2023<br>a<br>gyflawnwyd | Cyfran o<br>darged 2018<br>a<br>gyflawnwyd |
|--------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------|----------------------------------------------------|---------------------------------------|--------------------------------------------------|-------------------------------------------------|---------------------------------------|--------------------------|--------------------------------------------|--------------------------------------------|
| 1            | Gwariant (€M) <sup>1</sup>                                                                                            | 178                                     | 171                                                | 96%                                   | 46                                               | 52                                              | >100%                                 | 23                       | 13%                                        | 51%                                        |
| 1            | Nifer y mentrau sy'n cael cymorth anariannol <sup>2</sup>                                                             | 2,245                                   | 304                                                | 14%                                   | 629                                              | 99                                              | 16%                                   | 48                       | 2%                                         | 8%                                         |
| 2            | Gwariant (€M) <sup>1</sup>                                                                                            | 80                                      | 74                                                 | 93%                                   | 20                                               | 52                                              | >100%                                 | 46                       | 57%                                        | >100%                                      |
| 2            | Nifer y mentrau sy'n cael cymorth anariannol <sup>2</sup>                                                             | 6,420                                   | 9,264                                              | >100%                                 | 1,798                                            | 5,775                                           | >100%                                 | 867                      | 14%                                        | 48%                                        |
| 3            | Gwariant (€M) <sup>1</sup>                                                                                            | 45                                      | 8                                                  | 19%                                   | 11                                               | 0                                               | 0%                                    | 0                        | 0%                                         | 0%                                         |
| 3            | Nifer y cartrefi â dosbarthiad defnydd o ynni gwell <sup>2</sup>                                                      | 4,200                                   | 765                                                | 18%                                   | 2,100                                            | 0                                               | 0%                                    | 0                        | 0%                                         | 0%                                         |
| 4            | Gwariant (€M) <sup>1</sup>                                                                                            | 96                                      | 22                                                 | 23%                                   | 24                                               | 17                                              | 71%                                   | 13                       | 13%                                        | 51%                                        |
| 4            | Canran o'r dyraniad ariannol â blaenoriaeth y rhoddwyd cyfrif amdano gan gytundebau er mwyn cyflawni gwaith seilwaith | n/a                                     | >100                                               | n/a                                   | 75                                               | 95                                              | >100                                  | 22                       | n/a                                        | 29%                                        |
| 4            | Cilometrau teithwyr gros ar drafnidiaeth gyhoeddus <sup>2</sup>                                                       | 67,200,000                              | 0                                                  | 0%                                    | n/a                                              | n/a                                             | n/a                                   | 0                        | 0%                                         | n/a                                        |

Ffynhonnell: SCEC, 31/10/2017

<sup>1</sup> Mae'r rhagolygon Gwariant Cymwys yn geidwadol ac yn seiliedig ar y rhagolygon presennol a ragwelir i fis Mehefin 2018 ac wedi'u haddasu ar gyfer yr amrywiant cyfredol i broffil. Bydd hyn yn caniatáu digon o amser i geisiadau cyllid a gyflwynir gael eu gwirio. Bydd yr holl dargedau Gwariant yn cael eu newid yn yr addasiad i'r rhaglen.

<sup>2</sup> Bydd y dangosydd / targed yn cael ei newid yn yr addasiad i'r rhaglen sydd i ddod.

<sup>3</sup> Seilir rhagolygon ar ddata o brosiectau a gymeradwyir ar hyn o bryd ac maent yn rhagdybio y bydd gweithrediadau'n yn dilyn eu proffil.

Tabl 3: Rhaglen ESF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd: Dangosyddion Fframwaith Perfformiad

| Blaenoriaeth | Dangosydd                                                                                                         | Targed<br>terfynol<br>erbyn<br>diwedd 2023 | Rhagolygon<br>erbyn<br>diwedd<br>2023 <sup>3</sup> | Rhagolygon<br>cyfran o<br>darged 2023 | Targed<br>carreg filltir<br>erbyn<br>diwedd 2018 | Rhagolygon<br>erbyn diwedd<br>2018 <sup>3</sup> | Rhagolygon<br>cyfran o<br>darged 2018 | Cyflawnwyd<br>hyd yn hyn | Cyfran o<br>darged 2023<br>a<br>gyflawnwyd | Cyfran o<br>darged 2018<br>a<br>gyflawnwyd |
|--------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------|----------------------------------------------------|---------------------------------------|--------------------------------------------------|-------------------------------------------------|---------------------------------------|--------------------------|--------------------------------------------|--------------------------------------------|
| 1            | Gwariant (€M) <sup>1</sup>                                                                                        | 248                                        | 172                                                | 69%                                   | 63                                               | 73                                              | >100%                                 | 18                       | 7%                                         | 29%                                        |
| 1            | Economaidd anweithgar (25 oed a hŷn) nad ydynt mewn addysg na hyfforddiant sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth | 36,000                                     | 42,655                                             | >100%                                 | 9,182                                            | 24,452                                          | >100%                                 | 5,943                    | 17%                                        | 65%                                        |
| 1            | Di-waith tymor hir (25 oed a hŷn) sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth                                          | 10,800                                     | 18,615                                             | >100%                                 | 2,755                                            | 10,548                                          | >100%                                 | 2,897                    | 27%                                        | >100%                                      |
| 2            | Gwariant (€M) <sup>1</sup>                                                                                        | 480                                        | 493                                                | >100%                                 | 122                                              | 206                                             | >100%                                 | 85                       | 18%                                        | 70%                                        |
| 2            | Cyfranogwyr cyflogedig heb gymwysterau ffurfiol - Dynion <sup>2</sup>                                             | 14,029                                     | 5,280                                              | 38%                                   | 3,578                                            | 3,493                                           | 98%                                   | 563                      | 4%                                         | 16%                                        |
| 2            | Cyfranogwyr cyflogedig heb gymwysterau ffurfiol - Menywod <sup>2</sup>                                            | 12,771                                     | 5,599                                              | 44%                                   | 3,258                                            | 3,432                                           | >100%                                 | 429                      | 3%                                         | 13%                                        |
| 2            | Cyfranogwyr cyflogedig sydd â chymwysterau hyd at a chan gynnwys addysg uwchradd is - Dynion                      | 23,870                                     | 21,557                                             | 90%                                   | 6,088                                            | 12,580                                          | >100%                                 | 6,795                    | 28%                                        | >100%                                      |
| 2            | Cyfranogwyr cyflogedig sydd â chymwysterau hyd at a chan gynnwys addysg uwchradd is - Menywod                     | 21,730                                     | 26,089                                             | >100%                                 | 5,543                                            | 14,258                                          | >100%                                 | 6,812                    | 31%                                        | >100%                                      |
| 2            | Cyfranogwyr cyflogedig sydd ag addysg uwchradd is - Dynion                                                        | 16,070                                     | 22,233                                             | >100%                                 | 4,099                                            | 11,991                                          | >100%                                 | 4,583                    | 29%                                        | >100%                                      |
| 2            | Cyfranogwyr cyflogedig sydd ag addysg uwchradd is - Menywod                                                       | 14,630                                     | 27,469                                             | >100%                                 | 3,732                                            | 13,905                                          | >100%                                 | 4,733                    | 32%                                        | >100%                                      |
| 3            | Gwariant (€M) <sup>1</sup>                                                                                        | 329                                        | 268                                                | 81%                                   | 84                                               | 165                                             | >100%                                 | 36                       | 11%                                        | 42%                                        |
| 3            | Cyfranogwyr NEET (16-24 oed)                                                                                      | 42,700                                     | 48,483                                             | >100%                                 | 10,891                                           | 28,031                                          | >100%                                 | 13,170                   | 31%                                        | >100%                                      |

Ffynhonnell: SCEC, 31/10/2017

<sup>1</sup> Mae'r rhagolygon Gwariant Cymwys yn geidwadol ac yn seiliedig ar y rhagolygon presennol a ragwelir i fis Mehefin 2018 ac wedi'u haddasu ar gyfer yr amrywiant cyfredol i broffil. Bydd hyn yn caniatáu digon o amser i geisiadau cyllid a gyflwynir gael eu gwirio. Bydd yr holl dargedau Gwariant yn cael eu newid yn yr addasiad i'r rhaglen.

<sup>2</sup> Bydd y dangosydd / targed yn cael ei newid yn yr addasiad i'r rhaglen sydd i ddod.

<sup>3</sup> Seilir rhagolygon ar ddata o brosiectau a gymeradwyir ar hyn o bryd ac maent yn rhagdybio y bydd gweithrediadau'n yn dilyn eu proffil.

Tabl 4: Rhaglen ESF Dwyrain Cymru: Dangosyddion Fframwaith Perfformiad

| Blaenoriaeth | Dangosydd                                                                                                         | Targed<br>terfynol<br>erbyn<br>diwedd 2023 | Rhagolygon<br>erbyn<br>diwedd<br>2023 <sup>3</sup> | Rhagolygon<br>cyfran o<br>darged 2023 | Targed<br>carreg filltir<br>erbyn<br>diwedd 2018 | Rhagolygon<br>erbyn diwedd<br>2018 <sup>3</sup> | Rhagolygon<br>cyfran o<br>darged 2018 | Cyflawnwyd<br>hyd yn hyn | Cyfran o<br>darged 2023<br>a<br>gyflawnwyd | Cyfran o<br>darged 2018<br>a<br>gyflawnwyd |
|--------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------|----------------------------------------------------|---------------------------------------|--------------------------------------------------|-------------------------------------------------|---------------------------------------|--------------------------|--------------------------------------------|--------------------------------------------|
| 1            | Gwariant (€M) <sup>1</sup>                                                                                        | 88                                         | 34                                                 | 39%                                   | 22                                               | 13                                              | 58%                                   | 2                        | 2%                                         | 9%                                         |
| 1            | Economaidd anweithgar (25 oed a hŷn) nad ydynt mewn addysg na hyfforddiant sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth | 12,700                                     | 14,611                                             | >100%                                 | 3,239                                            | 8,628                                           | >100%                                 | 1,230                    | 10%                                        | 38%                                        |
| 1            | Di-waith tymor hir (25 oed a hŷn) sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth                                          | 3,800                                      | 5,863                                              | >100%                                 | 969                                              | 3,526                                           | >100%                                 | 676                      | 18%                                        | 70%                                        |
| 2            | Gwariant (€M) <sup>1</sup>                                                                                        | 197                                        | 224                                                | >100%                                 | 50                                               | 88                                              | >100%                                 | 35                       | 18%                                        | 71%                                        |
| 2            | Cyfranogwyr cyflogedig heb gymwysterau ffurfiol - Dynion <sup>2</sup>                                             | 7,799                                      | 1,950                                              | 25%                                   | 1,989                                            | 1,160                                           | 58%                                   | 86                       | 1%                                         | 4%                                         |
| 2            | Cyfranogwyr cyflogedig heb gymwysterau ffurfiol - Menywod <sup>2</sup>                                            | 7,101                                      | 2,025                                              | 29%                                   | 1,811                                            | 1,234                                           | 68%                                   | 97                       | 1%                                         | 5%                                         |
| 2            | Cyfranogwyr cyflogedig sydd â chymwysterau hyd at a chan gynnwys addysg uwchradd is - Dynion                      | 13,296                                     | 8,938                                              | 67%                                   | 3,391                                            | 4,851                                           | >100%                                 | 3,276                    | 25%                                        | 97%                                        |
| 2            | Cyfranogwyr cyflogedig sydd â chymwysterau hyd at a chan gynnwys addysg uwchradd is - Menywod                     | 12,104                                     | 10,625                                             | 88%                                   | 3,087                                            | 5,536                                           | >100%                                 | 3,646                    | 30%                                        | >100%                                      |
| 2            | Cyfranogwyr cyflogedig sydd ag addysg uwchradd is - Dynion                                                        | 6,438                                      | 9,873                                              | >100%                                 | 1,642                                            | 5,065                                           | >100%                                 | 2,407                    | 37%                                        | >100%                                      |
| 2            | Cyfranogwyr cyflogedig sydd ag addysg uwchradd is - Menywod                                                       | 5,862                                      | 12,240                                             | >100%                                 | 1,495                                            | 6,492                                           | >100%                                 | 2,517                    | 43%                                        | >100%                                      |
| 3            | Gwariant (€M) <sup>1</sup>                                                                                        | 120                                        | 143                                                | >100%                                 | 31                                               | 76                                              | >100%                                 | 13                       | 11%                                        | 43%                                        |
| 3            | Cyfranogwyr NEET (16-24 oed)                                                                                      | 21,200                                     | 28,266                                             | >100%                                 | 5,407                                            | 16,184                                          | >100%                                 | 4,883                    | 23%                                        | 90%                                        |

Ffynhonnell: SCEC, 31/10/2017

<sup>1</sup> Mae'r rhagolygon Gwariant Cymwys yn geidwadol ac yn seiliedig ar y rhagolygon presennol a ragwelir i fis Mehefin 2018 ac wedi'u haddasu ar gyfer yr amrywiant cyfredol i broffil. Bydd hyn yn caniatáu digon o amser i geisiadau cyllid a gyflwynir gael eu gwirio. Bydd yr holl dargedau Gwariant yn cael eu newid yn yr addasiad i'r rhaglen.

<sup>2</sup> Bydd y dangosydd / targed yn cael ei newid yn yr addasiad i'r rhaglen sydd i ddod.

<sup>3</sup> Seilir rhagolygon ar ddata o brosiectau a gymeradwyir ar hyn o bryd ac maent yn rhagdybio y bydd gweithrediadau'n yn dilyn eu proffil.

Tabl 5: Rhaglen Datblygu Gwledig: Dangosyddion fframwaith perfformiad

| Blaenoriaeth | Dangosydd                                                                                                                                                                                                                                                                                                  | Targed terfynol<br>erbyn diwedd<br>2023 | Cyflawnwyd hyd<br>yn hyn | Targed carreg<br>filitir erbyn<br>diwedd 2018 | Targed terfynol<br>erbyn diwedd<br>2023 | Cyfran o darged<br>2023 a<br>gyflawnwyd |
|--------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------|--------------------------|-----------------------------------------------|-----------------------------------------|-----------------------------------------|
| 2            | Cyfanswm Gwariant Cyhoeddus B2 (EWR)                                                                                                                                                                                                                                                                       | € 71,812,500                            | € 7,737,500              | 24%                                           | € 121,683,038                           | 6%                                      |
|              | Nifer y daliadau amaethyddol sy'n cael cefnogaeth drwy'r Rhaglen Datblygu Wledig i fuddsoddi mewn ad-drefnu neu foderneiddio (maes pwyslais 2A) + daliadau gyda chynllun datblygu busnes/buddsoddiad ar gyfer ffermwyr ifanc wedi ei gefnogi gan y Rhaglen Datblygu Wledig (maes pwyslais 2B)              | 15                                      | 0                        | 10%                                           | 2,431                                   | 0%                                      |
| 3            | Cyfanswm Gwariant Cyhoeddus B3 (EWR)                                                                                                                                                                                                                                                                       | € 37,275,000                            | € 525,000                | 24%                                           | € 108,649,232                           | 0%                                      |
|              | Nifer y daliadau amaethyddol a gefnogir sy'n derbyn cymorth am gyfrannu mewn cynlluniau ansawdd, marchnadoedd lleol/cylchedau cyflenwi byr, a grwpiau cynhyrchu (maes pwyslais 3A)                                                                                                                         | 414                                     | 0                        | 35%                                           | 165                                     | 0%                                      |
| 4            | Cyfanswm Gwariant Cyhoeddus B4 (EWR)                                                                                                                                                                                                                                                                       | € 477,837,500                           | € 61,803,750             | 24%                                           | € 415,473,779                           | 15%                                     |
|              | Tir amaethyddol o dan gontractau rheoli sy'n cyfrannu at fioamrywiaeth (ha) (maes pwyslais 4A) + gwella rheoli dŵr (ha) (maes pwyslais 4B) + gwella rheoli pridd ac/atal erydu pridd (ha) (maes pwyslais 4C)                                                                                               | 598,500                                 | 749,381                  | 85%                                           | 706,387                                 | 106%                                    |
| 5            | Cyfanswm Gwariant Cyhoeddus B5 (EWR)                                                                                                                                                                                                                                                                       | € 39,875,000                            | € 4,467,501              | 24%                                           | € 80,454,040                            | 6%                                      |
|              | Nifer y gweithrediadau buddsoddi mewn arbed ynni ac effeithlonrwydd (maes pwyslais 5B) + mewn cynhyrchu egni adnewyddadwy (maes pwyslais 5C)                                                                                                                                                               | 0                                       | 0                        | 32%                                           | 583                                     | 0%                                      |
|              | Tir amaethyddol a choedwig dan reolaeth i feithrin dal a storio carbon (ha) (maes pwyslais 5E) + Tir amaethyddol dan gontractau rheoli sy'n targedu lleihad yn nwyon tŷ gwydr ac/neu allyriadau amonia (ha) (maes pwyslais 5D) + Tir dyfredig yn newid i system ddyfrhau fwy effeithlon (maes pwyslais 5A) | 61,829                                  | 147                      | 81%                                           | 63,711                                  | 0%                                      |
| 6            | Nifer y gweithrediadau a gefnogir er mwyn gwella gwasanaethau ac isadeileddau sylfaenol mewn ardaloedd gwledig (meysydd pwyslais 6B a 6C)                                                                                                                                                                  | 1,583                                   | 0                        | 20%                                           | 653                                     | 0%                                      |
|              | Cyfanswm Gwariant Cyhoeddus B6 (EWR)                                                                                                                                                                                                                                                                       | € 71,550,000                            | € 125,000                | 24%                                           | € 206,164,595                           | 0%                                      |
|              | Y Boblogaeth wedi eu cynnwys gan y Grŵp Gweithredu Lleol (maes pwyslais 6B)                                                                                                                                                                                                                                | 1,381,745                               | 1,381,745                | 100%                                          | 1,381,745                               | 100%                                    |

Ffynhonnell: WEFO, 31-10-2017

Tabl 6: Rhaglen Datblygu Gwledig: Dangosyddion fframwaith o ran perfformiad Arall

| Blaenoriaeth | Dangosydd                                                                                                                                             | Targed terfynol<br>erbyn diwedd<br>2023 | Cyflawnwyd hyd<br>yn hyn | Targed carreg<br>filitir erbyn<br>diwedd 2018 | Targed terfynol<br>erbyn diwedd<br>2023 | Cyfran o darged<br>2023 a<br>gyflawnwyd |
|--------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------|--------------------------|-----------------------------------------------|-----------------------------------------|-----------------------------------------|
| 3            | Nifer y gweithrediadau a gefnogir ar gyfer buddsoddiadau (e.e. mewn daliadau amaethyddol, prosesu a marchnata nwyddau amaethyddol) (maes pwyslais 3A) | 24                                      | 0                        | 35%                                           | 120                                     | 0%                                      |

Ffynhonnell: WEFO, 31-10-2017

**PWYLLGOR MONITRO RHAGLENNI CYMRU, CRONFEYDD  
STRWYTHUROL A BUDDSODDI EWROPEAIDD 2014 – 2020:**

**Diwygiadau i Raglenni ERDF 2014-2020**

**Mater**

1. Gofynnir i'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni (y Pwyllgor) gytuno ar ddiwygiadau i Raglenni ERDF 2014-2020, sy'n ymwneud â'r canlynol:
  - newidiadau i'r dangosyddion a'r targedau mewn rhannau gwahanol o'r rhaglen er mwyn adlewyrchu'r dystiolaeth ddiweddaraf a chywiro tybiaethau anghywir a wnaed ar gam datblygu'r rhaglen
  - addasiadau i'r Fframwaith Perfformiad sy'n adlewyrchu'r uchod a sicrhau bod dangosyddion yn cynrychioli o leiaf 50% o bob Echel Blaenoriaeth
  - ailddyrannu arian ERDF rhwng Amcanion Thematig ac Echelau Blaenoriaeth o ganlyniad i'r newidiadau mewn amodau economaidd-gymdeithasol a'r cyd-destun buddsoddi.

**Argymhelliad**

2. Yn unol ag Erthygl 110 o Reoliad UE 1303/2013, mae'n ofynnol i'r Pwyllgor ystyried a chymeradwyo unrhyw gynrig i ddiwygio'r Rhaglenni Gweithredol a gynigir gan yr Awdurdod Rheoli.

**Cefndir**

3. Wrth gyrraedd cam canol Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol 2014-2020, mae adolygiad o'r hyn a gyflawnwyd hyd yma a phrosiectau y disgwylir iddynt fod yn yr arfaeth wedi nodi rhai addasiadau posibl sydd eu hangen i'r Rhaglenni Gweithredol.
4. Mae'r Pwyllgor eisoes wedi cynnal trafodaethau rhagarweiniol ar y dull gweithredu arfaethedig mewn perthynas ag addasiadau a'r amserlen gysylltiedig yn ystod cyfarfodydd mis Mehefin a mis Medi 2017.
5. Mae aelodau eisoes wedi cymeradwyo mân addasiadau sy'n ymwneud â'r dyraniadau cyllid ychwanegol i raglenni ERDF ac ESF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, a chynnwys 'Cod Categorioidio' ychwanegol dan Flaenoriaeth 3 rhaglen ERDF. Mae'r rhain wedi'u cyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd gytuno arnynt.
6. Mae'r rhesymeg dros ymyrryd a nodir ar gyfer pob Amcan Penodol yn gadarn o hyd, yn ogystal â'r canlyniadau disgwylidig. O safbwynt cyflawni, mae rhaglenni 2014-2020 wedi rhoi pwyslais ar gyfrannu at y

canlyniadau, yn hytrach na chanolbwyntio'n gyfan gwbl ar allbynnau. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn y meysydd hynny lle mae dulliau cyflawni wedi newid yn sylweddol; fel y targedu cynyddol drwy arbenigo craff. Mae gwaith wedi'i wneud i adolygu dangosyddion yn y ddwy raglen, ac mae'r newidiadau arfaethedig yn ymwneud yn bennaf â gwendidau yn y rhesymeg wreiddiol dros y targedau a thybiaethau cynllunio cysylltiedig. Pan fo dulliau cyflawni wedi newid yn sylweddol, nid yw'r perfformiad blaenorol a ddefnyddiwyd i bennu targedau cychwynnol yn ddangosydd mor ddibynadwy o berfformiad yn y dyfodol. Mae'r newidiadau hyn yn cynnwys dileu rhai dangosyddion nad ydynt yn ymwneud â'r canlyniad a anelir ato na gweithgarwch arfaethedig. Bydd y newidiadau hyn yn symleiddio rhaglenni ac yn golygu y gellir osgoi casglu data diangen. Ceir rhagor o fanylion am y newidiadau arfaethedig yn Atodiad C.

### Ystyriaethau ariannol

7. Mae heriau yn ymwneud â neilltuo wedi codi mewn rhai meysydd o'r rhaglenni ERDF, yn enwedig pan roedd disgwyl i brosiectau mawr gael eu cynnal ond nad ydynt wedi digwydd (e.e. gweithrediadau llai na'r disgwyl ar gyfer yr amcanion effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi ac ynni cymunedol).
8. Mae canlyniadau cyfres o geisiadau penodol am gynigion prosiect yn awgrymu bod digon o alw am y dyraniadau lefel Blaenoriaeth presennol ar gyfer rhaglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, sy'n golygu y gallant aros fel y maent. Fodd bynnag, cynigir rhywfaint o ailgyfeirio o fewn Blaenoriaeth 2 (Cystadleurwydd BBaChau), er mwyn rhoi hwb i allu'r Offerynnau Ariannol, a reolir gan Fanc Datblygu Cymru.
9. Yn Nwyrain Cymru, mae WEFO yn cynnig ailddyrannu rhywfaint o arian sydd wedi'i ddyrannu ar hyn o bryd i Flaenoriaeth 3 (Ynni Adnewyddadwy ac Effeithlonrwydd Ynni) i rannau eraill o'r rhaglen. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith y cafwyd nifer is na'r disgwyl o ymyriadau ar gyfer ynni cymunedol ac effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi. Byddai cyllid yn cael ei ailgyfeirio i Flaenoriaeth 1 (Ymchwil ac Arloesedd): Blaenoriaeth allweddol o ran strategaeth y rhaglen, ac i Flaenoriaeth 2 (Cystadleurwydd BBaChau), lle mae'r Offeryn Ariannol presennol yn gorgyflawni a lle ceir cyfle o hyd i gau bylchau ariannol a nodwyd yn flaenorol na allai dyraniadau blaenorol eu cau'n gyfan gwbl.
10. Gosodwyd cerrig milltir gwariant cymwys y fframwaith perfformiad ar werth cyffredinol  $N + 3$  a'u dosbarthu'n gyfartal ymhlith y Blaenoriaethau; nid oedd y rhagdybiaeth hon yn rhoi ystyriaeth lawn i natur arloesol y flaenoriaeth ynni a'r amser a gymerwyd i weithredu prosiectau seilwaith mawr. Roedd dosbarthiad cymharol gyfartal o dargedau ariannol ar gyfer y fframwaith perfformiad yn seiliedig ar ragdybiaethau effeithlonrwydd ynni mawr mewn prosiectau tai a phrosiectau cysylltiedd fyddai'n dechrau'n gynnar iawn yn ystod cyfnod y rhaglen. Ni ddechreuodd y prosiectau hyn cyn gynted ag y disgwyliwyd.

11. Felly, cynigir newidiadau i ail-gydbwyso'r targedau ariannol y fframwaith perfformiad rhwng y Blaenoriaethau. Lle mae adnoddau wedi'u hailddyrannu rhwng y Blaenoriaethau, mae hyn hefyd wedi arwain at newidiadau i'r targedau ariannol. Mae'r newidiadau hyn wedi'u cynnwys yn Atodiad B.

### Y newidiadau arfaethedig

12. Caiff y newidiadau arfaethedig i'r ddwy Raglen Weithredol ERDF eu nodi'n fanwl yn Atodiad A. Yn gryno, mae'r cynigion yn ymwneud â'r canlynol:

- Ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, ailddyrannu arian o fewn Amcanion Thematig Blaenoriaeth 2 (Cystadleurwydd BBaChau): gan symud €20,000,000 o arian yr UE o gyngor a chymorth<sup>1</sup> i fusnesau er mwyn rhoi hwb i gyllid ecwiti yn yr Offerynnau Ariannol<sup>2</sup>, a reolir gan Fanc Datblygu Cymru.
- Ar gyfer yr amcan penodol ynni morol yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, rydym yn ystyried ychwanegu eglurhad i'r disgrifiad o'r ardaloedd parthau arddangos
- Ar gyfer Dwyrain Cymru yn unig, ailddyrannu €17,550,000 o Flaenoriaeth 3 (Ynni Adnewyddadwy ac Effeithlonrwydd Ynni): gan gynyddu Blaenoriaeth 1 (Ymchwil ac Arloesedd) €11,700,000 a Blaenoriaeth 2 (Cystadleurwydd BBaChau) €5,850,000. Ceir tablau ariannol diwygiedig yn Atodiad A.
- Newidiadau i'r dangosyddion a'r targedau mewn rhannau gwahanol o'r ddwy raglen er mwyn adlewyrchu'r dystiolaeth ddiweddaraf a chywiro tybiaethau anghywir a wnaed ar gam datblygu'r rhaglenni. Disgrifir y newidiadau a'r rhesymeg gysylltiedig yn fanwl yn Atodiad B.
- Addasiadau i'r Fframweithiau Perfformiad sy'n adlewyrchu'r uchod a sicrhau bod dangosyddion yn cynrychioli o leiaf 50% o bob Echel Blaenoriaeth.

13. Bydd y cynigion i addasu dangosyddion a thargedau yn effeithio ar y fframwaith perfformiad. Gall hyn fod yn anodd ei negodi, ond credwn fod gennym resymeg gadarn dros y newidiadau a gynigir ac mae'r trafodaethau cynnar a gafwyd â'r Comisiwn Ewropeaidd wedi bod yn gadarnhaol.

### Newidiadau eraill

14. Mae'r addasiadau hefyd yn gyfle i wneud amrywiaeth o fân addasiadau er mwyn adlewyrchu gwallau yn y dogfennau gwreiddiol neu roi eglurhad, y

<sup>1</sup> Amcan Thematig 3 Gwella cystadleurwydd BBaChau

<sup>2</sup> Amcan Thematig 1 Atgyfnerthu gwaith ymchwil, datblygu technolegol ac arloesi

mae swyddog desg y CE eisoes wedi tynnu sylw at rai ohonynt. Mae hyn yn cynnwys diwygiadau i'r dangosyddion Cymorth Technegol er mwyn sicrhau eu bod yn gyson ym mhob rhaglen a chywiro rhai tybiaethau.

15. Cafodd Asesiadau Amgylcheddol Strategol ac Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb eu cynnal mewn perthynas â dogfennau gwreiddiol y Rhaglenni Gweithredol. Bydd gofyniad i ail edrych ar y rhain yn sgil y newidiadau a gynigir.

### **Targedau Crynodi Thematig a Chlustnodi**

16. Yn ôl y rheoliadau, mae'n ofynnol cyfeirio dyraniadau gofynnol at gyfuniad o 'Amcanion Thematig' gwahanol, yn ogystal â chyfrannu at dargedau ehangach i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Mae'r cynigion a nodir yn y ddogfen hon yn sicrhau bod yr holl dargedau clustnodi a chrynodi thematig yn cael eu cyrraedd o hyd.
17. Ar ôl cael cytundeb y Pwyllgor a chyn y cam cyflwyno ffurfiol, bydd angen i WEFO gysylltu â Llywodraeth y DU er mwyn sicrhau na fydd unrhyw effaith negyddol ar dargedau cyffredinol y DU yn y meysydd hyn. Ni ddisgwylir hyn oherwydd y confensiwn yw bod pob gweinyddiaeth ddatganoledig yn cyrraedd ei 'chyfran' o dargedau, oni cheir cytundeb ymlaen llaw.

### **Y Camau Nesaf**

18. Os ceir cymeradwyaeth y Pwyllgor, caiff y Rhaglen Weithredol ei diweddarau a chaiff y cynigion eu hanfon at y Comisiwn Ewropeaidd i'w hystyried yn ffurfiol ar ddechrau 2018 er mwyn ceisio cwblhau negodiadau erbyn canol y flwyddyn nesaf.

**Swyddog Arweiniol WEFO: Tom Smithson**  
**Cymeradwywyd gan: Rob Halford**  
**Tachwedd 2017**

**Atodiad A1: diwygiadau arfaethedig i dablau ariannol Rhaglen Weithredol ERDF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd**

**Tabl 1 - Ailddyrannu arfaethedig Rhaglen Weithredol Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, Echel Blaenoriaeth 2: Cystadleurwydd Busnesau Bach a Chanolig (Grant ERDF / Cyfraniad yr UE yn unig)**

| <b>Amcan Thematig</b>                                           | <b>ERDF cyfredol (€)</b> | <b>ERDF arfaethedig (€)</b> | <b>Newid yn y dyraniadau</b> |
|-----------------------------------------------------------------|--------------------------|-----------------------------|------------------------------|
| (3) Gwellu cystadleurwydd BBaChau                               | 188,119,484              | 168,119,484                 | -20,000,000                  |
| (1) Atgyfnerthu gwaith ymchwil, datblygu technolegol ac arloesi | 19,873,920               | 39,873,920                  | +20,000,000                  |

Tabl 2 - ERDF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd - tabl ariannol diwygiedig (Tabl 18c)

| <b>Echel<br/>Blaenoria<br/>eth</b> | <b>Amcan Thematig</b>                                                                        | <b>Cymorth yr Undeb</b> | <b>Gwrthran<br/>genedlaethol</b> | <b>Cyfanswm yr arian</b> |
|------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------|----------------------------------|--------------------------|
|                                    |                                                                                              | <b>€</b>                | <b>€</b>                         | <b>€</b>                 |
| <b>1</b>                           |                                                                                              | <b>301,917,197</b>      | <b>152,892,090</b>               | <b>454,809,287</b>       |
|                                    | (1) Atgyfnerthu gwaith ymchwil, datblygu technolegol ac arloesi                              | 301,917,197             | 152,892,090                      | 454,809,287              |
| <b>2</b>                           |                                                                                              | <b>207,993,404</b>      | <b>125,275,951</b>               | <b>333,269,355</b>       |
|                                    | (3) Gwella cystadleurwydd BBaChau                                                            | 168,119,484             | 101,259,596                      | 269,379,080              |
|                                    | (1) Atgyfnerthu gwaith ymchwil, datblygu technolegol ac arloesi                              | 39,873,920              | 24,016,354                       | 63,890,274               |
| <b>3</b>                           |                                                                                              | <b>170,823,488</b>      | <b>75,213,511</b>                | <b>246,036,999</b>       |
|                                    | (4) Cefnogi'r newid i economi carbon isel ym mhob sector                                     | 170,823,488             | 75,213,511                       | 246,036,999              |
| <b>4</b>                           |                                                                                              | <b>501,305,767</b>      | <b>262,181,542</b>               | <b>763,487,309</b>       |
|                                    | (7) Hyrwyddo trafndiaeth gynaliadwy a dileu rhwystrau mewn seilweithiau rhwydwaith allweddol | 106,387,268             | 55,640,250                       | 162,027,518              |

| <b>Echel<br/>Blaenoria<br/>eth</b> | <b>Amcan Thematig</b>                                    | <b>Cymorth yr Undeb</b> | <b>Gwrthran<br/>genedlaethol</b> | <b>Cyfanswm yr arian</b> |
|------------------------------------|----------------------------------------------------------|-------------------------|----------------------------------|--------------------------|
|                                    |                                                          | <b>€</b>                | <b>€</b>                         | <b>€</b>                 |
|                                    | (4) Cefnogi'r newid i economi carbon isel ym mhob sector | 172,143,962             | 90,030,820                       | 262,174,782              |
|                                    | (2) Gwella mynediad i TGCh ynghyd â'i defnydd            | 55,693,634              | 29,127,618                       | 84,821,252               |
|                                    | (8) hyrwyddo cyflogaeth a chefnogi symudedd llafur       | 167,080,903             | 87,382,854                       | 254,463,757              |
| <b>5</b>                           | <b>Cymorth Technegol</b>                                 | <b>24,070,209</b>       | <b>8,186,839</b>                 | <b>32,257,048</b>        |
| <b>Cyfanswm Rhaglen</b>            |                                                          | <b>1,206,110,065</b>    | <b>623,749,933</b>               | <b>1,829,859,998</b>     |

## Atodiad A2: diwygiadau arfaethedig i dablau ariannol Rhaglen Weithredol ERDF Dwyrain Cymru

**Tabl 3a Dwyrain Cymru Blaenoriaeth 1 (Grant ERDF / Cyfraniad yr UE yn unig)**

| <b>Amcan Thematig</b>                                           | <b>ERDF cyfredol<br/>(€)</b> | <b>ERDF<br/>arfaethedig (€)</b> | <b>Newid yn y<br/>dyraniadau</b> |
|-----------------------------------------------------------------|------------------------------|---------------------------------|----------------------------------|
| (1) Atgyfnerthu gwaith ymchwil, datblygu technolegol ac arloesi | 89,101,566                   | 100,801,566                     | 11,700,000                       |

**Tabl 3b Dwyrain Cymru Blaenoriaeth 2 (Grant ERDF / Cyfraniad yr UE yn unig)**

| <b>Amcan Thematig</b>                                           | <b>ERDF cyfredol<br/>(€)</b> | <b>ERDF<br/>arfaethedig (€)</b> | <b>Newid yn y<br/>dyraniadau</b> |
|-----------------------------------------------------------------|------------------------------|---------------------------------|----------------------------------|
| (3) Gwellu cystadleurwydd BBaChau                               | 36,612,232                   | 33,612,232                      | -3,000,000                       |
| (1) Atgyfnerthu gwaith ymchwil, datblygu technolegol ac arloesi | 3,258,239                    | 12,108,239                      | 8,850,000                        |
| <b>Cyfanswm</b>                                                 | <b>39,870,471</b>            | <b>45,720,471</b>               | <b>5,850,000</b>                 |

**Tabl 3c Dwyrain Cymru Blaenoriaeth 3 (Grant ERDF / Cyfraniad yr UE yn unig)**

| <b>Amcan Thematig</b>                                    | <b>ERDF<br/>arfaethedig<br/>(€)</b> | <b>ERDF<br/>cyfredol (€)</b> | <b>Newid yn y<br/>dyraniadau</b> |
|----------------------------------------------------------|-------------------------------------|------------------------------|----------------------------------|
| (4) Cefnogi'r newid i economi carbon isel ym mhob sector | 4,850,391                           | 22,400,391                   | -17,550,000                      |

Tabl 4 Tabl ariannol diwygiedig

| Echel<br>Blaenoriaeth | Amcan Thematig                                                  | Cymorth yr<br>Undeb<br><br>€ | Gwrthran<br>genedlaethol<br><br>€ | Cyfanswm yr<br>arian)<br><br>€ |
|-----------------------|-----------------------------------------------------------------|------------------------------|-----------------------------------|--------------------------------|
| <b>1</b>              |                                                                 | <b>100,801,566</b>           | <b>100,801,566</b>                | <b>201,603,132</b>             |
|                       | (1) Atgyfnerthu gwaith ymchwil, datblygu technolegol ac arloesi | 100,801,566                  | 100,801,566                       | 201,603,132                    |
| <b>2</b>              |                                                                 | <b>45,720,471</b>            | <b>45,720,471</b>                 | <b>91,440,942</b>              |
|                       | (3) Gwellu cystadleurwydd BBaChau                               | 33,612,232                   | 33,612,232                        | 67,224,464                     |
|                       | (1) Atgyfnerthu gwaith ymchwil, datblygu technolegol ac arloesi | 12,108,239                   | 12,108,239                        | 24,216,478                     |
| <b>3</b>              |                                                                 | <b>4,850,391</b>             | <b>4,850,391</b>                  | <b>9,700,782</b>               |
|                       | (4) Cefnogi'r newid i economi carbon isel ym mhob sector        | 4,850,391                    | 4,850,391                         | 9,700,782                      |
| <b>4</b>              |                                                                 | <b>47,873,581</b>            | <b>47,873,581</b>                 | <b>95,747,162</b>              |
|                       | (4) Cefnogi'r newid i economi carbon isel ym mhob sector        | 36,098,865                   | 36,098,865                        | 72,197,730                     |
|                       | (2) Gwellu mynediad i TGCh ynghyd â'i defnydd                   | 11,774,716                   | 11,774,716                        | 23,549,432                     |
| <b>5</b>              | <b>Cymorth Technegol</b>                                        | <b>4,066,245</b>             | <b>4,066,245</b>                  | <b>8,132,490</b>               |

## Atodiad B: Rhesymeg a methodoleg dros newidiadau i ddangosyddion a thargedau

### Blaenoriaeth 1: Ymchwil ac Arloesedd

19. Ar ôl i'r Rhaglenni Gweithredol gael eu cymeradwyo, cynhaliwyd gwerthusiadau terfynol o brosiectau ymchwil ac arloesedd Rhaglen 2007-13<sup>3</sup> a argymhellodd y dylai prosiectau ganolbwyntio ar weithgareddau cydweithredol er mwyn cyflawni'r allbynnau arloesedd bwriadedig fel cynhyrchion, prosesau a systemau newydd (neu rai newydd i'r cwmni), a bod y pwyslais ar weithgareddau cymorth uniongyrchol yn amharu ar hyn. At hynny, mae cydweithrediadau a gweithgareddau cydweithredol yn cymryd amser i ddatblygu, a'r effaith yw bod canlyniadau o ran arloesedd a datblygiad economaidd (trosiant a swyddi) hefyd yn annhebygol o gael eu cyflawni yn y byrdymor. Yn dilyn canllawiau gan y Comisiwn Ewropeaidd ar ddehongli'r dangosyddion craidd, cyflwynwyd dangosydd newydd "Nifer y partneriaid sy'n cydweithio mewn prosiectau ymchwil" i gipio maint y cydweithrediadau a bydd y dangosydd presennol yn cael ei adrodd fel is-set. Ni fydd hyn yn ychwanegu unrhyw faich gweinyddol ar gyfer buddiolwyr, mae'n syml yn newid y ffordd y mae WEFO yn adrodd ar ddata a gasglwyd eisoes.
20. Mae targed Dwyrain Cymru ar gyfer y dangosydd cydweithredu wedi gostwng o ganlyniad i wallau rhagamcanu yn y data a ddefnyddiwyd i bennu'r targed a'r ffaith bod newid o arian cyfatebol cyhoeddus i breifat yn arwain at weithrediadau llai ar gyfraddau ymyrryd uwch. Wrth bennu'r targed hwn, dim ond data rhagamcanu (amcangyfrifon gan weithrediadau o'u perfformiad) yr oedd modd i ni eu defnyddio. Roedd y rhagamcanion hyn gan weithrediadau 2007-2013 yn llawer rhy optimistaidd, gan danseilio eu dibynadwyedd o ran pennu targedau. Yn ogystal, mae gweithrediadau llai yn cael eu cefnogi o gymharu â 2007-2013, gan fod llai o arian cyfatebol sector cyhoeddus ar gael yn sgil y caledi parhaus a'r newid i fodel ariannu preifat. Mae gwiriad synnwyr yn cadarnhau hyn: mae targed gwreiddiol Dwyrain Cymru yn cyfateb i 59% o darged Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, er mai dim ond 30% o'r dyraniad ariannol ar gyfer yr Amcan Penodol hwn sydd gan Ddwyrain Cymru. Bydd ffigurau diwygiedig yn defnyddio rhagamcanion mwy realistig, sy'n seiliedig ar ddata terfynol 2007-2013 a'r newid yn y pwyslais o ran cyflawni.
21. Yn ogystal â'r newid ffocws a argymhellir gan y dystiolaeth o'r gwaith gwerthuso hwn, nid oedd y targedau gwreiddiol wedi ystyried yn llawn effaith y dulliau targedu newydd a fabwysiadwyd (o gymharu â'r gweithrediadau a ddefnyddiwyd fel sail i bennu targedau'r rhaglenni) ar nifer y busnesau. Mae hyn yn cynnwys gofynion i gefnogi cwmnïau sy'n ymgymryd ag arbenigo craff yn unig a

<sup>2</sup>ASTUTE, BEACON2, SEREN, SEACAMS

chanolbwyntio ar gyfraniad at y dangosyddion canlyniadau (yn yr achos hwn, targedu busnesau â 10+ o gyflogeion neu sydd â'r potensial i dyfu i'r maint hwnnw). Effaith gronol hyn fu cymorth mwy dwys, ond i lai o fusnesau.

22. Roedd y targedau gwreiddiol yn seiliedig ar dybiaethau y byddai perfformiad gweithrediadau 2007-2013 yn parhau'n debyg yn 2014-2020. Mae'r dull targedu, fodd bynnag, wedi golygu bod gweithrediadau 2014-2020 yn targedu llai o ficrofusnesau mewn llai o sectorau. Felly, cynigir gostyngiadau yn y dangosyddion sy'n mesur nifer y mentrau sy'n cael cymorth, sydd ond yn cyfrif busnesau, er mwyn canolbwyntio ar ddangosyddion sy'n cynrychioli canlyniadau.
23. Mae'r targedau diwygiedig yn y tabl isod yn adlewyrchu'r tybiaethau newydd hyn, ac yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf o ragamcanion a gymerwyd o gynlluniau busnes a aseswyd ac amcangyfrifon o'r cais diweddar am syniadau newydd.
24. Nid yw'r newidiadau a gynigir yn y flaenoriaeth hon yn effeithio ar y dangosyddion canlyniadau - bydd y rhain, yn ogystal â'r targedau cysylltiedig, yn aros yr un peth.

**Tabl 5: Blaenoriaeth 1: Ymchwil ac Arloesedd: targedau diwygiedig**

| Amcan Penodol            | Allbynnau                                                                                             | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd |                   | Dwyrain Cymru |                   |
|--------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------|-------------------|---------------|-------------------|
|                          |                                                                                                       | Targed                      | Targed diwygiedig | Targed        | Targed diwygiedig |
| AP1.1 - Adnoddau Ymchwil | Maint o gyllid ymchwil a sicrhawyd                                                                    | £165m                       | £165m             | £65m          | £65m              |
|                          | Nifer y mentrau sy'n cydweithio â sefydliadau ymchwil a gynorthwyr                                    | <b>160</b>                  | <b>150</b>        | <b>90</b>     | <b>45</b>         |
|                          | Nifer y partneriaid sy'n cydweithio mewn prosiectau ymchwil                                           | -                           | <b>300</b>        | -             | <b>90</b>         |
|                          | Nifer y gwell cyfleusterau seilwaith ymchwil                                                          | 6                           | 6                 | 2             | 2                 |
|                          | Nifer yr ymchwilwyr newydd mewn endidau a gynorthwyr                                                  | 470                         | 470               | 290           | 290               |
|                          | Nifer yr ymchwilwyr yn gweithio mewn gwell cyfleusterau seilwaith ymchwil                             | 200                         | 200               | 110           | 110               |
| AP1.2 - Masnacheiddio    | Nifer y mentrau a gynorthwyr i gyflwyno cynnyrch sy'n newydd i'r farchnad                             | 490                         | 490               | 300           | 300               |
|                          | Nifer y mentrau a gynorthwyr i gyflwyno cynnyrch sy'n newydd i'r cwmni                                | 725                         | 725               | 440           | <b>250</b>        |
|                          | Nifer y mentrau sy'n cydweithio â sefydliadau ymchwil a gynorthwyr                                    | 1,212                       | <b>750</b>        | 715           | <b>225</b>        |
|                          | Nifer y partneriaid sy'n cydweithio mewn prosiectau ymchwil                                           | -                           | <b>1,500</b>      | -             | <b>450</b>        |
|                          | Nifer y mentrau sy'n cael grantiau                                                                    | 520                         | <b>350</b>        | 320           | 320               |
|                          | Nifer y mentrau sy'n cael cymorth anariannol                                                          | 3,750                       | <b>2,000</b>      | 2,245         | <b>650</b>        |
|                          | Nifer y mentrau newydd a gynorthwyr                                                                   | 30                          | 30                | 20            | 20                |
|                          | Buddsoddiad preifat sy'n cyfateb i gymorth cyhoeddus mewn prosiectau arloesedd neu ymchwil a datblygu | €42.8m                      | €42.8m            | €26.2m        | €26.2m            |
|                          | Cynydd cyflogaeth yn y mentrau a gefnogir                                                             | 1,125                       | 1,125             | 670           | 670               |
|                          | Nifer y patentau sydd wedi eu cofrestru ar gyfer cynnyrch                                             | 519                         | 519               | 315           | 315               |
|                          | Nifer y prosiectau peilot a gwblhawyd                                                                 | n/a                         |                   | n/a           |                   |
|                          | Mentrau sy'n mabwysiadu:                                                                              |                             |                   |               |                   |
|                          | - neu'n gwella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro                            | 20%                         | 20%               | 20%           | 20%               |
|                          | - neu'n gwella strategaethau datblygu cynaliadwy a systemau monitro                                   | 20%                         | 20%               | 20%           | 20%               |

Ffynhonnell: SCEC, 31/10/2017

**Tabl 6 - Fframwaith Perfformiad (cyfredol)**

| Blaenoriaeth | Dangosydd                                    | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd             |                                   | Dwyrain Cymru                           |                                   |
|--------------|----------------------------------------------|-----------------------------------------|-----------------------------------|-----------------------------------------|-----------------------------------|
|              |                                              | Targed carreg filltir erbyn diwedd 2018 | Targed terfynol erbyn diwedd 2023 | Targed carreg filltir erbyn diwedd 2018 | Targed terfynol erbyn diwedd 2023 |
| 1            | Gwariant (€M)                                | 115                                     | 452                               | 46                                      | 178                               |
| 1            | Nifer y mentrau sy'n cael cymorth anariannol | 1,163                                   | 3,750                             | 629                                     | 2,245                             |

Ffynhonnell: SCEC, 31/10/2017

25. Y dangosydd allbwn ar gyfer Blaenoriaeth 1 yn y fframwaith perfformiad yw 'nifer y mentrau sy'n cael cymorth anariannol'. Cytunwyd mai'r cerrig milltir ar gyfer 2023 oedd 3,750 yn achos Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, a disgwyliwyd y byddai 31% o'r allbynnau hynny wedi'u cyflawni erbyn 2018. Y ffigurau cyfatebol ar gyfer Dwyrain Cymru yw 2,245 a 28%.

26. O ganlyniad i'r newid mewn gweithgarwch (canolbwyntio ar gydweithrediadau o ansawdd yn hytrach na nifer y busnesau a gefnogir), nid yw'r fframwaith perfformiad yn adlewyrchu prif weithgarwch y Flaenoriaeth a dylid ei ddisodli â 'Nifer y mentrau sy'n cydweithio â sefydliadau ymchwil a gefnogir' y mae 15 allan o'r 17 o weithrediadau yn y Flaenoriaeth yn adrodd arno.

**Tabl 7 - Fframwaith perfformiad (diwygiedig)**

| Blaenoriaeth | Dangosydd                                                   | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd             |                                   | Dwyrain Cymru                           |                                   |
|--------------|-------------------------------------------------------------|-----------------------------------------|-----------------------------------|-----------------------------------------|-----------------------------------|
|              |                                                             | Targed carreg filltir erbyn diwedd 2018 | Targed terfynol erbyn diwedd 2023 | Targed carreg filltir erbyn diwedd 2018 | Targed terfynol erbyn diwedd 2023 |
| 1            | Gwariant (€M)                                               | 119                                     | 455                               | 41                                      | 202                               |
| 1            | Nifer y partneriaid sy'n cydweithio mewn prosiectau ymchwil | 345                                     | 1,800                             | 32                                      | 540                               |

**Blaenoriaeth 2: Cystadleurwydd BBaChau**

27. Roedd y fethodoleg a ddefnyddiwyd i bennu'r targedau allbwn gwreiddiol yn seiliedig ar weithrediadau 2007-2013 oedd â chanlyniadau llai penodol nad oeddent wedi'u targedu i'r un graddau. Felly, roedd y gweithrediadau hynny'n cefnogi ystod eang iawn o fusnesau â chymorth cymharol gyffredinol.
28. Mae'r dull newydd ar gyfer 2014-2020 wedi arwain at gymorth wedi'i dargedu llawer mwy i fusnesau twf (e.e. y rhai sy'n ceisio tyfu i 10+ o gyflogeion) sy'n golygu bod llai o fusnesau yn cael cymorth. Yn yr un modd, drwy deilwra cymorth i'r busnesau hynny drwy grŵp llai o brosiectau cymorth busnes, mae llai o fusnesau yn cael cymorth am gost uwch; ond y nod yw sicrhau canlyniadau cyffredinol gwell. Nid oedd dealltwriaeth lawn o oblygiadau llawn y newidiadau hyn pan bennwyd y targedau ar gyfer 2014-2020; adlewyrchir hyn nawr gan gynigion i leihau nifer y mentrau sy'n cael cymorth anariannol.
29. O ran y math o gymorth ariannol a ddarperir, mae'n galonogol gweld bod y ffocws o ran cyflawni wedi parhau i newid o grantiau i gyllid ad-daladwy, a hynny'n gyflymach na'r disgwyl ar y cam cymeradwyo rhaglen (cefnogir hyn gan ymchwil a wnaed gan WEFO "Grants for SMEs in Wales"). Felly, cynigir y dylid gostwng y targed ar gyfer mentrau sy'n cael grantiau. Yn ogystal, mae'r model cyflwyno diwygiedig o'r Offeryn Ariannol (wedi'i lywio gan asesiad ex-ante a gwblhawyd ar ôl cymeradwyo'r rhaglen) wedi arwain at: y cyllid benthyciad EIB heb gael eu cymryd i fyny fel y disgwyliwyd (gan leihau'r targed buddsoddi preifat); a lefelau uwch o gyd-gyllid y sector preifat (cynyddu buddsoddiad mewn mentrau), yn enwedig yn Nwyrain Cymru. Mae'r targedau wedi'u haddasu yn unol â hynny.
30. Yn olaf, dylid dileu'r dangosydd o ran unigolion a gefnogir yn sgil y newid i ddulliau cyflawni ar-lein. Cafodd y dangosyddion eu cynnwys yn wreiddiol er mwyn casglu rhagor o wybodaeth am fusnesau newydd a grëir a'r cyngor cysylltiedig a gynigir. Gellir casglu gwybodaeth am y gweithgarwch hwn yn well gan ddefnyddio'r dangosydd presennol ar gyfer mentrau newydd a gefnogir, gan osgoi dyblygu a'r risg o gyfrif ddwywaith. Bydd y gweithrediad hefyd yn casglu gwybodaeth ychwanegol a fydd yn ddefnyddiol wrth werthuso (ond na chaiff ei chyflwyno i WEFO).
31. Mae'r targedau diwygiedig yn y tabl isod yn adlewyrchu'r newidiadau hyn a'r wybodaeth ddiweddaraf am effaith y tybiaethau newydd hynny; gan gynnwys rhagamcanion a gymerwyd o gynlluniau busnes a aseswyd a'r data diweddaraf ar berfformiad.

Tabl 8: Blaenoriaeth 2: Cystadleurwydd BBaCh: targedau diwygiedig

| Amcan Penodol                           | Allbynnau                                                                   | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd |                   | Dwyrain Cymru |                   |
|-----------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------|-----------------------------|-------------------|---------------|-------------------|
|                                         |                                                                             | Targed                      | Targed diwygiedig | Targed        | Targed diwygiedig |
| AP2.1 - Mynediad i Gyllid               | Buddsoddi mewn mentrau                                                      | £91.6m                      | <b>£149.6m</b>    | £25.9m        | <b>£33.7m</b>     |
|                                         | Nifer y mentrau sy'n cael grantiau                                          | 160                         | -                 | 45            | -                 |
|                                         | Nifer y mentrau sy'n cael cymorth ariannol ac eithrio grantiau              | 235                         | 235               | 65            | 65                |
|                                         | Buddsoddiad preifat sy'n cyfateb cymorth cyhoeddus i fusnesau bach a chanol | €132.0m                     | <b>€74.8m</b>     | €37.3m        | <b>€18.7m</b>     |
|                                         | Cynydd cyflogaeth yn y mentrau a gefnogir                                   | 2,300                       | 2,300             | 650           | 650               |
|                                         | Mentrau sy'n mabwysiadu:                                                    |                             |                   |               |                   |
|                                         | - neu'n gwella strategaethau datblygu cynaliadwy a systemau monitro         | 50%                         | 50%               | 50%           | 50%               |
|                                         | - neu'n gwella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro  | 50%                         | 50%               | 50%           | 50%               |
| AP2.2 - Busnesau newydd                 | Nifer y mentrau newydd a gynorthwyir                                        | 5,150                       | 5,150             | 2,200         | 2,200             |
|                                         | Nifer y mentrau sy'n cael cymorth anariannol                                | 275                         | 275               | 120           | 120               |
|                                         | Unigolion sy'n cael cymorth                                                 | 14,350                      | -                 | 6,200         | -                 |
|                                         | Unigolion sy'n cael cymorth - Benywaidd                                     | 7,300                       | -                 | 3,100         | -                 |
|                                         | Unigolion sy'n cael cymorth - Pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig             | 375                         | -                 | 445           | -                 |
|                                         | Unigolion sy'n cael cymorth - Pobl anabl                                    | 3,650                       | -                 | 1,350         | -                 |
|                                         | Cynydd cyflogaeth yn y mentrau a gefnogir                                   | 8,800                       | 8,800             | 3,800         | 3,800             |
|                                         | Mentrau sy'n mabwysiadu:                                                    |                             |                   |               |                   |
|                                         | - neu'n gwella strategaethau datblygu cynaliadwy a systemau monitro         | 50%                         | 50%               | 50%           | 50%               |
|                                         | - neu'n gwella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro  | 50%                         | 50%               | 50%           | 50%               |
| AP2.3 - Defnyddio TGCh a manteisio arni | Nifer y mentrau a gynorthwyir i gyflwyno cynnyrch sy'n newydd i'r cwmni     | 1,480                       | 1,480             | 400           | 400               |
|                                         | Nifer y mentrau sy'n cael cymorth anariannol                                | 3,450                       | 3,450             | 900           | 900               |

| Amcan Penodol               | Allbynnau                                                                                             | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd |                   | Dwyrain Cymru |                   |
|-----------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------|-------------------|---------------|-------------------|
|                             |                                                                                                       | Targed                      | Targed diwygiedig | Targed        | Targed diwygiedig |
| AP2.4 - Twf Cyflogaeth      | Cynydd cyflogaeth yn y mentrau a gefnogir                                                             | 6,450                       | 6,450             | 2,550         | 2,550             |
|                             | Nifer y mentrau sy'n cael grantiau                                                                    | 40                          | 40                | 10            | 10                |
|                             | Nifer y mentrau sy'n cael cymorth ariannol ac eithrio grantiau                                        | 330                         | 330               | 115           | 115               |
|                             | Nifer y mentrau sy'n cael cymorth anariannol                                                          | 13,650                      | <b>8,000</b>      | 5,400         | 5,400             |
|                             | Buddsoddiad preifat sy'n cyfateb i gymorth cyhoeddus i fusnesau bach a chanolig - Grantiau            | €4.3m                       | €4.3m             | €2.2m         | €2.2m             |
|                             | Buddsoddiad preifat sy'n cyfateb cymorth cyhoeddus i fusnesau bach a chanol                           | €6.6m                       | -                 | €3.4m         | -                 |
|                             | Cynnydd yn lefel allforio                                                                             | £167.1m                     | £167.1m           | £65.9m        | £65.9m            |
|                             | Mentrau sy'n mabwysiadu:                                                                              |                             |                   |               |                   |
|                             | - neu'n gwella strategaethau datblygu cynaliadwy a systemau monitro                                   | 50%                         | 50%               | 50%           | 50%               |
|                             | - neu'n gwella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro                            | 50%                         | 50%               | 50%           | 50%               |
| AP2.5 - Cyllid Cyfalaf Risg | Buddsoddi mewn mentrau                                                                                | £26.5m                      | <b>£41.4m</b>     | £7.2m         | <b>£12.7m</b>     |
|                             | Nifer y mentrau sy'n cael cymorth ariannol ac eithrio grantiau                                        | 90                          | 90                | 25            | 25                |
|                             | Buddsoddiad preifat sy'n cyfateb cymorth cyhoeddus i fusnesau bach a chanolig - Nad ydynt yn grantiau | €23.8m                      | <b>€20.7m</b>     | €14.1m        | <b>€7.2m</b>      |
|                             | Cynydd cyflogaeth yn y mentrau a gefnogir                                                             | 490                         | 490               | 145           | 145               |
|                             | Nifer y mentrau a gynorthwyir i gyflwyno cynnyrch sy'n newydd i'r cwmni                               | 20                          | 20                | 5             | 5                 |
|                             | Mentrau sy'n mabwysiadu:                                                                              |                             |                   |               |                   |
|                             | - neu'n gwella strategaethau datblygu cynaliadwy a systemau monitro                                   | 50%                         | 50%               | 50%           | 50%               |
|                             | - neu'n gwella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro                            | 50%                         | 50%               | 50%           | 50%               |

Ffynhonnell: SCEC, 31/10/2017

**Tabl 9 - Fframwaith Perfformiad (cyfredol)**

| Blaenoriaeth | Dangosydd                                    | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd             |                                   | Dwyrain Cymru                           |                                   |
|--------------|----------------------------------------------|-----------------------------------------|-----------------------------------|-----------------------------------------|-----------------------------------|
|              |                                              | Targed carreg filltir erbyn diwedd 2018 | Targed terfynol erbyn diwedd 2023 | Targed carreg filltir erbyn diwedd 2018 | Targed terfynol erbyn diwedd 2023 |
| 2            | Gwariant (€M)                                | 85                                      | 333                               | 20                                      | 80                                |
| 2            | Nifer y mentrau sy'n cael cymorth anariannol | 7,645                                   | 17,375                            | 1,798                                   | 6,420                             |

Ffynhonnell: SCEC, 31/10/2017

32. Mewn cyferbyniad ag amcangyfrifon cychwynnol, mae'r Offeryn Ariannol (Cronfa Fusnes Cymru) bellach yn cyfrif am fwy na 50% o ddyraniad y flaenoriaeth a chanlyniad y newid mewn gweithgarwch yw nad yw'r fframwaith perfformiad yn adlewyrchu prif weithgarwch y Flaenoriaeth. Felly, dylai dangosydd allbwn presennol y fframwaith perfformiad gael ei ddisodli gan 'Nifer y mentrau sy'n cael cymorth ariannol heblaw am grant' a ddefnyddir i fesur gweithgarwch yr Offeryn Ariannol. Bydd hyn yn sicrhau bod y fframwaith perfformiad yn parhau i gasglu gwybodaeth am o leiaf 50% o weithgarwch.

**Tabl 10 - Fframwaith perfformiad (diwygiedig)**

| Blaenoriaeth | Dangosydd                                                      | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd             |                                   | Dwyrain Cymru                           |                                   |
|--------------|----------------------------------------------------------------|-----------------------------------------|-----------------------------------|-----------------------------------------|-----------------------------------|
|              |                                                                | Targed carreg filltir erbyn diwedd 2018 | Targed terfynol erbyn diwedd 2023 | Targed carreg filltir erbyn diwedd 2018 | Targed terfynol erbyn diwedd 2023 |
| 2            | Gwariant (€M)                                                  | 213                                     | 333                               | 41                                      | 91                                |
| 2            | Nifer y mentrau sy'n cael cymorth ariannol ac eithrio grantiau | 119                                     | 325                               | 16                                      | 90                                |

Ffynhonnell: SCEC, 31/10/2017

**Blaenoriaeth 3: Ynni Adnewyddadwy ac Effeithlonrwydd Ynni**

33. Roedd gwallau yn y Rhaglen Weithredol derfynol a gymeradwywyd ar gyfer Dwyrain Cymru, yn deillio o'r ffaith bod allbynnau'n cael eu cyfuno ar lefel Blaenoriaeth, yn hytrach na lefel Amcan Penodol. Cafodd targedau cysylltiedig ar gyfer ynni morol eu cadw yn Rhaglen Dwyrain Cymru drwy wall, er nad oedd y Rhaglen Weithredol derfynol y cytunwyd arni yn cynnwys y gweithgarwch hwn (dim ond rhaglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd sy'n cynnwys y gweithgarwch hwn). Felly, dylai'r dangosyddion hyn (ar gapasiti ynni adnewyddadwy, cynlluniau paratoi safleoedd a phrototeipiau) gael eu dileu er mwyn cywiro'r gwall hwn.
34. Roedd y targedau gwreiddiol ar gyfer capasiti ynni wedi tanystyried yn sylweddol yr amser y mae'n ei gymryd i gynlluniau paratoi safleoedd ynni gael caniatâd i gynnal profion ar y môr. Caiff y targed penodol hwn (a luniwyd ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn unig) ei adlewyrchu yn y dangosydd canlyniad. Mae disgwyl o hyd i lefelau capasiti ynni gael eu cyflawni; fodd bynnag, mae hyn eisoes wedi'i gynnwys yn y dangosydd canlyniad (sydd hefyd yn cynnwys gweithgarwch dilynol ar ôl i weithrediad gael ei gwblhau). Cynigir y dylid dileu'r dangosydd allbwn hwn, oherwydd caiff ei adlewyrchu eisoes yn y dangosydd canlyniad a'r targed.
35. Roedd y dangosyddion ar gyfer nifer y mentrau sy'n cael cymorth a nifer y mentrau sy'n cyflwyno cynhyrchion newydd yn adlewyrchu tybiaeth gynllunio y byddai rhan sylweddol o'r Flaenoriaeth hon yn datblygu cadwyn gyflenwi ar gyfer effeithlonrwydd ynni yn y sector tai. Mae'r ffocws cynyddol ar dargedu a chanlyniadau'r Amcan Penodol hwn, ynghyd â buddsoddiadau is o lawer, yn awgrymu nad yw'r dangosyddion hyn yn berthnasol, gan nad ydynt yn cynrychioli'r gweithgarwch disgwyliedig i gyflawni'r canlyniadau.
36. Yn olaf, mae angen gostwng y dosbarth Nifer y cartrefi sy'n defnyddio ynni'n well a'r gostyngiad cyfatebol mewn nwyon tŷ gwydr. Seiliwyd y targed ar y dybiaeth y byddai un gweithrediad ym mhob rhaglen o faint a chwmpas tebyg i Raglenni 2007-2013. Mae'r ffocws ar y rhai sy'n wynebu tlodi tanwydd difrifol a'r gwersi a ddysgwyd o'r prosiect blaenorol wedi arwain at ddatblygu gweithrediadau llai: mae'r targedau wedi'u gostwng i adlewyrchu hyn. Mae cynnig cyfatebol i drosglwyddo ERDF allan o'r Flaenoriaeth hon.
37. Mae'r targedau diwygiedig yn y tabl isod yn seiliedig ar ragamcanion a gymerwyd o gynlluniau busnes a aseswyd a'r data diweddaraf ar berfformiad.

Tabl 11: Blaenoriaeth 3: Ynni Adnewyddadwy ac Effeithlonrwydd Ynni: targedau diwygiedig

| Amcan Penodol                                   | Allbynnau                                                               | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd |                   | Dwyrain Cymru |                   |
|-------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------|-----------------------------|-------------------|---------------|-------------------|
|                                                 |                                                                         | Targed                      | Targed diwygiedig | Targed        | Targed diwygiedig |
| AP3.1 - Ynni'r Môr                              | Capasiti ychwanegol o gynhyrchu ynni adnewyddadwy (MW)                  | 20                          | -                 | n/a           | n/a               |
|                                                 | Cynlluniau paratoi safle cynorthwyo ynni                                | 2                           | 2                 | n/a           | n/a               |
|                                                 | Nifer y prototeipiau ynni adnewyddadwy a brofwyd                        | 8                           | 8                 | n/a           | n/a               |
| AP3.2 - Ynni Cymunedol<br>(AP3.1 Dwyrain Cymru) | Cynlluniau ynni cymunedol                                               | 3                           | 3                 | 3             | 3                 |
|                                                 | Nifer y mentrau sy'n cael cymorth anariannol                            | 150                         | -                 | 70            | -                 |
|                                                 | Nifer y mentrau a gynorthwyir i gyflwyno cynnyrch sy'n newydd i'r cwmni | 75                          | -                 | 35            | -                 |
|                                                 | Nifer y prosiectau peilot a gwblhawyd                                   | 4                           | 4                 | 3             | 3                 |
|                                                 | Capasiti ychwanegol o gynhyrchu ynni adnewyddadwy (MW)                  | n/a                         | n/a               | 8             | -                 |
|                                                 | Cynlluniau paratoi safle cynorthwyo ynni                                | n/a                         | n/a               | 1             | -                 |
|                                                 | Nifer y prototeipiau ynni adnewyddadwy a brofwyd                        | n/a                         | n/a               | 3             | -                 |
| AP3.3 - Arbed Ynni                              | Nifer y cartrefi â dosbarthiad defnydd o ynni gwell                     | 5,500                       | <b>3,060</b>      | 4,200         | <b>765</b>        |
| (AP3.2 Dwyrain Cymru)                           | Amcangyfrif o'r gostyngiad mewn nwyon tŷ gwyrdd                         | 10                          | <b>5</b>          | 5             | <b>1</b>          |

Ffynhonnell: SCEC, 31/10/2017

**Tabl 12 - Fframwaith Perfformiad (cyfredol)**

| Blaenoriaeth | Dangosydd                                           | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd             |                                   | Dwyrain Cymru                           |                                   |
|--------------|-----------------------------------------------------|-----------------------------------------|-----------------------------------|-----------------------------------------|-----------------------------------|
|              |                                                     | Targed carreg filltir erbyn diwedd 2018 | Targed terfynol erbyn diwedd 2023 | Targed carreg filltir erbyn diwedd 2018 | Targed terfynol erbyn diwedd 2023 |
| 3            | Gwariant (€M)                                       | 63                                      | 246                               | 11                                      | 45                                |
| 3            | Cynlluniau paratoi safle cynorthwyo ynni            | 1                                       | 2                                 | n/a                                     | n/a                               |
| 3            | Nifer y prototeipiau ynni adnewyddadwy a brofwyd    | n/a                                     | 8                                 | n/a                                     | n/a                               |
| 3            | Nifer y cartrefi â dosbarthiad defnydd o ynni gwell | 2,750                                   | 5,500                             | 2,100                                   | 4,200                             |

Ffynhonnell: SCEC, 31/10/2017

38. Dylai'r dosbarth Nifer y cartrefi sy'n defnyddio ynni'n well ostwng i adlewyrchu'r tybiaethau cynllunio newydd a ddisgrifir uchod a dylid cynnwys cam gweithredu i adlewyrchu amseriad disgwyledig y gweithgarwch.

**Tabl 13 - Fframwaith perfformiad (diwygiedig)**

| Blaenoriaeth | Dangosydd                                                                                                 | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd             |                                   | Dwyrain Cymru                           |                                   |
|--------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------|-----------------------------------|-----------------------------------------|-----------------------------------|
|              |                                                                                                           | Targed carreg filltir erbyn diwedd 2018 | Targed terfynol erbyn diwedd 2023 | Targed carreg filltir erbyn diwedd 2018 | Targed terfynol erbyn diwedd 2023 |
| 3            | Gwariant (€M)                                                                                             | 26                                      | 246                               | 0.06                                    | 9.7                               |
| 3            | Cynlluniau paratoi safle cynorthwyo ynni                                                                  | 1                                       | 2                                 | n/a                                     | n/a                               |
| 3            | Nifer y prototeipiau ynni adnewyddadwy a brofwyd                                                          | 3                                       | 8                                 | n/a                                     | n/a                               |
| 3            | Nifer y cartrefi â dosbarthiad defnydd o ynni gwell                                                       | n/a                                     | 3,060                             | n/a                                     | 765                               |
| 3            | Caffaelwyd contractwyr i gyflawni'r targed terfynol o gartrefi gyda dosbarthiad gwell y eu defnydd o ynni | Yes                                     | n/a                               | Yes                                     | n/a                               |

Ffynhonnell: SCEC, 31/10/2017

**Blaenoriaeth 4: Cysylltedd a Datblygu Trefol**

39. Roedd hi'n anodd pennu targedau ar gyfer y Flaenoriaeth hon oherwydd natur amrywiol prosiectau seilwaith trafnidiaeth, er bod y canlyniadau'n benodol iawn (e.e. ar ardal ddaearyddol benodol). Felly, mae'n anodd iawn rhagweld y rhain; ac eithrio rhai cynlluniau ffyrdd. Mae'r ffocws ar fannau cyfyng TEN-T wedi arwain at lai o gyfleoedd i gefnogi llwybrau troed a llwybrau beicio fel rhan o'r cynlluniau ffyrdd hynny.
40. Ar adeg ysgrifennu'r Rhaglen, y gred oedd mai'r dangosyddion 'km teithwyr gros' a 'gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus sydd wedi'u creu neu eu gwella' oedd y rhai mwyaf perthnasol yn gyffredinol. Yn dilyn hyn, roedd y cynnig ar gyfer y Metro yn ymwneud yn gyfan gwbl â seilwaith heb unrhyw ddarpariaeth gwasanaeth fel rhan o'r gweithrediad a ariennir yn uniongyrchol. Mae hyn yn golygu nad yw'r allbynnau yn cysylltu'n uniongyrchol â'r gweithgarwch mwyach (caiff canlyniadau o ran gweithrediad gwasanaeth eu cynnwys o hyd yn y dangosydd canlyniad a'r gwaith gwerthuso cysylltiedig). Yn ogystal â hyn, datgelodd gwaith gwerthuso wallau technegol yn y data a gyflwynwyd i WEFO yn Rhaglen 2007-2013 a ddefnyddiwyd i bennu targedau km teithwyr gros. Arweiniodd hyn at sylfaen ansefydlog i gyfrifo'r targed presennol. Dylai'r dangosyddion hyn nad ydynt yn ddangosyddion CE gael eu dileu ond eu hystyried wrth werthuso cynlluniau rheilffyrdd.
41. Mae cynnig y Metro yn canolbwyntio ar uwchraddio llinellau rheilffordd (e.e. trydaneiddio) ac felly dylai'r targed ar gyfer llinellau rheilffordd newydd gael ei drosglwyddo i'r allbwn cyfanswm hyd llinellau rheilffordd sydd wedi'u hailadeiladu neu eu huwchraddio.
42. Gellir cynyddu'r targedau band eang am na chafodd y dybiaeth y byddai 96% o safleoedd wedi'u cwmpasu yn barod ei gwireddu, ac mae angen gweithgarwch ychwanegol o dan 2014-2020 i fynd i'r afael â'r diffygion hyn. Gwnaed hyn gan ddefnyddio dyraniadau presennol, ond mae wedi arwain at ehangu cwmpas band eang; yn enwedig yn rhanbarth Gorllewin Cymru a'r Cymoedd.
43. Yn yr un modd, roedd hi'n anodd amcangyfrif y targedau o ran safleoedd strategol a gwelwyd y cawsant eu tangyfrif. Cynigir y dylid cynyddu'r targedau yn unol â hynny.
44. Yn ogystal â dangosyddion allbwn, o fewn y Flaenoriaeth hon, mae angen gwneud diwygiadau i'r dangosydd canlyniad ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd sy'n ymwneud ag Amcan Penodol 4.2 (trafnidiaeth drefol gynaliadwy). Roedd y dangosydd canlyniad gwreiddiol yn cynnwys gwaith modelu o bob rhan o Gymru, gan olygu y gellid cefnogi darpar weithrediadau mewn rhannau gwahanol o Gymru. Mae dull mwy penodol bellach yn targedu rhanbarth

Cymoedd De Cymru, yn enwedig drwy'r Metro. Felly, ystyrir ei bod yn ddoeth cadw'r un dangosydd, ond cyfyngu cwmpas daearyddol y dangosydd hwnnw i ranbarth De Cymru. Bydd llinell sylfaen a tharged newydd yn ein galluogi i amcangyfrif effaith cymorth ERDF yn well, ac ni chaiff ei golli ynghanol y newidiadau ehangach i rwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus Cymru.

Tabl 14: Blaenoriaeth 4: Cysylltedd a Datblygu Trefol: targedau diwygiedig

| Amcan Penodol                                           | Allbynnau                                                                         | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd |                   | Dwyrain Cymru |                   |
|---------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------|-------------------|---------------|-------------------|
|                                                         |                                                                                   | Targed                      | Targed diwygiedig | Targed        | Targed diwygiedig |
| AP4.1 - Ffyrdd                                          | Cyfanswm hyd y ffyrdd a ailadeiladwyd neu a uwchraddiwyd (gan gynnwys TEN-T)      | 15                          | 15                | n/a           | n/a               |
|                                                         | Llwybr troed neu lwybr beicio wedi'i greu neu ei ailadeiladu                      | 10                          | 5                 | n/a           | n/a               |
O ystyried ymdrech y Comisiwn Ewropeaidd i ganolbwyntio ac integreiddio Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd, wrth ddatblygu'r Strategaeth hon aethom ati'n fras i gwmpasu pob un o Raglenni Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd 2014-2020 a reolir yn uniongyrchol yng Nghymru, h.y. Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF), Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) a'r Rhaglen Datblygu Gwledig. Ni chwmpesir Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop am fod hon yn cael ei rheoli ar lefel y DU ond rhoddir cymorth i'r timau perthnasol yn Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau y caiff swyddogaethau monitro a gwerthuso eu cyflawni.

Dylid nodi nad cyfrifoldeb y PMRh yw cymeradwyo cynllun gwerthuso'r Cynllun Datblygu Gwledig: mae'r CE yn gofyn am gynllun gwerthuso ar wahân ar gyfer y Cynllun Datblygu Gwledig i'w gymeradwyo gan y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol Amaethyddiaeth. Dylid hefyd nodi, er y bydd y Tîm Strategaeth yn chwarae'r rôl arweiniol yn y gwaith o fonitro a gwerthuso Rhaglen newydd Iwerddon-Cymru, mai cyfrifoldeb PMRh Iwerddon-Cymru yw cymeradwyo'r trefniadau monitro a gwerthuso cysylltiedig.

Ochr yn ochr â datblygu'r Strategaeth hon, mae Is-grŵp Mesur Llwyddiant y Pwyllgor Monitro Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd wedi bod yn ystyried dulliau ychwanegol o fesur llwyddiant y Rhaglenni. Er bod rhai o argymhellion adroddiad yr Is-grŵp y tu hwnt i gwmpas y Strategaeth hon, bydd y Tîm Strategaeth yn ystyried argymhellion yr Is-grŵp yn y broses barhaus o fonitro a gwerthuso'r Rhaglenni. Er enghraifft, bydd cronfa ddata ar lefel busnes yn nodwedd ganolog o system fonitro ERDF (gweler Adran 3.2.1), a bydd y mesurau a drafodwyd yn adroddiad yr Is-grŵp (e.e. y rhai sy'n gysylltiedig â Nodau Llesiant Cymru), lle y bo'n berthnasol, yn cael eu cynnwys mewn arolygon o unigolion a busnesau i'r rhaglen gyfan a gwerthusiad ar lefel prosiect (gweler Adran 4.2).

## 2. Diben Monitro a Gwerthuso

Prif ddiben **monitro** yw **asesu cynnydd prosiectau, cynlluniau a rhaglenni**. Mae hyn yn cynnwys cynnydd ariannol (megis ymrwymiad a gwariant) a chynnydd ffisegol (e.e. nifer y busnesau ac unigolion sydd wedi cael cymorth o dan y Rhaglenni). Diben arall monitro yw sicrhau atebolrwydd: gall adroddiad monitro wedi'i lunio'n dda roi arwydd da o'r ffordd y mae arian y rhaglen wedi cael ei wario hyd yma. Mae data monitro da hefyd yn hollbwysig at ddibenion gwerthuso.

Mae i **werthusiadau** sawl diben ond yn y pen draw gellir crynhoi'r rhain yn un gair: '**dysgu**'. Cynhelir gwerthusiadau i ddysgu rhywbeth am brosiect, cynllun neu raglen, hynny yw, i ateb cwestiynau (y cyfeirir atynt yn aml fel 'cwestiynau ymchwil') ynglŷn â phrosiect neu raglen.

Mae gwaith monitro a gwerthuso bob amser wedi bod yn hanfodol i reoli rhaglenni a phrosiectau'n effeithiol. Yn y cyfnod 2014-2020, mae'r swyddogaethau hyn yn bwysicach nag erioed oherwydd pwyslais y CE ar **raglennu sydd wedi'u hanelu at ganlyniadau**. Nid oes modd asesu a yw rhaglenni wedi cael y canlyniadau a ddymunir heb waith monitro a gwerthuso da.

Mae'r ddwy adran nesaf yn amlinellu ein dull arfaethedig o fonitro a gwerthuso.

## 3. Monitro

### 3.1 Yr hyn y byddwn yn ei fonitro

Y brif gynulleidfa ar gyfer gwybodaeth monitro a gwerthuso'r Rhaglenni fydd y PMRh. Bydd y Tîm Strategaeth yn cyflwyno **Adroddiadau Monitro'r Rhaglenni** manwl ym mhob cyfarfod o'r PMRh er mwyn helpu'r PMRh i adolygu cynnydd y Rhaglenni. Bydd yr adroddiadau hyn yn amlinellu cynnydd yn seiliedig ar ddata ar gyfer y dangosyddion, cyllid, cymeradwyo prosiectau a llif gwaith a chyfrif ansoddol o faterion sy'n codi wrth weithredu.

Bydd y Tîm Strategaeth hefyd yn cynnal **dadansoddiad rhanbarthol** ar gyfer y PMRh. Bydd y dadansoddiad hwn yn defnyddio system fonitro sylfaenol y Tîm Strategaeth, a fydd yn ei gwneud yn bosibl i waith dadansoddi manylach gael ei wneud na defnyddio dangosyddion yn unig. Rhagwelir mai'r setiau data allweddol ar gyfer y gwaith hwn fydd y cronfeydd data craidd a fydd yn dal data ar bob unigolyn a busnes sydd wedi cael cymorth o dan y Rhaglenni. Yn hollbwysig, mae'r cronfeydd data hyn yn cynnwys codau post i'n helpu i ddeall lle mae'r cymorth yn cael ei roi. Maent hefyd yn cynnwys manylion am **sectorau'r busnesau** sydd wedi cael cymorth fel y gallwn ystyried a yw'r Rhaglenni yn cyrraedd busnesau o fewn sectorau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u blaenoriaethu. Yn ogystal â setiau data'r Tîm Strategaeth ei hun, gall yr adroddiadau hyn hefyd ddefnyddio setiau data eraill i roi'r cyd-destun y mae'r Rhaglenni yn gweithredu ynddo (mae amrywiaeth o setiau data ar gael ar lefel isranbarthol, e.e. genedigaethau a marwolaethau busnesau; cyfradd cyflogaeth, gan gynnwys rhaniad galwedigaethol; lefelau cymwysterau; enillion cyfartalog; a nifer yr aelwydydd heb waith). **Diweddariad 2017: ni fu'n ddichonadwy gwneud hyn hyd yma yn seiliedig ar faint o ddata sydd wedi dod i law hyd yn hyn ond rydym yn bwriadu paratoi'r dadansoddiad hwn o hyd ar gyfer cyfarfodydd yn y**

dyfodol. Trafodwyd model posibl cynnar ar gyfer yr adroddiad hwn â'r Timau Ymgysylltu Rhanbarthol.

Y brif gynulleidfa arall ar gyfer gwybodaeth monitro a gwerthuso'r Rhaglenni fydd y **Comisiwn Ewropeaidd (CE)**. Y prif adnodd monitro ar gyfer y CE yw'r **Adroddiad Gweithredu Blynyddol**. Mae'r CE yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau gyflwyno Adroddiadau Gweithredu Blynyddol ar gyfer pob Rhaglen Weithredol. Mae'n rhaid i'r Adroddiad Gweithredu Blynyddol cyntaf gael ei gyflwyno yn 2016 a bydd yn cwmpasu 2014 a 2015 (erthygl 111(1) o reoliad Darpariaethau Cyffredin).

Bydd Adroddiadau Gweithredu Blynyddol yn cyfeirio at y ffordd y gweithredir y Rhaglenni yn seiliedig ar y dangosyddion (gan gynnwys dangosyddion canlyniadau) a data ariannol a byddant yn tynnu sylw at unrhyw faterion sy'n effeithio ar berfformiad y Rhaglenni (erthygl 50(2) o reoliad Darpariaethau Cyffredin). At hynny, bydd yr Adroddiadau Gweithredu Blynyddol yn cynnwys synthesis o ganfyddiadau'r holl werthusiadau o'r rhaglen a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol (erthygl 50(2) o reoliad Darpariaethau Cyffredin). Gan ddechrau gyda'r adroddiadau a gyflwynir yn 2017, bydd yr Adroddiadau Gweithredu Blynyddol hefyd yn cynnwys gwybodaeth am gynnydd yn erbyn y cerrig milltir a nodir yn y fframwaith perfformio (erthygl 50(2) o reoliad CPR). Bydd yr Adroddiadau Gweithredu Blynyddol sydd i'w cyflwyno yn 2017 hefyd yn asesu cynnydd tuag at gyflawni amcanion y Rhaglenni, gan gynnwys cyfraniad y Rhaglenni tuag at y newid yn y dangosyddion canlyniadau, pan fydd tystiolaeth o werthusiadau ar gael, ac asesu'r ffordd y cymerwyd camau gweithredu er mwyn ystyried yr egwyddorion a nodir yn Erthygl 7 ac Erthygl 8, rôl y partneriaid y cyfeirir atynt yn Erthygl 5 i weithredu'r Rhaglenni a chyflwyno adroddiadau ar gymorth a ddefnyddir ar gyfer targedau newid yn yr hinsawdd (erthygl 50(4) o reoliad Darpariaethau Cyffredin). **Diweddariad 2017: cyflwynwyd Adroddiad Gweithredu Blynyddol 2017 i'r CE.** Bydd yr Adroddiadau Gweithredu Blynyddol i'w cyflwyno yn 2019 a'r Adroddiadau Gweithredu Terfynol yn cynnwys yr uchod ynghyd ag asesiad o gynnydd tuag at gyflawni amcanion y Rhaglenni a'u cyfraniad at Strategaeth EU2020 (erthygl 50(5) o reoliad Darpariaethau Cyffredin).

Y terfyn amser ar gyfer cyflwyno Adroddiadau Gweithredu Blynyddol ar gyfer Cronfeydd Strwythurol (ar wahân i'r rhai a gyflwynwyd yn 2017 a 2019) yw 31 Mai (erthygl 111(1) o reoliad Darpariaethau Cyffredin). Y terfyn amser ar gyfer cyflwyno Adroddiadau Gweithredu Blynyddol ar gyfer Cronfeydd Strwythurol sydd i'w cyflwyno yn 2017 a 2019 ar gyfer Adroddiadau Gweithredu Blynyddol y Cynllun Datblygu Gwledig yw 30 Mehefin (erthygl 111(2) o reoliad Darpariaethau Cyffredin). Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno Adroddiadau Gweithredu Terfynol yw 31 Mai 2023 (erthygl 111(1) o reoliad Darpariaethau Cyffredin).

Yn ogystal â'r adroddiadau ar gyfer y PMRh a'r Adroddiadau Gweithredu Blynyddol a gaiff eu cyhoeddi ar **wefan WEFO**, bydd y Tîm Strategaeth yn paratoi **gwybodaeth fonitro gryno** yn rheolaidd, i'w chyhoeddi ar dudalennau gwe WEFO a'r Cynllun Datblygu Gwledig. Bydd y Tîm Strategaeth hefyd yn cyhoeddi **data dangosyddion a ragwelwyd ac a gyflawnwyd ar gyfer pob prosiect cymeradwy**. **Diweddariad 2017: mae'r cam gweithredu hwn yn dibynnu ar ddatblygu cronfa ddata'r prosiect sy'n dal i gael ei datblygu.** Gobeithio y byddwn yn gallu cyhoeddi'r wybodaeth hon yn 2018.

Bydd y Tîm Strategaeth hefyd yn paratoi adroddiadau monitro manwl i'w defnyddio o fewn yr Awdurdodau Rheoli **gan grwpiau sydd wedi'u sefydlu i adolygu'r ffordd y gweithredir y Rhaglenni'n fanwl.**

Fel rhan o'i swyddogaeth adrodd bydd y Tîm Strategaeth yn paratoi'r data monitro sydd eu hangen i gyflwyno adroddiad yn erbyn y **fframwaith perfformiad**. Bydd y wybodaeth hon hefyd yn helpu i sicrhau cysondeb â'r adroddiadau sydd eu hangen ar lefel y DU. Mae'r Cytundeb Partneriaeth yn nodi sut y bydd yr Awdurdodau Rheoli yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn sicrhau cysondeb data a bydd y Tîm Strategaeth yn cymryd rhan weithredol yn y gwaith hwn.

Gan fod yr Awdurdodau Rheoli yn rhan o Lywodraeth Cymru, bydd y Tîm Strategaeth yn sicrhau y cydymffurfir â **holl ofynion adrodd Llywodraeth Cymru.**

### 3.2 Sut y byddwn yn monitro

#### 3.2.1 Casglu data

Caiff yr holl ddata ar gyfer Cronfeydd Strwythurol eu casglu drwy WEFO ar lein a'u storio yn **System Rheoli Gwybodaeth am Raglenni a Phrosiectau** WEFO. O ran y Cynllun Datblygu Gwledig, caiff data eu dal mewn sawl system TG wahanol oherwydd y mathau amrywiol o gymorth a gynigir drwy'r Rhaglen. Caiff pob ymyriad a Chynllun ar sail tir ei reoli drwy system CAPIT gyda'r rhan fwyaf o weithrediadau a chynlluniau economaidd-gymdeithasol yn cael eu cofnodi drwy PPIMS. Caiff data ar daliadau eu rheoli drwy SAP.

Bydd yn ofynnol i bob prosiect a chynllun gasglu data yn erbyn ei **ddangosyddion** (gweler 3.2.2) ac **ar gyfer pob unigolyn a busnes** y mae wedi rhoi cymorth iddo. Nodir y gofynion hyn o ran data yn y canllawiau monitro a gwerthuso ar gyfer prosiectau. Yn ogystal â hyn, bydd prosiectau a chynlluniau yn datblygu **cynllun monitro** sy'n nodi'r data y byddant yn eu casglu a sut y cânt eu casglu a'u storio. Bydd y cynllun hefyd yn cynnwys unrhyw ffurflenni casglu a datganiadau cydsynio er mwyn sicrhau bod gofynion diogelu data (sef Deddf Diogelu Data 1998 ar hyn o bryd ond o fis Mai 2018 y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol) yn cael eu bodloni, er enghraifft, mae'n rhaid i brosiectau a chynlluniau esbonio'n glir i'r unigolion a'r busnesau y maent yn rhoi cymorth iddynt y caiff eu data eu rhannu â WEFO a chontractwyr ymchwil a benodir gan WEFO a'r prosiectau at ddibenion ymchwil a gwerthuso a gwiriadau dilysu.

Mae'r setiau data hyn yn hollbwysig oherwydd maent yn cynnig ffrâm samplu ar gyfer gwerthusiadau a gallant gael eu defnyddio i gysylltu â setiau data eraill er mwyn cael rhagor o wybodaeth am ganlyniadau'r Rhaglenni. Amlinellir cynnwys y setiau data hyn mewn canllawiau monitro ar gyfer prosiectau.

Bydd y Tîm Strategaeth yn gweithio gyda noddwyr prosiectau a rheolwyr cynlluniau er mwyn sicrhau **ansawdd y data monitro**. Bydd hyn yn cynnwys **rhoi canllawiau monitro manwl**, gan gynnwys diffiniadau o ddangosyddion. Bydd y Tîm Strategaeth hefyd yn mynychu cyfarfodydd adolygu prosiect i drafod unrhyw ymholiadau sydd gan noddwyr prosiectau / rheolwyr cynlluniau ynglŷn â'r gofynion monitro. At hynny, bydd y timau archwilio yn gwirio'r dystiolaeth sy'n cefnogi'r dangosyddion. At hynny, wrth baratoi adroddiadau monitro, bydd y Tîm Strategaeth yn gwirio'r data am unrhyw anghysonderau, e.e. unrhyw ostyngiadau rhwng cyfnodau adrodd.

Yn ogystal â'r data y mae'n ofynnol i brosiectau a chynlluniau eu cyflwyno i'r Awdurdodau Rheoli, byddant hefyd yn cael eu hannog i gasglu **data ychwanegol a fydd yn helpu i reoli a gwerthuso prosiectau**, gan gynnwys digon o ddata llinell sylfaen digonol er mwyn ei gwneud yn bosibl i brosiectau a chynlluniau olrhain cynnydd yn gadarn ar gyfer eu buddiolwyr.

### 3.2.2 Dangosyddion

Nodir y dangosyddion monitro ar lefel Blaenoriaeth Buddsoddi yn y Rhaglenni Gweithredol ffurfiol ac ar lefel Amcan Penodol yn y fersiynau hawdd eu defnyddio o'r Rhaglenni. Mae'r dangosyddion yn seiliedig ar y dangosyddion Craidd / Cyffredin a nodir gan y CE a chafodd unrhyw ddangosyddion ar gyfer rhaglenni penodol eu datblygu gan y Tîm Strategaeth mewn ymgynghoriad ag aelodau eraill o staff yn yr Awdurdodau Rheoli a chyda rhanddeiliaid megis noddwyr prosiectau o Raglenni 2007-2013, yn ogystal â'r Ffrwd Waith Monitro a Gwerthuso.<sup>1</sup> Mae'r system o ddangosyddion wedi cael ei datblygu i adlewyrchu gweithgareddau ac amcanion allweddol y Blaenoriaethau Buddsoddi.

Mae'r CE yn gofyn am ffordd ychydig yn wahanol o weithredu'r system o ddangosyddion ar gyfer pob Cronfa.

O ran **ESF**, mae'r Gyfarwyddiaeth Gyffredinol - Cyflogaeth wedi nodi cyfres o **ddangosyddion 'cyffredin'** y mae'n ofynnol i bob Awdurdod Rheoli gyflwyno adroddiadau yn eu herbyn. Mae'r dangosyddion hyn wedi'u rhannu'n dri chategori o ddangosyddion: **allbynnau, canlyniadau uniongyrchol a chanlyniadau tymor hwy**. Ystyrir mai allbwn yw'r hyn a gynhyrchir / a gyflenwir yn uniongyrchol drwy gyflawni prosiect. Mae dangosyddion canlyniadau yn cofnodi effeithiau disgwylidiedig prosiectau. Cofnodir canlyniadau uniongyrchol pan fydd cyfranogwr yn gadael prosiect. Cofnodir canlyniadau tymor hwy chwe mis ar ôl i'r cymorth i'r cyfranogwr ddod i ben. Caiff data ar gyfer dangosyddion canlyniadau uniongyrchol eu casglu drwy'r system fonitro ond caiff data ar gyfer dangosyddion canlyniadau tymor hwy eu casglu drwy sampl gynrychioliadol drwy'r Arolwg o Gymdeithasol ESF (gweler Adran 4 ac Atodiad A).

O ran **ERDF**, mae'r Gyfarwyddiaeth Gyffredinol - Polisi Rhanbarthol wedi nodi cyfres o **ddangosyddion allbynnau 'cyffredin'** y mae'n ofynnol i bob Awdurdod Rheoli gyflwyno adroddiadau yn eu herbyn. Mae'r Gyfarwyddiaeth Gyffredinol - Polisi Rhanbarthol wedi mabwysiadu dehongliad gwahanol o ddangosyddion canlyniadau i'r Gyfarwyddiaeth Gyffredinol - Cyflogaeth. Er bod dangosyddion canlyniadau ESF ar lefel yr uned sydd wedi cael cymorth, h.y. y cyfranogwr, mae dangosyddion canlyniadau ERDF yn ymwneud â'r sefyllfa yn ardal y rhaglen. Caiff data ar gyfer dangosyddion allbynnau eu casglu drwy'r system fonitro ond caiff data ar gyfer dangosyddion canlyniadau eu casglu drwy werthusiadau ar lefel prosiect a rhaglen (gweler Adran 4 ac Atodiad A).

O ran y **Cynllun Datblygu Gwledig**, mae'r Gyfarwyddiaeth Gyffredinol Amaethyddiaeth wedi darparu system fonitro ddiwygiedig a symlach sy'n seiliedig ar drefniadau monitro ac arweiniad presennol EAFRD (rhaglen 2007-2013). Bydd yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer monitro rhaglenni yn canolbwyntio ar nifer gyfyngedig o ddangosyddion allbynnau a chanlyniadau cyffredin sy'n cofnodi'n ystyrlon gynnydd ymyriadau tuag at amcanion

---

<sup>1</sup> Sefydlwyd y Ffrwd Waith Monitro a Gwerthuso i gefnogi'r broses o gynllunio'n fanwl y trefniadau Monitro a Gwerthuso ar gyfer Rhaglenni 2014-2020 yr UE a'u drafftio.

rhaglenni y cytunwyd arnynt ac y gellir eu cyfuno ar lefel yr UE. Mae'r **Fframwaith Monitro a Gwerthuso Cyffredin** diwygiedig yn:

- Dangos cynnydd a chyflawniadau polisi datblygu gwledig ac yn asesu effaith, effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a pherthnasedd ymyriadau
- Cyfrannu at gymorth sydd wedi'i dargedu'n well ar gyfer datblygu gwledig
- Cefnogi proses ddysgu gyffredin sy'n gysylltiedig â monitro a gwerthuso
- Darparu un system monitro a gwerthuso sy'n cwmpasu'r PAC yn ei gyfanrwydd (taliadau uniongyrchol Colofn I i ffermwyr a mesurau'r farchnad a mesurau datblygu gwledig Colofn II) -

Yn ychwanegol at hyn, ar gyfer datblygu gwledig (colofn II) ceir System Monitro a Gwerthuso Gyffredin<sup>2</sup>, sy'n rhan o'r Fframwaith Monitro a Gwerthuso Cyffredin sy'n cwmpasu manylion ar gyfer Rhaglenni Datblygu Gwledig.

Mae'n bwysig nodi, er bod y term 'canlyniad' yn awgrymu priodoli 'canlyniadau' i'r Rhaglenni, nad oes modd dod i gasgliad fel arfer bod y Rhaglenni wedi arwain at yr effeithiau hyn ar sail gwaith monitro yn unig. O'r herwydd, mae angen gwerthusiad (a gwerthusiad sy'n cynnwys grwpiau rheoli yn ddelfrydol) er mwyn amcangyfrif yr hyn a fyddai wedi digwydd heb y prosiect neu heb y rhaglen, h.y. y gwrthffeithiol'. Ymdrinnir â hyn yn Adran 4.

Ym mhob un o'r Rhaglenni, mae nifer fach o ddangosyddion nad ydynt yn rhai craidd / cyffredin wedi cael eu datblygu i alluogi'r Awdurdodau Rheoli i fonitro cynnydd y Rhaglenni'n llawn. Gelwir y rhain yn **ddangosyddion 'rhaglen-benodol'**.

Bydd yn ofynnol i bob prosiect a chynllun ddethol dangosyddion perthnasol o'r Flaenoriaeth Fuddsoddi y mae'n cael ei ariannu oddi tani. Bydd gan bob prosiect broffil o gyflawniadau disgwylidig a fydd yn cynnwys gwariant a dangosyddion; caiff goddefiad ar gyfer pob ardal ei gymhwyso a chaiff rhybuddion awtomatig eu rhoi os eir yn groes i'r goddefiad.

Bydd yr Awdurdod Rheoli yn defnyddio'r dangosyddion a ddetholwyd gan y prosiect / cynllun i fonitro cynnydd y prosiect / cynllun. Bydd data dangosyddion ar lefel prosiect / cynllun hefyd yn cael eu cyfuno hyd at lefel Blaenoriaeth a rhaglen er mwyn galluogi'r Awdurdodau Rheoli i fonitro cynnydd Blaenoriaethau a Rhaglenni penodol.

Un elfen allweddol o'r dangosyddion yw'r diffiniadau o **ddangosyddion** y mae'r Tîm Strategaeth wedi'u llunio, fel rhan o ganllawiau monitro ehangach ar gyfer prosiectau. Caiff pob noddwr prosiect a rheolwr cynllun eu hysbysu o'r rhain fel y gallant gadarnhau eu bod yn cyflwyno adroddiadau yn erbyn y dangosyddion yn gywir. Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau bod y data ar ddangosyddion o safon dda er mwyn galluogi'r Awdurdodau Rheoli i fonitro'r Rhaglenni'n effeithiol.

Mae'r **Tîm Strategaeth yn helpu prosiectau a chynlluniau** i ddethol dangosyddion priodol a llunio system fonitro i gasglu data a fydd yn ei gwneud yn bosibl i'r prosiect gael

---

<sup>2</sup> **Fframwaith Monitro a Gwerthuso Cyffredin:** Y casgliad o reolau a gweithdrefnau sydd eu hangen i werthuso'r PAC cyfan. **System Monitro a Gwerthuso Gyffredin:** Y rheolau a'r gweithdrefnau yn y Fframwaith Monitro a Gwerthuso Cyffredin sy'n ymwneud â datblygu gwledig (Colofn II o'r PAC)

ei werthuso'n effeithiol. At hynny, mae'r Tîm Strategaeth yn cynnal sesiynau hyfforddi i Swyddogion Datblygu Prosiect WEFO ac i noddwyr prosiectau ar gydymffurfio â'r gofynion monitro.

O ran y Cynllun Datblygu Gwledig, er mwyn dangos sut y caiff targedau'r rhaglen eu cyflawni, mae'n rhaid i Gynllun Dangosyddion gael ei gwblhau er mwyn cynllunio'r mesurau a'r moddion ariannol i'w defnyddio ar gyfer pob Maes Canolbwyntio yn y rhaglen. Mae hefyd yn cynnig yr elfennau cyfrifo sylfaenol ar gyfer pob targed. **Mae hwn yn ofyniad newydd ar gyfer y Cynllun Datblygu Gwledig.** Rhagnodir diffiniadau ar gyfer dangosyddion y Cynllun Datblygu Gwledig gan y Comisiwn Ewropeaidd. Bydd y Tîm Strategaeth yn helpu rheolwyr rhaglenni a chynlluniau i ddeall y gofynion hyn a llunio system fonitro i gofnodi'r data sydd eu hangen yn erbyn dangosyddion, dadansoddiadau fesul categori ynghyd â gofynion monitro eraill. Caiff sesiynau hyfforddi eu cynnal gyda rheolwyr rhaglenni a chynlluniau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion monitro.

## 4. Gwerthuso

### 4.1 Dull gweithredu Trosfwaol

Y Tîm Strategaeth fydd **yn gyfrifol am bob gwerthusiad ar lefel rhaglen.**

Un elfen fawr o restr o werthusiadau ar lefel rhaglen y Tîm Strategaeth fydd **arolygon rheolaidd o unigolion sydd wedi cael cymorth o dan y Rhaglenni.** Bydd y rhain yn adeiladu ar Arolygon yr ESF o'r Bobl a Adawodd a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod 2007-2013. Bydd y Tîm Strategaeth yn **rhannu'r setiau data** ar gyfer yr arolygon hyn â chynlluniau a phrosiectau fel y gellir eu defnyddio mewn gwerthusiadau ar lefel prosiect / cynllun. Bydd y Tîm Strategaeth hefyd yn defnyddio'r arolygon hyn er mwyn helpu i gyflwyno adroddiadau yn erbyn dangosyddion canlyniadau tymor hwy yr ESF. Bydd y Tîm Strategaeth yn dilyn canllawiau'r CE ar samplu cynrychioliadol sydd ei angen i gyflwyno adroddiadau yn erbyn dangosyddion canlyniadau tymor hwy yr ESF.

**Diweddariad 2017:** Yn wreiddiol, roedd y Tîm Strategaeth yn bwriadu cynnal arolygon rheolaidd o fusnesau sydd wedi cael cymorth o dan ERDF a'r Cynllun Datblygu Gwledig a rhannu data ar lefel gweithrediad / cynllun o'r arolygon hyn â'r rhai sy'n gyfrifol am werthusiadau ar lefel gweithrediad o'r ERDF a gwerthusiadau ar lefel cynllun o'r Cynllun Datblygu Gwledig fel na fyddai'n rhaid iddynt gynnal eu harolygon eu hunain. Mae hyn yn digwydd o ran y rhai sy'n cymryd rhan o dan yr ESF. Fodd bynnag, nid yw'r Tîm Strategaeth wedi cael cymaint o ddata hyd at ddiwedd 2017 ar fusnesau sydd wedi cael cymorth o dan ERDF ag a gafodd ar y rhai sy'n cymryd rhan o dan ESF. Ni chaiff arolwg ERDF o fusnesau sydd wedi cael cymorth ei gynnal tan o leiaf 2019 oherwydd yr anawsterau sy'n gysylltiedig â sicrhau maint sampl digonol tan hynny. Y bwriad yw y bydd busnesau sydd wedi cael cymorth o dan ERDF a'r Cynllun Datblygu Gwledig yn cael eu trin ar wahân ac o ran y Cynllun Datblygu Gwledig caiff hyn ei wneud fel rhan o werthusiadau penodol ar lefel cynllun o'r Cynllun Datblygu Gwledig a reolir gan y Tîm Strategaeth.

**Bydd angen i bob noddwr prosiect / rheolwr cynllun gytuno ar gynllun monitro a gwerthuso manwl â'r Tîm Strategaeth.**

Lle mae arbenigedd ymchwil a gwerthuso ar gael mewn prosiectau / cynlluniau i gomisiynu'r gwerthusiadau fel arfer ni fydd y Tîm Strategaeth yn ymyrryd.

Ar gyfer prosiectau a chynlluniau mawr neu arloesol lle nad oes gan y noddwr prosiect / rheolwr cynllun yr adnoddau i reoli gwerthusiad, bydd y Tîm Strategaeth yn aelod o'r grŵp llywio ar gyfer y gwerthusiad a bydd yn rhoi cymorth dwys, e.e. drwy wneud sylwadau ar fanylebau gwerthusiadau, adnoddau gwaith maes ac adroddiadau drafft a chymryd rhan mewn asesiadau o dendrau. Ar gyfer rhai prosiectau mawr neu arloesol heb fawr ddim adnoddau, efallai y bydd angen i'r Tîm Strategaeth reoli'r gwerthusiad o'r prosiect. Bydd yn penderfynu ar hyn fesul achos.

Ar gyfer pob prosiect a chynllun arall bydd y Tîm Strategaeth yn rhoi cyngor ac arweiniad i noddwyr prosiectau a rheolwyr cynlluniau ar eu gwerthusiadau. Caiff y trefniadau hyn ar gyfer cymorth dadansoddi eu cyflwyno ar gyfer y Cynllun Datblygu Gwledig. Bydd hyn yn cynnwys canllawiau ar werthuso prosiectau i'w cyhoeddi ar wefan WEFO. At hynny, mae'r Tîm Strategaeth yn cynnal sesiynau hyfforddi i Swyddogion Datblygu Prosiect WEFO a noddwyr prosiectau ar gomisiynu gwerthusiadau ar lefel prosiect.

Yn y rhan fwyaf o achosion ar lefel rhaglen a phrosiect / cynllun, caiff **contractwyr allanol** eu comisiynu i gynnal gwerthusiad oherwydd yr annibyniaeth a'r arbenigedd a gynigir gan drefniant o'r fath.

Noda Erthygl 110(1) o'r Rheoliadau Darpariaethau Cyffredin y bydd y PMRh yn archwilio cynnydd a wnaed o ran gweithredu'r cynllun gwerthuso a'r gwaith dilynol a wneir ar ganfyddiadau'r gwerthusiadau. Bydd y PMRh yn cynnal cynnydd o ran gweithredu'r Strategaeth Monitro a Gwerthuso a chynnydd o ran y gwaith dilynol ar ganfyddiadau'r gwerthusiad yn flynyddol.

#### 4.2 Beth y byddwn yn ei werthuso a sut

Fel y'i nodir yn Adran 2, cynhelir gwerthusiadau i ateb cwestiynau ynglŷn â phrosiect, cynllun neu raglen. Mae Tabl 1, isod, yn amlinellu cwestiynau'r gwerthusiad y bydd y Tîm Strategaeth yn ceisio eu hateb yn ystod cyfnod rhaglennu, gyda disgrifiad byr o'r dull gwerthuso ar gyfer pob cwestiwn. Yn ychwanegol at y cwestiynau isod, ceir 21 o Gwestiynau Gwerthuso Cyffredin a luniwyd gan y CE ar gyfer y Cynllun Datblygu Gwledig hefyd. Ymdrinnir â'r rhain ym mhob un o werthusiadau'r Cynllun Datblygu Gwledig.

**Tabl 1 – Cwestiynau Gwerthuso a Sut i'w Hateb**

| Cwestiwn Gwerthuso                                                                | Dull Gwerthuso                                                                                                                                                                                                  | Amseriad - wedi'i ddiweddarau yn 2017                                                                                                                                            |
|-----------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>A yw'r ymyriadau a ariannwyd gan y Rhaglenni yn cael effaith?</b> <sup>3</sup> | <ul style="list-style-type: none"> <li>Dadansoddiad yn erbyn dangosyddion canlyniadau ERDF a dangosyddion canlyniadau tymor hwy yr ESF (gweler Atodiad A am amlinelliad manwl o'r ffordd y mae'r Tîm</li> </ul> | <ul style="list-style-type: none"> <li>ESF: Arolygon cyntaf i'w cynnal yn 2017, gyda'r dadansoddiad ar gael yn 2018</li> <li>ERDF: Arolygon i'w cynnal yn 2019 gyda'r</li> </ul> |

<sup>3</sup> Am drafodaeth fanwl o werthusiad o'r effaith, gweler Atodiad B.

|                                                                                                                                                   |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          |                                                                                                                                                                                                                                                                          |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|                                                                                                                                                   | <p>Strategaeth yn gwerthuso cynnydd yn erbyn y dangosyddion canlyniadau)</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Arolygon rheolaidd o unigolion sydd wedi cael cymorth ESF</li> <li>• O leiaf un arolwg o fusnesau i'r rhaglen gyfan sydd wedi cael cymorth ERDF</li> <li>• Gwerthusiadau Gwrthffeithiol o'r Effaith ar lefel rhaglen a phrosiect / cynllun</li> <li>• Gwerthusiadau seiliedig ar Ddamcaniaeth o'r Effaith ar lefel rhaglen a phrosiect / cynllun</li> <li>• Dadansoddiad o ganlyniadau eraill sy'n rhy anodd i'w cofnodi drwy'r system o ddangosyddion, e.e. sgiliau 'meddal', busnesau yn gwario mwy ar ymchwil a datblygu a rhai o'r mesurau a awgrymwyd gan Is-grŵp Mesur Llwyddiant (drwy arolygon a gwerthusiad ar lefel prosiect)</li> <li>• Dadansoddiad o setiau data arolygon ar lefel ranbarthol lle y bo hynny'n ddichonadwy</li> </ul> | <p>dadansoddiad ar gael yn 2020</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynllun Datblygu Gwledig, ESF a ERDF:<br/>Tystiolaeth o Werthusiadau Gwrthffeithiol o'r Effaith a Gwerthusiadau seiliedig ar Ddamcaniaeth o'r Effaith sydd ar gael o 2019 ymlaen</li> </ul> |
| <b>Beth yw'r mathau mwyaf effeithiol o brosiectau a chynlluniau, e.e. a yw rhai prosiectau yn well o ran helpu pobl i gael gwaith nag eraill?</b> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dadansoddiad o'r arolygon o unigolion a busnesau</li> <li>• Cymharu tystiolaeth Gwerthusiadau Gwrthffeithiol o effaith gwahanol brosiectau / cynlluniau</li> </ul>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                              | <ul style="list-style-type: none"> <li>• ESF:<br/>Dadansoddiad ar gael o 2018 ymlaen</li> <li>• ERDF a'r Cynllun Datblygu Gwledig:<br/>Dadansoddiad ar gael o 2019 ymlaen</li> </ul>                                                                                     |
| <b>Pa fathau o fusnesau y mae'r Rhaglenni yn rhoi cymorth iddynt? Ym meysydd y Rhaglenni sydd</b>                                                 | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dadansoddiad o ddata monitro rhaglenni</li> <li>• Arolwg o fusnesau sydd</li> </ul>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dadansoddiad ar gael o 2018 ymlaen</li> </ul>                                                                                                                                                                                   |

|                                                                                                                                                                                                                          |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>wedi'u targedu at fusnesau 'twf', a yw targedu o'r fath yn cael ei gyflawni?</b>                                                                                                                                      | <p>wedi cael cymorth ERDF, gan gynnwys dadansoddiad rhanbarthol lle y bo hynny'n ddichonadwy</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gwerthusiad ar lefel gweithrediad a chynllun</li> </ul>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                |
| <b>Pa fathau o swyddi sy'n cael eu creu yn y busnesau rydym yn rhoi cymorth iddynt?</b>                                                                                                                                  | <ul style="list-style-type: none"> <li>Dadansoddiad o ddata monitro rhaglenni</li> <li>Arolwg o fusnesau sydd wedi cael cymorth ERDF, gan gynnwys dadansoddiad rhanbarthol lle y bo hynny'n ddichonadwy</li> </ul>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                     | <ul style="list-style-type: none"> <li>Dadansoddiad ar gael o 2018 ymlaen</li> </ul>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           |
| <b>Pa fathau o hyfforddiant sgiliau sy'n cael eu rhoi i'r unigolion rydym yn rhoi cymorth iddynt? Ai'r sgiliau sydd eu hangen ar gyflogwyr ydynt, ac a ydynt yn cyfateb i sectorau blaenoriaethol Llywodraeth Cymru?</b> | <ul style="list-style-type: none"> <li>Dadansoddiad o ddata monitro rhaglenni</li> <li>Arolygon rheolaidd o unigolion sydd wedi cael cymorth ESF, gan gynnwys dadansoddiad rhanbarthol lle y bo hynny'n ddichonadwy</li> <li>Gwerthusiad ar lefel gweithrediad a chynllun</li> </ul>                                                                                                                                                                                                                                                                   | <ul style="list-style-type: none"> <li>Dadansoddiad ar gael o 2018 ymlaen</li> </ul>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           |
| <b>Ar draws prosiectau a chynlluniau a oes digon o sylw i amcanion y Rhaglenni ac a yw cydbwysedd ymyriadau yn briodol?</b>                                                                                              | <ul style="list-style-type: none"> <li>Gwerthusiad Canol Tymor</li> <li>Ymchwil ansoddol gyda phrosiect / cynllun a staff yr Awdurdod Rheoli a rhanddeiliaid rhaglenni (e.e. PMRh)</li> <li>Adolygiad o ddogfennau rhaglenni a phrosiectau / cynlluniau</li> <li>Dadansoddiad o'r ffordd y mae'r cronfeydd ESI gwahanol yn ategu ei gilydd er mwyn cyflawni nodau cyffredin, ar ffurf Gwerthusiad seiliedig ar Ddamcaniaeth o'r Effaith</li> <li>Dadansoddiad o faterion sy'n effeithio ar y broses o weithredu'r Rhaglenni yn llwyddiannus</li> </ul> | <p>Naill ai:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Dechrau gwerthusiad pan fydd 40% o arian y Rhaglen wedi'i wario; neu</li> <li>Caffael gwerthusiad yn 2017/2018 er mwyn cyflwyno adroddiad yn 2019 (p'un bynnag sydd gynharaf)</li> </ul> <p>Trothwy gwariant heb ei gyrraedd yn 2017, ond cynhelir gwerthusiad i ymdrin â'r cwestiynau hyn yn 2018 Caiff hyn ei wneud fel ymchwil fewnol, yn hytrach nag ymchwil a</p> |

|                                                                                                                     |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          |                                                                                                                    |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|                                                                                                                     |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          | gomisiynwyd fwy na thebyg                                                                                          |
| <b>A yw'r Themâu Trawsbynciol yn cael eu hintegreiddio'n effeithiol mewn prosiectau a chynlluniau?</b>              | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymchwil ansoddol gyda phrosiect / cynllun a staff yr Awdurdod Rheoli a rhanddeiliaid rhaglenni (e.e. PMRh)</li> <li>• Adolygiad o werthusiadau ar lefel prosiect</li> <li>• Adolygiad o gamau gweithredu a gymerwyd mewn ymateb i argymhellion Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb ac Asesiadau Amgylcheddol Strategol</li> </ul> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Caffael gwerthusiad yn 2018 er mwyn cyflwyno adroddiad yn 2019</li> </ul> |
| <b>Pa dystiolaeth sydd ar gael (e.e. o ymchwil gyhoeddedig arall) i lywio'r broses barhaus o reoli'r Rhaglenni?</b> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Crynodebau o ymchwil sy'n uniongyrchol berthnasol i Raglenni ESI</li> </ul>                                                                                                                                                                                                                                                     | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ar gael o 2016 ymlaen</li> </ul>                                          |
| <b>A yw'r Rhaglenni ar y trywydd cywir i gyflawni targedau wrth gefn perfformiad?</b>                               | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dadansoddiad o ddata monitro rhaglenni ac adroddiadau cynnydd prosiectau</li> <li>• Ymchwil ansoddol gyda phrosiect / cynllun a staff yr Awdurdod Rheoli</li> </ul>                                                                                                                                                             | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Astudiaeth fewnol yn cael ei chynnal yn ystod 2017</li> </ul>             |
| <b>A oes unrhyw gyflawniadau troswaol gan y Rhaglenni y gellir eu crynhoi?</b>                                      | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwerthusiad Terfyn Rhaglen ar ddiwedd Rhaglenni</li> <li>• Synthesis o'r holl werthusiadau ar lefel prosiect / cynllun a rhaglen</li> <li>• Adolygiad o ddata economaidd-gymdeithasol dros y cyfnod rhaglennu</li> <li>• Crynodeb o gyflawni yn erbyn dangosyddion allweddol</li> </ul>                                         | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Caffael gwerthusiad yn 2020 er mwyn cyflwyno adroddiad yn 2021</li> </ul> |

### **Diweddariad 2017: newidiadau i'r amserlen werthuso**

Cafodd y Strategaeth Monitro a Gwerthuso ei drafftio a'i chymeradwyo gan y PMRh yn 2015. Ers hynny, mae rhaglenni 2014-2020 wedi cyrraedd y cam cyflawni, mae Gwerthusiadau Terfyn Rhaglen rhaglenni 2007-2013 ar eu ffurf derfynol ac mae'r Grŵp Cynghori Monitro a Gwerthuso wedi'i sefydlu ac wedi cyfarfod deirgwaith. Hefyd, yn ystod y cyfnod hwn, pleidleisiodd y DU i adael yr UE. Yn anochel, mae'r digwyddiadau hyn wedi

arwain at rywfaint o fyfyrion ar yr amserlen werthuso, ac, o ganlyniad, mae'r Tîm Strategaeth wedi nodi rhai astudiaethau ymchwil ychwanegol a drafodwyd â'r Grŵp Cynghori Monitro a Gwerthuso ym mis Medi 2017. Mae Tabl 2, isod, yn amlinellu'n fras yr astudiaethau hyn ar gyfer Cronfeydd Strwythurol a Thabl 3 ar gyfer y Cynllun Datblygu Gwledig. Yn wreiddiol, rhagwelodd y Strategaeth Monitro a Gwerthuso y byddai rhywfaint o'r gwariant ar werthuso yn cael ei wario ar brosesau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r rhaglenni ond byddwn bellach yn cynnal yr ymchwil hon yn fewnol er mwyn helpu i ariannu rhai o'r astudiaethau ychwanegol.

**Tabl 2 – Astudiaethau gwerthuso newydd – Cronfeydd Strwythurol**

| <b>Astudiaeth</b>                        | <b>Statws</b>               | <b>Disgrifiad cryno</b>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                              |
|------------------------------------------|-----------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Cynhyrchiant Llafur yng Nghymru          | Ar fin cael ei chwblhau     | <p>Dadansoddiad economaidd er mwyn diweddarau ymchwil i ffactorau sy'n effeithio ar gynhyrchiant llafur yng Nghymru (sy'n is na rhannau eraill o'r DU).</p> <p>Y rhesymeg dros gomisiynu'r dadansoddiad hwn yw mai nod y Rhaglenni yw gwella perfformiad Cymru yn erbyn nifer o fesurau sy'n gysylltiedig â chynhyrchiant felly bydd dealltwriaeth o berfformiad cynhyrchiant Cymru a'r hyn sy'n gyfrifol amdano yn ddefnyddiol o ran llywio'r broses o roi'r Rhaglenni ar waith</p> |
| Gwerthusiad o Seilwaith ERDF (2000-2013) | Ar fin cael ei roi ar dendr | <p>Y rhesymeg dros gomisiynu'r gwerthusiad hwn yw bod y rhan fwyaf o'r dystiolaeth i werthuso seilwaith wedi'i chyflwyno yn union ar ôl i'r seilwaith gael ei gwblhau felly nid oedd modd ystyried sut roedd y seilwaith yn cael ei ddefnyddio – a dim ond drwy'r defnydd ohono y caiff effaith seilwaith ei gwireddu.</p> <p>Nodau'r gwerthusiad arfaethedig yw:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Ymchwilio i'r ffordd y caiff y seilwaith</li> </ol>                  |

|                                                    |                 |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  |
|----------------------------------------------------|-----------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|                                                    |                 | <p>newydd/gwell ei ddefnyddio a'i gynnal a'i gadw.</p> <p>2. Ymchwilio a yw'r seilwaith newydd a gwell o fewn tri rhanbarth Cymru (Gogledd Cymru, De-orllewin a Chanolbarth Cymru, a De-ddwyrain Cymru) yn gweithio gyda'i gilydd, er budd y rhanbarth o ran yr economi leol, trigolion a busnesau, ac os felly sut;</p> <p>3. Ystyried dichonolrwydd cynnal gwerthusiad effaith o'r seilwaith a nodi dulliau a argymhellir.</p> |
| Gwerthusiad o rôl partneriaid i gyflwyno rhaglenni | Heb ei ddechrau | <p>Cynnwys Timau Ymgysylltu Rhanbarthol a Thîm Ewropeaidd Arbenigol Trydydd Sector a phartneriaid eraill. Bydd yn ceisio archwilio cryfderau a gwendidau'r dull gweithredu presennol</p>                                                                                                                                                                                                                                         |
| Hap-dreialon Wedi'u Rheoli                         | Heb ei ddechrau | <p>Rydym yn gobeithio nodi meysydd penodol iawn o'r rhaglenni neu rannau o weithrediadau sy'n addas ar gyfer treialon. Efallai y bydd amrywiadau ar y dull hap-dreialu wedi'i reoli 'clasurol' yn fwy dichonadwy e.e. yn yr arfaeth, treialu elfennau gwahanol o'r cymorth, newidynnau offerol neu anogaeth ar hap</p>                                                                                                           |
| Ymchwil Gymdeithasol i Gynhyrchiant                | Heb ei dechrau  | <p>Ansicr iawn ar hyn o bryd. Y rhesymeg dros ystyried hyn yw bod cynhyrchiant yn broblem fawr i Gymru (a'r DU gyfan) ond mae llawer o'r llenyddiaeth a nodwyd hyd yma yn seiliedig ar ymchwil economaidd (econometreg yn bennaf) yn hytrach nag ymchwil gymdeithasol. Efallai y bydd ymchwil</p>                                                                                                                                |

|  |  |                                                                                                                                                                                                            |
|--|--|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|  |  | gymdeithasol yn gallu cynnig dirnadaeth ychwanegol. Byddai angen ystyried y llenyddiaeth sy'n bodoli eisoes yn drylwyr er mwyn sicrhau nad ydym yn dyblygu unrhyw beth a'n bod yn adeiladu ar waith arall. |
|--|--|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|

**Tabl 3 – Astudiaethau gwerthuso newydd – Cynllun Datblygu Gwledig**

| <b>Astudiaeth</b>                                    | <b>Statws</b>           | <b>Disgrifiad cryno</b>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                       |
|------------------------------------------------------|-------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Astudiaeth Ddichonoldeb o Amaeth-yswiriant           | Ar fin cael ei chwblhau | Bydd yr astudiaeth hon yn ymchwilio i hyfywedd masnachol opsiynau yswiriant er mwyn adbrynu a/neu adfer cynhyrchiant amaethyddol ar ôl digwyddiad tywydd eithafol a/neu drychinebus. Yn dibynnu ar y canfyddiadau, efallai y bydd angen i'r Contractwr llwyddiannus gynnal dadansoddiad o opsiynau a datblygu argymhellion sy'n manylu ar y ffordd yr ymdrinnir â'r farchnad. |
| Cyflogaeth ffoaduriaid, astudiaeth o gymorth sgiliau | I'w chomisiynu'n fuan   | Bydd y gwaith hwn yn ystyried uchelgeisiau a dyheadau gwaith ffoaduriaid ledled Cymru, yn ogystal â mapio'r cymorth a gynigir ar hyn o bryd mewn rhanbarthau a lle y bydd angen gwelliannau o bosibl er mwyn gwella lefel y cymorth mewn ardaloedd gwledig.                                                                                                                   |
| Arolwg o Arferion Fferm                              | Heb ei ddechrau         | Bwriedir cynnal arolwg o arferion fferm fel rhan o'r hyn sy'n olyn Rhaglen Monitro a Gwerthuso Glastir. Rhagwelir y bydd cyllideb gwerthuso'r Cynllun Datblygu Gwledig yn cael ei neilltuo i gyfrannu at yr arolwg o                                                                                                                                                          |

|                                                                 |                 |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   |
|-----------------------------------------------------------------|-----------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|                                                                 |                 | arferion fferm a fydd yn hybu'r sampl i gynnwys buddiolwyr Cyswllt Ffermio a'r rhai nad ydynt yn fuddiolwyr er mwyn ei gwneud yn bosibl i wneud rhywfaint o ddadansoddi gwrthffeithiol.                                                                                                                                                                                                                                                                           |
| Cyfraniad Amaethyddiaeth a chynhyrchu bwyd ar gymunedau gwledig | Heb ei ddechrau | Mae'r gwaith hwn yn ansicr iawn ar hyn o bryd. Y rhesymeg dros y gwaith hwn yw mai cyfyngedig yw manteision economaidd y cymorth i fusnesau amaethyddol weithiau. Fodd bynnag, mae cyfyngu'r asesiad o'r sector amaethyddol i allbynnau economaidd yn colli'r buddiannau cymdeithasol ehangach a gynigir gan y sector amaethyddol. Bydd y gwaith hwn yn ceisio asesu i ba raddau y mae'r sector amaethyddol yn cynnig manteision ehangach mewn cymunedau gwledig. |

## 5. Adnoddau Monitro a Gwerthuso

Y prif adnodd ar gyfer monitro a gwerthuso Rhaglenni ESI fydd y staff yn y **Tîm Strategaeth**. Pan fydd pob swydd wedi'i llenwi, bydd gan y Tîm Strategaeth 18 o aelodau o staff gyda chymysgedd o arbenigedd ym maes ymchwil gymdeithasol, monitro a gweinyddu mewn dau leoliad, sef Merthyr Tudful ac Aberystwyth.

Yn ogystal â'r Tîm Strategaeth, caiff pedwar Uwch Swyddog Ymchwil arall eu hariannu drwy Gymorth Technegol a gwaith yn adran **Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru** i ddatblygu gwerthusiad ar lefel prosiect o brosiectau Cronfeydd Strwythurol Llywodraeth Cymru.

Bydd y Tîm Strategaeth hefyd yn defnyddio adnoddau'r **Grŵp Cyngori Monitro a Gwerthuso** newydd a gaiff ei sefydlu i oruchwylio gwaith y Tîm Strategaeth. Bydd y Grŵp hwn yn helpu'r Tîm Strategaeth i gyflwyno tystiolaeth monitro a gwerthuso gadarn ar y cronfeydd ESI yng Nghymru. Bydd y Grŵp yn cynnwys aelodau o'r Awdurdodau Rheoli ac o sefydliadau rhanddeiliaid, gan gynnwys adrannau eraill yn Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Bydd **Is-grŵp Technegol** y Grŵp Cyngori Monitro a Gwerthuso yn chwarae rôl fwy uniongyrchol i gefnogi gwaith y Tîm Strategaeth drwy asesu tendrau ar gyfer astudiaethau gwerthuso a

gwneud sylwadau ar adroddiadau drafft. Bydd yr Is-grŵp Technegol yn cynnwys economegydd, ystadegydd ac arbenigedd mewn ymchwil gymdeithasol o Lywodraeth Cymru.

Bydd y Tîm Strategaeth hefyd yn helpu'r **Timau Ymgysylltu Rhanbarthol** i werthuso cyfraniad y Rhaglenni i strategaethau datblygu rhanbarthol.

Caiff pob gwerthusiad ar lefel rhaglen ei ariannu gan **Gymorth Technegol**. O ran y Cronfeydd Strwythurol, mae'r Tîm Strategaeth yn amcangyfrif y bydd cyfanswm cyllideb o £3.5 miliwn ar gyfer Cronfeydd Strwythurol. Amcangyfrifir y bydd cyfanswm cyllideb o £6.1 miliwn ar gyfer y Cynllun Datblygu Gwledig.

Bydd noddwyr prosiectau / rheolwyr cynlluniau yn gallu defnyddio eu **grant gan yr UE i ariannu gwerthusiadau ar lefel prosiect / cynllun**.

## **6. Gwersi a ddysgwyd o Raglenni 2007-2013**

Mae'n bwysig myfyrio ar y gwersi a ddysgwyd o fonitro a gwerthuso Rhaglenni 2007-2013 fel y gallwn adeiladu ar y llwyddiannau a chymryd unrhyw gamau angenrheidiol i wella'r ffordd rydym yn gweithredu.

Yn y cyfnod 2007-2013, datblygodd y Tîm Strategaeth **system adrodd soffistigedig a chynhwysfawr** sydd wedi galluogi WEFO a'r PMRh i fonitro'r Rhaglenni yn fanwl. Mae nifer yr adroddiadau monitro a baratowyd gan y Tîm Strategaeth a'u manylder a'r ffaith eu bod ar gael ar wefan WEFO hefyd wedi gwneud y ffordd y rheolir y Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru yn fwy tryloyw. Ar gyfer y cyfnod 2014-2020, bydd y Tîm Strategaeth yn parhau â'r system adrodd hon a'i hestyn i'r Cynllun Datblygu Gwledig, fel y bydd un man storio cyson ar gyfer yr holl ddata monitro. Bydd hyn yn gwella'r ffordd y caiff argaeledd data ei gynllunio ar gyfer gwerthusiadau.

Mae'r **data ar lefel cyfranogwr o dan ESF** a gasglwyd gan y Tîm Strategaeth wedi bod o gymorth mawr i werthuso'r Rhaglenni ESF, yn enwedig yr arolygon rheolaidd o gyfranogwyr ESF. Bydd y Tîm Strategaeth yn parhau i gasglu'r lefel hon o wybodaeth o brosiectau ESF yn y cyfnod 2014-2020.

Mae **Arolygon yr ESF o'r Bobl a Adawodd** ynddynt eu hunain wedi arwain at sylfaen dystiolaeth dda ar berfformiad y Rhaglenni ESF. Maent wedi galluogi'r Tîm Strategaeth i gymhwyso dulliau Gwerthuso Gwrthffeithiol o'r Effaith cadarn er mwyn gwerthuso effaith ymyriadau ESF ar unigolion di-waith ac economaidd anweithgar.<sup>4</sup> Bydd y Tîm Strategaeth yn parhau i ddefnyddio'r dulliau hyn yn y cyfnod 2014-2020. Bu cyfuno data o sawl Arolwg ESF o'r Bobl a Adawodd hefyd yn fodd i'r Tîm Strategaeth ddadansoddi perfformiad yn ôl mathau gwahanol o brosiectau sy'n ddefnyddiol er mwyn deall pa fathau o brosiectau yw'r rhai mwyaf effeithiol o ran sicrhau gwahanol fathau o ganlyniadau. Prif wendidau Arolygon yr ESF o'r Bobl a Adawodd yw nad ydynt yn gynrychioliadol o boblogaeth cyfranogwyr ESF. Y prif reswm dros hyn yw nad yw rhai prosiectau ESF wedi rhoi manylion cyswllt o safon dda am eu cyfranogwyr ESF i'r Tîm Strategaeth (gweler isod). Fodd bynnag, mae lle i deilwra dulliau gwerthuso ESF at grwpiau penodol ac mae'r Tîm Strategaeth wrthi'n ystyried pob opsiwn sydd ar gael.

---

<sup>4</sup> Dulliau Gwerthuso Gwrthffeithiol yw dulliau sy'n defnyddio grwpiau rheoli credadwy i amcangyfrif y sefyllfa wrthffeithiol, h.y. beth fyddai wedi digwydd yn absenoldeb yr ymyriad. Fe'u trafodir yn fanylach yn Adran 5.

Sefydlodd y Tîm Strategaeth system casglu data gyfochrog ar gyfer pob busnes a gafodd gymorth o dan Raglenni ERDF. Yn anffodus, mae'r Tîm Strategaeth wedi cael mwy o **anawsterau i annog prosiectau ERDF i gyflwyno data ar lefel busnes** nag a gafodd i annog prosiectau ESF i gyflwyno data ar lefel cyfranogwr. O ganlyniad i hyn, mae'r Tîm Strategaeth wedi cael anhawster i werthuso'r Rhaglenni ERDF.<sup>5</sup> Hyd yn oed yn y Rhaglenni ESF nid yw'r system casglu data ar lefel cyfranogwr yn cwrddu pawb ac mae wedi golygu nad yw'r gwerthusiad o'r ESF yn gwbl gynrychioliadol o boblogaeth gyfan cyfranogwyr ESF. Ar gyfer y cyfnod 2014-2020, bydd y broses o gasglu data ar lefel cyfranogwr a busnes yn fwy sefydledig nag ydoedd ar ddechrau'r cyfnod 2007-2013. At hynny, o ystyried y pwys ychwanegol sy'n gysylltiedig â monitro a gwerthuso'r cyfnod 2014-2020, mae gan y Tîm Strategaeth fwy o bŵer i fynnu bod prosiectau yn cyflwyno'r wybodaeth hon.

Un llwyddiant gwerthuso allweddol fu 'Crynodebau Ymchwil WEFO' sy'n cynnwys crynodebau o ymchwil gyhoeddedig sy'n uniongyrchol berthnasol i'r Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol. Mae'r crynodebau hyn wedi creu sylfaen dystiolaeth hygyrch a chynhwysfawr i lywio'r ffordd y caiff y Rhaglenni eu rheoli a'r ffordd y caiff Rhaglenni eu datblygu yn y dyfodol. Mae'r Crynodebau o Ymchwil wedi parhau yn y cyfnod 2014-2020 ac maent bellach yn ymestyn i'r Cynllun Datblygu Gwledig.

Llwyddiant gwerthuso diweddar arall fu rôl y **Rhag-werthusiadau** i ymgorffori tystiolaeth yn y ffordd y cafodd Rhaglenni 2014-2020 eu llunio. Y cam cyntaf hollbwysig yn y Rhag-werthusiadau oedd bod y gwerthuswyr y paratoi adroddiadau synthesis a fyddai'n crynhoi'r holl dystiolaeth a oedd yn berthnasol i Flaenoriaethau Rhaglenni. Cafodd y rhain eu rhannu â'r rhai a oedd yn gyfrifol am ddrafftio'r Rhaglenni a hefyd buont yn sail dros arfarniad y gwerthuswyr o ddogfennau rhaglenni drafft. Mae llwyddiant y rhag-werthusiadau wedi golygu, ar gyfer unrhyw rag-werthusiadau yn y dyfodol, y bydd y Tîm Strategaeth yn gallu defnyddio'r fanyleb a'r trefniadau rheoli contract presennol fel templedi arfer gorau.

Yn ogystal â'r uchod, mae cyflwyno **gwerthusiadau gorfodol ar lefel prosiect** ar gyfer Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol 2007-2013 wedi meithrin gallu gwerthuso yng Nghymru ac wedi cyfrannu at y sylfaen dystiolaeth ar ymyriadau a ariennir gan yr UE. Mae prosiectau wedi gallu defnyddio'r hyn a ddysgwyd ganddynt o werthusiadau o brosiectau i wella'r ffordd y caiff eu prosiectau eu rhoi ar waith a'r ffordd y caiff prosiectau olynol eu dylunio. Er bod lle i wella ansawdd gwerthusiadau o brosiectau, bydd gwerthusiad ar lefel prosiect yn parhau'n orfodol yn y cyfnod 2014-2020 a bydd hyn parhau i gael ei ategu gan arweiniad a chynghor gan y Tîm Strategaeth.

Yn yr un modd, ar gyfer Cynllun Datblygu Gwledig 2007-2013, **cynhaliwyd gwerthusiadau o gynlluniau er mwyn ei gwneud yn bosibl i gynlluniau dysgu i wella gael eu rhoi ar waith**. At hynny, mae ystod o weithgarwch gwerthuso parhaus wedi cael

---

<sup>5</sup> Nid diffyg data ar lefel busnes o brosiectau ERDF yw'r unig reswm dros yr anawsterau i werthuso'r rhaglenni ERDF ond, yn sicr, mae wedi bod yn ffactor cyfyngu. Mae'r rhesymau eraill yn cynnwys yr oedi cyn bod data ar lefel busnes ar gael o ffynonellau eraill a phroblemau o ran penderfynu ar ba 'lefel' o'r busnes y mae'n briodol mesur canlyniadau lle mae busnes yn cynnwys mwy nag un uned fusnes. Ceir trafodaeth fanwl ym Mhennod 5 o'r adroddiad ar Arolwg ERDF o Fusnesau (Old Bell 3 et al, 2012), sydd ar gael yn <http://wefo.wales.gov.uk/publications/guidance-and-publications/Publications14-20/monitoringevaluation/programmeevaluations/9615751/?lang=cy>

ei chynnal drwy gydol y Cynllun Datblygu Gwledig. Bu dwy brif ffordd o gomisiynu gwerthusiadau parhaus: y contract gwerthuso parhaus ac Arsyllfa Wledig Cymru, sef ymchwil gydweithredol rhwng Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Aberystwyth. Mae Arsyllfa Wledig Cymru wedi cynnal nifer o astudiaethau ac arolygon er mwyn bodloni gofynion y Cynllun Datblygu Gwledig o ran tystiolaeth, gan gynnwys: arolygon hydredol o fusnesau, aelwydydd a gwasanaethau gwledig, ac astudiaeth o brosesau gwneud penderfyniadau ffermwyr. Bydd y broses o roi'r Cynllun Datblygu Gwledig ar waith yn parhau i gael ei hategu gan nifer o werthusiadau parhaus yn y cylch Rhaglennu nesaf. Er mwyn gwella cysondeb gwerthusiadau o gynlluniau'r Cynllun Datblygu Gwledig mae'r Tîm Strategaeth yn chwarae mwy o rôl yn y gwaith o ddylunio, comisiynu a rheoli gwerthusiadau ar lefel cynllun.

## **7. Cyfathrebu ynglŷn â chanfyddiadau gwerthusiadau**

Mae i gyfathrebu ynglŷn â chanfyddiadau gwerthusiadau ddau brif nod: sicrhau lle mwy amlwg i sylfeini tystiolaeth Cronfeydd Strwythurol a'r Cynllun Datblygu Gwledig ac effaith ei ymchwil a'i gyhoeddiadau ymhlith llunwyr polisi, rhanddeiliaid allweddol, cymunedau gwledig ac academyddion; a manteisio i'r eithaf ar yr holl ddata er mwyn cyflwyno polisïau ar sail gwell tystiolaeth a sicrhau canlyniadau mwy perthnasol a chadarn ar gyfer ardaloedd Rhaglenni. Rhestrir yr amcanion cyfathrebu isod:

- Strategaeth o seminarau wedi'u targedu er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn cyrraedd llunwyr polisi;
- Cyhoeddi adroddiadau rheolaidd ar uchafbwyntiau er mwyn gwneud yr ymchwil yn fwy hygyrch i gynulleidfa ehangach;
- Cymryd rhan mewn digwyddiadau Partneriaethau Gwerthuso a drefnir gan y Rhwydwaith Cynllun Datblygu Gwledig, y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol - Polisi Rhanbarthol a'r Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Gyflogaeth er mwyn hyrwyddo ymchwil a meithrin cysylltiadau ag ymarferwyr drwy ymgysylltu uniongyrchol;
- Paratoi a chyhoeddi llenyddiaeth i hyrwyddo ymchwil yn y gymuned wledig;
- Cynnal a datblygu'r wefan;
- Datblygu dull cyfathrebu er mwyn sicrhau dealltwriaeth glir o bynciau i'r gynulleidfa ehangaf;
- Ymgysylltu'n rhagweithiol â'r cyfryngau, gan sicrhau y rhoddir cyhoeddusrwydd i'r data a'r ymchwil berthnasol mewn modd priodol ac amserol.

Bydd gweithgareddau cyfathrebu a lledaenu yn defnyddio adnoddau sy'n bodoli eisoes lle y bo modd. O dan y Cynllun Datblygu Gwledig a'r Cronfeydd Strwythurol, mae cyfrifoldeb ar y Tîm Strategaeth i nodi arfer da o ymchwil a'i hyrwyddo ymhlith rhanddeiliaid drwy gymryd rhan mewn seminarau a'u trefnu. Mae'r Tîm Strategaeth yn gyfrifol am ddarparu a chyflwyno tystiolaeth i gefnogi prosesau effeithiol o lunio polisïau.

Bydd y Tîm Strategaeth yn 'cyd-blethu' ei weithgareddau cyfathrebu a lledaenu â mentrau tebyg a defnir yn yr Awdurdodau Rheoli.

Mae'r Cynllun Datblygu Gwledig yn nodi mai'r gynulleidfa graidd ar gyfer cyngor ymchwil yw amrywiaeth eang o lunwyr polisi, grwpiau gweithredu lleol, ymarferwyr a chyrff partner eraill. Mae'r gynulleidfa graidd ar gyfer ymchwil i'r Cronfeydd Strwythurol yn rhannu rhai nodweddion tebyg â'r grwpiau hyn, ond mae hefyd yn cynnwys noddwyr prosiectau fel grŵp allweddol yn y gynulleidfa darged. Gall y Tîm Strategaeth fanteisio ar gyfleoedd i

gydweithredu â phartneriaid yn y DU a'r UE, gan gynnwys y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol a Rhwydwaith Datblygu Gwledig Ewrop.

Mae perthynas gynhyrchol rhwng Llywodraeth Cymru a'i rhanddeiliaid yn hollbwysig i gyflwyno'r Cynllun Datblygu Gwledig yn llwyddiannus a sicrhau canlyniadau o safon i Gymru wledig. O ganlyniad, mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn cynnal ymchwil ac yn cyflwyno tystiolaeth mewn modd sy'n diwallu anghenion ei chwsmeriaid yn ogystal â'i chynulleidfa ehangach.

Er mwyn helpu i deilwra'r dulliau cyflwyno, gellir categorio'r gynulleidfa darged ac yn y rhan fwyaf o achosion, ei blaenoriaethu fel a ganlyn:

Cynulleidfa fewnol Llywodraeth Cymru:

- Llundwyr polisi Llywodraeth Cymru, Rheolwyr cynlluniau'r Cynllun Datblygu Gwledig yn yr Is-adran Dyfodol Cynaliadwy, a noddwyr prosiectau mewnol Llywodraeth Cymru;
- Staff polisi Llywodraeth Cymru (e.e. Economi a Thrafnidiaeth, Iechyd, Llywodraeth Leol);
- Is-adran Rheoli Rhaglenni WEFO a'r Is-adran Cynllunio PAC;
- Rhwydwaith Cynllun Datblygu Gwledig Cymru

Cynulleidfa Allanol:

- Yr Undeb Ewropeaidd;
- Pwyllgor Monitro'r Rhaglenni;
- Noddwyr prosiectau mewn sefydliadau allanol i Lywodraeth Cymru;
- Llundwyr polisi mewn llywodraeth leol a'r trydydd sector;
- Grwpiau Gweithredu Lleol LEADER;
- Awdurdodau Rheoli eraill yn y DU;
- Rhwydwaith Cynllun Datblygu Gwledig y DU;
- Y Gymuned Academaidd.

Bydd angen i bob gweithgarwch cyfathrebu ystyried sut i sicrhau'r gwerth gorau posibl o ran hyrwyddo'r Cronfeydd Strwythurol a'r Cynllun Datblygu Gwledig yn ogystal â chanfyddiadau ymchwil.

Byddai rhestr o weithgareddau cyfathrebu arfaethedig yn cynnwys y canlynol:

- Trefnu amseriadau cyhoeddiadau er mwyn cysylltu â digwyddiadau sydd eisoes wedi'u trefnu; e.e. cyfarfodydd y Rhwydwaith Gwledig a Digwyddiad Blynnyddol WEFO;
- Cytuno ar y trefniadau lledaenu ar gyfer adroddiadau unigol;
- Defnyddio e-fwletinâu chwarterol Gwlad a'r Cynllun Datblygu Gwledig yn ogystal â Twitter WEFO a Diweddariadau Newyddion WEFO at ddibenion cyhoeddusrwydd;
- Cydgysylltu â chyhoeddiadau gan Weinidogion/ymweliadau/Cyfarfodydd Llawn/busnes pwyllgorau;
- Gweithio gyda chyrff eraill yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol;
- Gwneud y defnydd gorau posibl o bresenoldeb ar y we a chysylltu â gwefannau cysylltiedig;

- Gweithio gyda swyddfa'r wasg yn Llywodraeth Cymru i benderfynu os/pryd bydd angen hysbysiadau i'r wasg, briffiadau neu gyfweliadau (cenedlaethol a/neu ranbarthol).
- Gweithio gyda Rhwydwaith Gwledig Cymru i sicrhau y caiff adroddiadau gwerthuso a dogfennau canllaw eu dosbarthu i gynlluniau/prosiectau a ariennir o dan y Cynllun Datblygu Gwledig

Yn ogystal ag ystyried y cyfleoedd uchod, caiff adolygiadau rheolaidd o gyfathrebu â'r cyfryngau eu trefnu er mwyn hwyluso gwelliannau a diweddarau'r rhestr o weithgareddau.

Caiff gwaith cefndir parhaus i ddiweddarau'r wefan ei ddefnyddio fel asgwrn cefn y cynllun cyfathrebu. Dylai hyn gael ei ategu gan ddiweddariadau dros yr e-bost o bryd i'w gilydd a seminarau i grwpiau â diddordeb.

Bydd angen ystyried amseriad yn ofalus er mwyn sicrhau'r cyhoeddusrwydd mwyaf posibl. Ystyrir oedi cyn rhoi cyhoeddusrwydd i gyhoeddiadau gwerthuso er mwyn cael yr effaith fwyaf posibl a sicrhau synergeddau â threfniadau cyhoeddusrwydd eraill bob amser.

Caiff llwyddiant y cynllun cyfathrebu hwn ynglŷn â gwerthusiadau ei fesur yn ôl y meini prawf canlynol:

- Nifer y trawiadau ar wefan y Cynllun Datblygu Gwledig a WEFO ar gyfer y tudalennau ar werthuso;
- Nifer yr erthyglau yn y wasg;
- Nifer y cyfweliadau yn y cyfryngau (cenedlaethol a/neu ranbarthol);
- Nifer y dyfyniadau a chyfeiriadau o'r ymchwil i'r Cynllun Datblygu Gwledig a'r Cronfeydd Strwythurol yng nghofnod trafodion y Cynulliad Cenedlaethol;
- Nifer y cyfeiriadau a dyfyniadau o'r ymchwil i'r Cronfeydd Strwythurol a'r Cynllun Datblygu Gwledig mewn ymgynghoriadau polisi Llywodraeth Cymru;
- Nifer y cyfeiriadau a'r dyfyniadau o'r ymchwil i'r Cynllun Datblygu Gwledig a'r Cronfeydd Strwythurol ym mholisiâu a strategaethau rhanddeiliaid eraill;
- Nifer y gweithgareddau cydweithio ac ymchwil â phartneriaid.

Bydd adroddiadau o bryd i'w gilydd ar y mesurau hyn yn dangos sut mae proffil yr ymchwil i'r Cronfeydd Strwythurol a'r Cynllun Datblygu Gwledig yn cael ei gynnal a'i wella yng Nghymru a thu hwnt.

Bydd y Tîm Strategaeth yn cynnal cofnod o'r holl argymhellion o bob gwerthusiad a gwblhawyd a fydd yn monitro ymatebion cwsmeriaid polisi i bob argymhelliad ac olrhain y camau a gymerwyd ganddynt o ganlyniad i hynny. Bydd y cofnod hwn yn cynnig ffordd allweddol i'r Tîm Strategaeth wneud gwaith dilynol ar ganlyniadau gwerthusiadau, a rhoi mwy o dystiolaeth i fonitro'r ffordd y cyflawnir gweithgareddau'r cynllun cyfathrebu ynglŷn â gwerthuso gyda staff Awdurdodau Rheol a noddwyr prosiectau / rheolwyr cynlluniau.

## Atodiad A – Dull Gwerthuso o Fesur Dangosyddion Canlyniadau

### Dull trosfwaol o werthuso dangosyddion canlyniadau ERDF

Bydd y Tîm Strategaeth yn comisiynu gwerthusiadau er mwyn gwerthuso cyfraniad y Rhaglenni at unrhyw newidiadau a welir yn erbyn y dangosyddion canlyniadau. Yn y rhan fwyaf o achosion caiff hyn ei wneud ar ddau gam. Yn gyntaf, caiff gwerthusiad ei gynnal ar lefel yr uned sydd wedi cael cymorth (e.e. busnes). Lle bynnag y bo modd, bydd y Tîm Strategaeth yn comisiynu Gwerthusiadau Gwrthffeithiol o'r Effaith. Lle na fydd Gwerthusiadau Gwrthffeithiol o'r Effaith yn ddichonadwy, caiff dulliau eraill eu defnyddio, e.e. arolygon o fusnesau sydd wedi cael cymorth neu Werthusiadau Seiliedig ar Ddamcaniaeth o'r Effaith ar lefel prosiect. Yna, caiff canlyniadau'r gwerthusiadau hyn eu cyfuno â data ar y dangosyddion canlyniadau er mwyn cynnal trafodaeth hyddysg am effeithiau'r Rhaglenni ar unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu holrhain gan y dangosyddion canlyniadau. Bydd hyn yn ystyried y tueddiadau a welwyd eisoes ac unrhyw ddatblygiadau a newidiadau eraill o ran polisi yn yr economi sydd wedi digwydd yn ystod y cyfnod rhaglennu. Rhoddir rhagor o fanylion am y dull gwerthuso yn Nhabl A.1.

**Tabl A.1 – Dull gwerthuso o asesu cynnydd yn erbyn dangosyddion canlyniadau ERDF**

| Amcan Penodol                                                                                                                                                                                           | Dangosydd Canlyniadau                                                                                                                                  | Dull Gwerthuso                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| 1.1: Cynyddu llwyddiant sefydliadau ymchwil Cymru o ran denu arian ymchwil cystadleuol a phreifat                                                                                                       | Incwm ymchwil ar gyfer Sefydliadau Addysg Uwch                                                                                                         | Ymchwil ar y cyd â SAUau sydd wedi cael cymorth i ganfod p'un a yw incwm o grantiau ymchwil a chontractau wedi cynyddu a ph'un a chwaraeodd ERDF unrhyw rôl yn hyn. Caiff canlyniadau'r ymchwil eu hystyried yng nghyd-destun newidiadau yn y dangosydd canlyniadau, gydag ystyriaeth ehangach o unrhyw ffactorau eraill a allai fod wedi cael effaith.                                                                                                                                                                                                                                                          |
| 1.2: Cynyddu faint o brosesau ymchwil ac arloesi sy'n cael eu troi'n gynhyrchion, yn brosesau ac yn wasanaethau masnachol gwell yn llwyddiannus, yn enwedig drwy drosglwyddo technoleg o SAUau yn well. | Cyfran gyfartalog cyfanswm y trosiant o arloesi mewn cynhyrchion, ac arloesi newydd: newydd i'r farchnad, newydd i'r busnes ac wedi gwella'n sylweddol | Ymchwil ar y cyd â busnesau sydd wedi cael cymorth i ganfod p'un a yw cymorth ERDF wedi arwain at unrhyw gynnydd o ran trosiant ac arolwg / ymchwil ansoddol i archwilio p'un ai arloesi mewn cynhyrchion a phrosesau sy'n gyfrifol am unrhyw gynnydd. Cysylltu'r canfyddiadau hyn ag unrhyw newidiadau yn y dangosydd canlyniadau, gan ystyried unrhyw ffactorau eraill a all fod wedi cael effaith. Bwriedir ceisio cynnal Gwerthusiad Gwrthffeithiol o'r Effaith gan ddefnyddio data sy'n cysylltu ag unrhyw newidiadau mewn trosiant a welwyd ar gyfer busnesau sydd wedi cael cymorth a chymharu hyn â grŵp |

|                                                                                                                                                |                                                             |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                |
|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|                                                                                                                                                |                                                             | rheoli.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        |
| 2.1: Cynyddu faint o gyllid sydd ar gael i BBaChau ar gyfer dechrau busnesau ac ehangu busnesau                                                | Swm a fuddsoddir mewn Cyfalaf Menter a Chyfalaf Ehangu      | Gwerthusiad ar lefel prosiect o Gronfa Fusnes Cymru. Caiff canlyniadau'r gwerthusiad eu hystyried yng nghydestun newidiadau yn y dangosydd canlyniadau, gydag ystyriaeth ehangach o unrhyw ffactorau eraill a all fod wedi cael effaith                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        |
| 2.2: Cynyddu nifer y BBaCh newydd drwy ddarparu gwybodaeth, cyngor a chanllawiau a chymorth i entrepreneuriaeth                                | Cyfrif genedigaethau busnesau newydd                        | Ymchwil ar y cyd ag unigolion sydd wedi cael cymorth i sefydlu busnes er mwyn canfod p'un a sefydlwyd y busnes a ph'un a chwaraeodd ERDF unrhyw rôl yn hyn. Caiff canlyniadau'r ymchwil eu hystyried yng nghydestun newidiadau yn y dangosydd canlyniadau, gydag ystyriaeth ehangach o unrhyw ffactorau eraill a allai fod wedi cael effaith.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  |
| 2.3: Cynyddu nifer y BBaChau sy'n manteisio ar seilwaith Mynediad at Fand Eang y Genhedlaeth Nesaf a TGCh a'i ddefnyddio                       | Defnydd BBaChau o fand eang ffeibr a chebl                  | Ymchwil ar y cyd â busnesau sydd wedi cael cymorth i ganfod p'un a yw cymorth ERDF wedi arwain at unrhyw gynnydd yn y niferoedd sy'n manteisio ar seilwaith Mynediad at Fand Eang y Genhedlaeth Nesaf a TGCh a'i ddefnyddio a ph'un a chwaraeodd ERDF unrhyw rôl yn hyn a pha effeithiau, os o gwbl, y mae hyn wedi'u cael ar berfformiad eu busnes. Efallai y bydd Gwerthusiad Gwrthffeithiol o'r Effaith yn ddichonadwy i asesu unrhyw effeithiau ar berfformiad busnesau. Caiff canlyniadau'r ymchwil eu hystyried yng nghydestun newidiadau yn y dangosydd canlyniadau, gydag ystyriaeth ehangach o unrhyw ffactorau eraill a allai fod wedi cael effaith. |
| 2.4: Cynyddu twf y BBaChau hynny sydd â'r potensial i dyfu, yn enwedig drwy fynd i mewn i farchnadoedd newydd (yn ddomestig ac yn rhyngwladol) | Cyflogaeth o fewn busnesau bach (10-49) a chanolig (50-249) | Gwerthusiad Gwrthffeithiol o'r Effaith i ganfod p'un a yw cymorth ERDF wedi arwain at unrhyw gynnydd mewn cyflogaeth mewn busnesau sydd wedi cael cymorth. Caiff canlyniadau'r Gwerthusiad Gwrthffeithiol o'r Effaith eu hystyried yng nghydestun newidiadau yn y dangosydd canlyniadau, gydag ystyriaeth ehangach o unrhyw ffactorau eraill a all fod wedi cael effaith. Caiff ymchwil ar y cyd â busnesau sydd wedi cael                                                                                                                                                                                                                                     |

|                                                                                                                                                                                                                                            |                                                                                               |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|                                                                                                                                                                                                                                            |                                                                                               | cymorth ei chynnal hefyd er mwyn cael eu hadborth ar y cymorth a roddwyd iddynt drwy'r SO hwn.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                       |
| 2.5: Mynd i'r afael â methiannau yn y farchnad o ran cyllid sydd ar gael, yn enwedig cyfalaf risg, er mwyn i BBaChau yng Nghymru arloesi a masnacheiddio gwaith ymchwil a datblygu                                                         | Buddsoddiad ecwiti ar gam cynnar                                                              | Gwerthusiad ar lefel prosiect o Gronfa Fusnes Cymru. Caiff canlyniadau'r gwerthusiad eu hystyried yng nghydestun newidiadau yn y dangosydd canlyniadau, gydag ystyriaeth ehangach o unrhyw ffactorau eraill a all fod wedi cael effaith                                                                                                                                                                                                                                                                                                              |
| 3.1: Cynyddu nifer y dyfeisiau sy'n defnyddio ynni'r tonnau ac ynni'r llanw a brofir yn nyfroedd Cymru ac oddi ar arfordir Cymru, gan gynnwys defnyddio araeau aml-ddyfais a, thrwy hynny, sefydlu Cymru fel canolfan cynhyrchu ynni'r môr | Cymhwysedd gosodedig sy'n defnyddio ynni'r tonnau ac ynni'r llanw                             | Monitro'n uniongyrchol yr ynni a gynhyrchir drwy fuddsoddiadau (gweithrediadau a phrosiectau) sydd wedi cael cymorth. Cysylltu hyn ag unrhyw newidiadau yn y dangosydd canlyniadau, gan ystyried unrhyw ffactorau eraill a all fod wedi cael effaith (e.e. ynni a gynhyrchir gan gynlluniau eraill nad ydynt wedi cael cymorth ERDF)                                                                                                                                                                                                                 |
| 3.2: Cynyddu nifer y cynlluniau ynni adnewyddadwy ar raddfa fach a sefydlwyd                                                                                                                                                               | Nifer y safleoedd sy'n cynhyrchu trydan o ffynonellau adnewyddadwy (heb gynnwys ffotofoltäig) | Monitro'n uniongyrchol nifer y safleoedd sy'n cynhyrchu trydan o ffynonellau adnewyddadwy sydd wedi cael cymorth. Caiff y canfyddiadau eu hystyried yng nghydestun newidiadau yn y dangosydd canlyniadau, gydag ystyriaeth ehangach o unrhyw ffactorau eraill a all fod wedi cael effaith ar y dangosydd (e.e. safleoedd newydd nad ydynt wedi cael cymorth gan ERDF)                                                                                                                                                                                |
| 3.3: Cynyddu effeithlonrwydd ynni stoc dai bresennol Cymru, yn enwedig mewn ardaloedd lle ceir tlodi tanwydd                                                                                                                               | Sgôr effeithlonrwydd ynni aelwydydd sy'n wynebu tlodi tanwydd difrifol                        | Cymharu'r sgôr effeithlonrwydd ynni bosibl ar y Dystysgrif Perfformiad Ynni â'r sgôr effeithlonrwydd ynni wreiddiol ar y Dystysgrif Perfformiad Ynni i aelwydydd sydd wedi cael cymorth. Gan fod y sgôr effeithlonrwydd ynni bosibl yn cael ei chyfrifo ar y sail bod mesurau effeithlonrwydd ynni yn cael eu gosod gan ARBED, yr unig weithrediad yn yr SO hwn, bydd y dull gweithredu hwn yn cofnodi'r gwelliannau ynni o ganlyniad i'r mesurau. Bydd y gwerthusiad hefyd yn canolbwyntio ar gyflawni, asesiad o ansawdd a chywirdeb cyfrifiadau'r |

|                                                                                                                                                                                     |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|                                                                                                                                                                                     |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           | Dystysgrif Perfformiad Ynni ac ansawdd y gosodiadau.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   |
| 4.1: Mynd i'r afael â phroblemau perifferoldeb a gwella buddsoddiadau preifat mewn ardaloedd lleol drwy welliannau i weithrediad y Rhwydwaith Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd (TEN-T) | Cyflymder ar gyfartaledd ar y rhannau hynny o rwydwaith TENT-T yr A40 a'r A55 sydd wedi cael cymorth                                                                                                                                                                                                                      | Bydd angen pennu llinellau sylfaen fesul prosiect yn seiliedig ar y rhan benodol sy'n cael ei thargedu. Monitro'n uniongyrchol amser teithio ar ddatblygiadau sydd wedi cael cymorth cyn (llinell sylfaen) ac ar ôl yr ymyriad (gweithgareddau prosiect). Caiff y canfyddiadau eu hystyried yng nghyd-destun newidiadau yn y dangosydd canlyniadau, gydag ystyriaeth ehangach o unrhyw ffactorau eraill a all fod wedi cael effaith ar y dangosydd, e.e. datblygiadau eraill yn yr ardal. Bydd angen i linellau sylfaen a gwaith monitro hefyd ystyried gwelliannau diogelwch                                                                                                                                                                                                                                          |
| 4.2: Cynyddu symudedd trefol a symudedd llafur i ac o ganolfannau trefol a chanolfannau cyflogaeth allweddol                                                                        | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd:<br>Nifer y bobl o fewn trothwyon amser teithio 15, 30, 45 a 60 munud o ganolfan cyflogaeth drefol allweddol rhwng 7am a 9am ar ddydd Mawrth ar drafnidiaeth gyhoeddus<br><br>Dwyrain Cymru:<br>Cyfanswm y teithwyr sy'n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus rhwng cysylltiadau trefol allweddol | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd:<br>Monitro'n uniongyrchol amseroedd teithio i'r gwaith drwy drafnidiaeth gyhoeddus cyn (llinell sylfaen) ac ar ôl ymyriad (prosiect) ar gyfer pob prosiect. Caiff y canfyddiadau eu hystyried yng nghyd-destun newidiadau yn y dangosydd canlyniadau, gydag ystyriaeth ehangach o unrhyw ffactorau eraill a all fod wedi cael effaith ar y dangosydd (e.e. datblygiadau trafnidiaeth eraill nad ydynt wedi cael cymorth ERDF). Bydd ystyriaeth hefyd i asesu effeithiau ar y mynediad at gyflogaeth ac effeithiau economaidd eraill<br><br>Dwyrain Cymru: Bydd angen pennu llinellau sylfaen fesul prosiect yn seiliedig ar y cysylltiadau trefol penodol sy'n cael eu targedu. Monitro niferoedd teithwyr yn uniongyrchol ac ystyried unrhyw a all fod wedi cael effaith ar y dangosydd. |
| 4.3: Cyfrannu at dargedau'r Agenda Ddigidol ar gyfer Ewrop yng Nghymru o ran mynediad 100% at y genhedlaeth nesaf o                                                                 | Cyfran y safleoedd sydd mewn codau post a wasanaethir gan rwydweithiau Mynediad at                                                                                                                                                                                                                                        | Monitro'n uniongyrchol nifer y safleoedd mewn codau post a wasanaethir gan rwydweithiau Mynediad at Fand Eang y Genhedlaeth Nesaf cyn (llinell sylfaen) ac ar ôl ymyriad (prosiect). Caiff                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |

|                                                                                                                                                         |                                                          |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| fand eang (30Mbye ac uwch) a mynediad 50% at 100Mbye                                                                                                    | Fand Eang y Genhedlaeth Nesaf                            | canlyniadau'r gwaith monitro eu hystyried yng nghyd-destun newidiadau yn y dangosydd canlyniadau, gydag ystyriaeth ehangach o unrhyw ffactorau eraill a all fod wedi cael effaith ar y dangosydd, e.e. buddsoddiadau eraill nad ydynt yn rhai ERDF, adleoli busnes                                                                                                                |
| 4.4: Cynyddu cyflogaeth drwy fuddsoddiadau mewn seilwaith lleol neu ranbarthol â blaenoriaeth sy'n cefnogi strategaeth economaidd ranbarthol neu drefol | Cyfradd Cyfrif Hawlwyr mewn Ardaloedd Teithio i'r Gwaith | Monitro'r gyfradd cyflogaeth ar gyfer Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is perthnasol yn uniongyrchol. Caiff canlyniadau'r gwaith monitro eu hystyried yng nghyd-destun newidiadau yn y dangosydd canlyniadau, gydag ystyriaeth ehangach o unrhyw ffactorau eraill a all fod wedi cael effaith ar y dangosydd, e.e. buddsoddiadau eraill nad ydynt yn rhai ERDF, amodau economaidd |

### **Dull trosfwaol o werthuso dangosyddion canlyniadau tymor hwy yr ESF**

Bydd y Tîm Strategaeth yn comisiynu arolygon rheolaidd o unigolion sydd wedi gadael un o brosiectau'r ESF er mwyn casglu data i gyflwyno adroddiadau yn erbyn y dangosyddion canlyniadau tymor hwy. Caiff yr arolygon hyn eu cynllunio i gasglu data ar gyfer sampl gynrychioliadol o gyfranogwyr yr ESF. Cafodd Arolygon yr ESF o'r Bobl a Adawodd yn y cyfnod 2007-2013 a gynhaliwyd gennym anhawster i gael digon o ymatebion gan y grwpiau mwyaf difreintiedig o gyfranogwyr er mwyn llunio sampl gynrychioliadol. Gwnaeth Arolwg yr ESF o Bobl a Adawodd yn 2013 dreialu elfen ansoddol er mwyn ymgysylltu â'r cyfranogwyr hyn. Llwyddodd yr elfen hon i gofnodi barn grwpiau o gyfranogwyr nad oeddent wedi cael cynrychiolaeth ddigonol gynt yn Arolygon yr ESF o'r Bobl a Adawodd, a helpodd i wella ein dealltwriaeth o'r ffordd y mae prosiectau ESF yn helpu'r rhai mwyaf difreintiedig. Fodd bynnag, ni lwyddodd yr elfen ansoddol i sicrhau digon o ymatebion ychwanegol i wneud yr arolwg cyffredinol yn gynrychioliadol. Felly, mae'r Tîm Strategaeth yn ystyried y camau ychwanegol canlynol er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn ar gyfer Rhaglenni 2014-2020:

- Sicrhau bod prosiectau yn cydymffurfio â gofynion adrodd WEFO ynglŷn â data ar lefel cyfranogwr
- Gweithio'n agos gyda phrosiectau i gytuno ar y ffordd orau o gynnal ymchwil â chyfranogwyr ac osgoi unrhyw ddyblygu rhwng gwerthusiad ar lefel prosiect ac ar lefel rhaglen;
- Ystyried defnyddio negeseuon testun neu'r cyfryngau cymdeithasol i rybuddio cyfranogwyr y bydd rhywun yn cysylltu â nhw fel rhan o astudiaeth ymchwil neu i'w hatgoffa am apwyntiad a drefnwyd ymlaen llaw;
- Ystyried 'ychwanegu at' y samplau ar gyfer prosiectau penodol neu grwpiau penodol o gyfranogwyr;
- Ystyried opsiynau ar gyfer cysylltu data WEFO â data'r Adran Gwaith a Phensiynau er mwyn ystyried patrymau cyflogaeth cyfranogwyr ESF yn y dyfodol.

**Tabl A.2 - Dull gwerthuso o asesu cynnydd yn erbyn dangosyddion canlyniadau tymor hwy yr ESF ar gyfer yr Amcanion Penodol**

| <b>Amcan Penodol</b>                                                                                                                                          | <b>Dangosydd Canlyniadau</b>                                                                                                                                                                           | <b>Dull Gwerthuso</b>                                                                 |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------|
| 1.1: Gwella cyflogadwyedd y rhai sydd agosaf i'r farchnad lafur ac sy'n wynebu'r risg fwyaf o dlodi                                                           | Cyfranogwyr di-waith yn y byrdymor sydd â sgiliau gwael neu gyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar y gallu i weithio mewn cyflogaeth chwe mis ar ôl gadael                                         | Arolwg yr ESF o Bobl a Adawodd; cysylltu data; Gwerthusiad Gwrthffeithiol o'r Effaith |
|                                                                                                                                                               | Unigolion sydd wedi bod yn ddi-waith mewn cyflogaeth chwe mis ar ôl gadael                                                                                                                             |                                                                                       |
| 1.2: Gwella cyflogadwyedd pobl sy'n economaidd anweithgar ac sy'n ddi-waith yn yr hirdymor sy'n 25 oed a throsodd sy'n wynebu rhwystrau cymhleth i gyflogaeth | Economaidd anweithgar (25 oed a throsodd), nad ydynt mewn addysg na hyfforddiant, sydd â rhwystrau cymhleth i gael cyflogaeth sydd mewn cyflogaeth, gan gynnwys hunangyflogaeth, chwe mis ar ôl gadael | Arolwg yr ESF o Bobl a Adawodd; cysylltu data; Gwerthusiad Gwrthffeithiol o'r Effaith |
|                                                                                                                                                               | Pobl ddi-waith yn yr hirdymor (25 oed a throsodd) sydd â rhwystrau cymhleth i gael cyflogaeth sydd mewn cyflogaeth, gan gynnwys hunangyflogaeth, chwe mis ar ôl gadael                                 |                                                                                       |

**Tabl A3 - Dull gwerthuso o asesu cynnydd yn erbyn dangosyddion canlyniadau tymor hwy yr ESF**

| <b>Dangosydd Canlyniadau</b>                                                                    | <b>Dull Gwerthuso</b>                                                                 |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------|
| Cyfranogwyr mewn cyflogaeth, gan gynnwys hunangyflogaeth, chwe mis ar ôl gadael                 | Arolwg yr ESF o Bobl a Adawodd; cysylltu data; Gwerthusiad Gwrthffeithiol o'r Effaith |
| Cyfranogwyr sydd mewn sefyllfa well o ran y farchnad lafur chwe mis ar ôl gadael                | Arolwg yr ESF o Bobl a Adawodd; cysylltu data; Gwerthusiad Gwrthffeithiol o'r Effaith |
| Cyfranogwyr dros 54 oed mewn cyflogaeth, gan gynnwys hunangyflogaeth, chwe mis ar ôl gadael     | Arolwg yr ESF o Bobl a Adawodd; cysylltu data; Gwerthusiad Gwrthffeithiol o'r Effaith |
| Cyfranogwyr o dan anfantais mewn cyflogaeth, gan gynnwys hunangyflogaeth, chwe mis ar ôl gadael | Arolwg yr ESF o Bobl a Adawodd; cysylltu data; Gwerthusiad Gwrthffeithiol o'r Effaith |

## Atodiad B - Trafodaeth Fanwl o'r Dulliau o Werthuso Effaith

Mae dogfennau canllaw monitro a gwerthuso'r Gyfarwyddiaeth Gyffredinol - Polisi Rhanbarthol a'r Gyfarwyddiaeth Gyffredinol - Cyflogaeth ar gyfer cyfnod rhaglennu 2014-2020 yn nodi dau fath gwahanol o werthusiad o'r effaith: Gwerthusiad Gwrthffeithiol o'r Effaith a Gwerthusiad Seiliedig ar Ddamcaniaeth o'r Effaith.<sup>6</sup>

### Gwerthusiad Gwrthffeithiol o'r Effaith

Mae Gwerthusiad Gwrthffeithiol o'r Effaith yn dechneg sy'n gwneud defnydd o grŵp rheoli credadwy i amcangyfrif y sefyllfa 'wrthffeithiol', h.y. yr hyn a fyddai wedi digwydd yn absenoldeb yr ymyriad. Heb amcangyfrif trwyadl o'r sefyllfa wrthffeithiol anaml iawn y gellir dweud gydag unrhyw hygyrdd bod yr ymyriad wedi arwain at y canlyniad a welir gan y dangosydd canlyniadau.

Ar adeg ysgrifennu, ar lefel rhaglen o ran yr ESF, mae'r Tîm Strategaeth wedi llwyddo i gomisiynu pedwar Gwerthusiad Gwrthffeithiol o Effaith cymorth ESF i helpu unigolion di-waith ac economaidd anweithgar gael cyflogaeth ac mae pumed astudiaeth yn y maes. Mae'r Gwerthusiadau Gwrthffeithiol o'r Effaith hyn wedi defnyddio data o'r Arolwg o Bobl a Adawodd ar gyfer y grŵp a drinnir a data o'r Arolwg Blyneddol o'r Boblogaeth ar gyfer y grŵp rheoli. Defnyddiwyd Cyfateb Sgoriau Tuedd i greu'r grŵp rheoli.<sup>7</sup> Mae dichonolrwydd y math hwn o ddadansoddi sydd wedi cael ei brofi ac o ystyried hyn bydd y Tîm Strategaeth yn parhau i gomisiynu'r gwaith hwn yn y cyfnod 2014-2020. At hynny, bydd y Tîm Strategaeth hefyd yn ymchwilio i ddichonolrwydd defnyddio data gweinyddol, megis y rhai a ddelir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau fel y ffynhonnell o ddata ar y grŵp a drinnir a'r grŵp rheoli, fel y'i gwnaed mewn gwerthusiad o effaith yr ESF yn Lloegr a gynhaliwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.<sup>8</sup>

Ar adeg ysgrifennu, o ran yr ERDF, mae'r Tîm Strategaeth wedi comisiynu un Gwerthusiad Gwrthffeithiol o Effaith cymorth ERDF i fusnesau.<sup>9</sup> Ceisiodd yr astudiaeth hon gysylltu data WEFO ar fusnesau sydd wedi cael cymorth ERDF â data ar lefel busnes o ffynonellau allanol gyda'r nod o gael data canlyniadau ar fusnesau sydd wedi cymorth ERDF a defnyddio'r ffynonellau hyn i greu grŵp rheoli addas. Oherwydd y data cyfyngedig sydd ar gael yng nghronfa ddata WEFO o fusnesau a'r ffynonellau o ddata allanol ar adeg yr astudiaeth, methiant fu'r Gwerthusiad Gwrthffeithiol o'r Effaith.<sup>10</sup> Mae'r Tîm Strategaeth wrthi'n rheoli ail astudiaeth gan fod mwy o ddata ar gael bellach. Os bydd yr astudiaeth yn llwyddiannus, bydd y Tîm Strategaeth yn ailadrodd y math hwn o ddadansoddiad yn y cyfnod 2014-2020.

<sup>6</sup> "Concepts and Recommendations", y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol - Polisi Rhanbarthol, Mawrth 2014; a "Monitoring and Evaluation of European Cohesion Policy - European Social Fund", y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol - Cyflogaeth, Medi 2014

<sup>7</sup> Am ragor o wybodaeth gweler adroddiadau 2010, 2011 a 2012 *Arolygon yr ESF o'r Bobl a Adawodd* (Prifysgol Caerdydd et al, 2012; 2013, 2014), sydd ar gael yn <http://wefo.wales.gov.uk/publications/guidance-and-publications/Publications14-20/monitoringevaluation/programmeevaluations/?lang=cy>.

<sup>8</sup> *Early Impacts of the European Social Fund, 2007-13*, Ainsworth a Marlow, 2011, ar gael yn <https://www.gov.uk/government/publications/early-impacts-of-the-european-social-fund-2007-to-2013-in-house-research-no-3>

<sup>9</sup> Gweler *Arolwg ERDF o Fusnesau* (Old Bell 3 et al, 2012), ar gael yn <http://wefo.wales.gov.uk/publications/guidance-and-publications/Publications14-20/monitoringevaluation/programmeevaluations/9615751/?lang=cy>.

<sup>10</sup> Ceir trafodaeth fanwl am y rhesymau dros y diffyg llwyddiant ym Mhennod 5 o adroddiad yr *Arolwg ERDF o Fusnesau*.

Mae manteision i gynnal Gwerthusiadau Gwrthffeithiol o'r Effaith ar lefel rhaglen a phrosiect / cynllun. Mae gwaith dadansoddi ar lefel rhaglen yn cynnig samplau mwy o faint sy'n ei gwneud yn bosibl i ddefnyddio technegau cyfateb ystadegol soffistigedig, megis Cyfateb Sgoriau Tuedd. Fodd bynnag, hyd yn oed o fewn Blaenoriaeth unigol, gall cymysgedd o ymyriadau gwahanol gael eu hariannu felly dim ond effaith ar gyfartaledd ar draws nifer o ymyriadau gwahanol y gall gwerthusiadau o effaith ar lefel Rhaglen a Blaenoriaeth ei chynnig, nad yw'n ddefnyddiol o ran penderfynu a fu ymyriad penodol yn effeithiol, oni ellir dadgyfuno canfyddiadau ar lefel ymyriad. O ystyried bod gweithgarwch o fewn prosiect neu gynllun unigol yn fwy unffurf, gall Gwerthusiad Gwrthffeithiol o'r Effaith ar lefel prosiect / cynllun ganolbwyntio mwy ar ymyriad penodol a hyd yn oed pan nad oes gan brosiect / cynllun ddigon o fuddiolwyr i hwyluso cymariaethau â setiau data mwy o faint, gellir defnyddio dulliau creadigol o greu grŵp rheoli megis y rhai a ddefnyddir wrth werthuso ReAct.<sup>11</sup> At hynny, gall rhai o'r prosiectau a'r cynlluniau mwy o faint greu samplau o faint digon mawr i hwyluso paru ystadegol. Ar gyfer y cyfnod 2014-2020 bydd y Tîm Strategaeth yn parhau i gomisiynu Gwerthusiadau Gwrthffeithiol o'r Effaith ar lefel rhaglen ac yn gweithio gyda noddwyr prosiectau a rheolwyr cynlluniau i'w cynnal ar lefel prosiect / cynllun lle y bo'n briodol.

Un math o Werthusiad Gwrthffeithiol o'r Effaith nas cynhaliwyd eto ar y Rhaglenni ESI yng Nghymru yw'r Hap-dreial Wedi'i Reoli. Mewn Hap-dreial Wedi'i Reoli, caiff cyfranogwyr eu neilltuo ar hap i grŵp a fydd yn destun yr ymyriad (y grŵp 'trin') a grŵp na fydd yn destun yr ymyriad (y grŵp 'rheoli'). Mae'r ymchwilydd yn arsylwi ar ganlyniadau'r grŵp trin a'r grŵp rheoli ar ôl yr ymyriad, ac oherwydd trylwyrdd y dyluniad, mae unrhyw wahaniaethau rhwng y ddau grŵp ar ôl yr ymyriad yn debygol o fod o ganlyniad i'r ymyriad.

Hap-dreial wedi'i Reoli yw'r math gorau oll o Werthusiad Gwrthffeithiol o'r Effaith ond mae llawer o heriau ymarferol yn gysylltiedig â rhoi Hap-dreialon wedi'u Rheoli ar waith yn llwyddiannus, e.e. y bydda'n rhaid i'r prosiect gael ei reoli'n llym iawn er mwyn sicrhau mai dim ond y rhai yn y grŵp trin sy'n destun yr ymyriad. Mae Hap-dreialon wedi'u Rheoli hefyd yn cael eu herio ar sail foesebol am eu bod yn gwrthod rhoi triniaeth i unigolion a sefydliadau cymwys. Fodd bynnag, nid yw dilemas moesebol o'r fath wedi atal defnydd helaeth o Hap-dreialon wedi'u Rheoli ym maes ymchwil feddygol. Dim ond ar gyfer ymyriadau ar wahân y mae Hap-dreialon wedi'u Rheoli yn ddichonadwy mewn gwirionedd felly gellir eu hanwybyddu ar lefel rhaglen oherwydd, fel y'i trafodir uchod, mae'r Rhaglenni (a'r Blaenoriaethau) yn ariannu cymysgedd o ymyriadau gwahanol. Fodd bynnag, os oes modd ateb yr heriau ymarferol – ac mae canllawiau'r Gyfarwyddiaeth Gyffredinol - Cyflogaeth ar Werthusiadau Gwrthffeithiol o'r Effaith yn rhybuddio rhag yr awydd i ymwrthod â hap-dreialu yn gyfan gwbl ym mhob achos heb ystyriaeth briodol, yna gellir defnyddio Gwerthusiadau Gwrthffeithiol o'r Effaith ar lefel prosiect neu gynllun.<sup>12</sup> Mae canllawiau'r Gyfarwyddiaeth Gyffredinol - Cyflogaeth ar Werthusiadau Gwrthffeithiol o'r Effaith hefyd yn nodi mai'r ffordd orau o ddefnyddio Hap-dreialon wedi'u Rheoli yn aml yw eu defnyddio i werthuso ymyriadau peilot newydd yn hytrach na rhai sy'n bodoli eisoes.<sup>13</sup> Felly, bydd y Tîm Strategaeth yn gweithio gyda noddwyr prosiectau a rheolwyr cynlluniau i nodi'r ymyriadau peilot hynny lle y gellid defnyddio Hap-dreialon wedi'u Rheoli. Mae'n

<sup>11</sup> *Gwerthusiad Interim o Raglen ReAct*, Old Bell 3 et al, 2011, sydd ar gael yn <http://gov.wales/statistics-and-research/evaluation-redundancy-action-programme/?lang=cy>.

<sup>12</sup> *Design and Commissioning of Counterfactual Impact Evaluations: A Practical Guidance for ESF Managing Authorities*, Morris et al, 2012, t.11

<sup>13</sup> *Ibid.*, t.14

bwysig nodi, os tybir bod Hap-dreial wedi'i Reoli yn gymwys ar gyfer prosiect neu gynllun penodol, nad oes angen i'r prosiect neu'r cynllun cyfan gael ei gyflwyno ar sail hap. Gallai elfennau prosiect neu gynllun sy'n sefydledig gael eu cyflwyno i bob unigolyn / busnes cymwys ond gallai elfen 'fwy newydd' y mae rheolwr y prosiect / cynllun am ei phrofi gael ei chyflwyno i unigolion / busnesau a hapddewisir. Mae amrywiadau eraill ar ddyluniad y Hap-dreial wedi'i Reoli yn goresgyn rhai o'r gwrthwynebiadau moesegol i wrthod rhoi triniaeth i unigolion / busnesau cymwys: y llif, newidynnau offerol a dyluniadau annog ar hap. Bydd y Tîm Strategaeth yn gweithio gyda noddwyr prosiectau i nodi'r prosiectau hynny lle y gall fod yn gymwys defnyddio'r dyluniadau hyn.

Yn anffodus, nid yw Gwerthusiadau Gwrthffeithiol o'r Effaith yn gymwys i bob maes yn y Rhaglen. Mae canllawiau monitro a gwerthuso'r Gyfarwyddiaeth Gyffredinol - Polisi Rhanbarthol ar gyfer y cyfnod 2014-2020 yn nodi mai dim ond ar gyfer ymyriadau eithaf homogenaidd gyda nifer fawr o fuddiolwyr y mae Gwerthusiadau Gwrthffeithiol o'r Effaith yn addas.<sup>14</sup> Ffactor cyfyngol arall yw y dylai canlyniadau ymyriadau fod yn ddiriaethol ac yn hawdd eu mesur. Mae'r Tîm Strategaeth yn rhagweld y bydd Gwerthusiadau Gwrthffeithiol o'r Effaith yn bosibl i ymyriadau ERDF ac ymyriadau'r Cynllun Datblygu Gwledig ar lefel busnes sydd wedi'u hanelu at dwf a chynhyrchiant busnesau ac ar gyfer ymyriadau ESF ac ymyriadau'r Cynllun Datblygu Gwledig sydd wedi'u hanelu at helpu pobl i gael gwaith.

Ym meysydd y Rhaglenni lle nad yw'n ddichonadwy cynnal Gwerthusiadau Gwrthffeithiol o'r Effaith, bydd y Tîm Strategaeth yn gweithio gyda noddwyr prosiectau a rheolwyr cynlluniau a'r Grŵp Cynghori Gwerthuso i ddatblygu dulliau amgen – ond mae'n rhaid cydnabod na fydd y rhain mor drylwyr â Gwerthusiadau Gwrthffeithiol o'r Effaith.

### **Gwerthusiad Seiliedig ar Ddamcaniaeth o'r Effaith**

Er bod Gwerthusiad Gwrthffeithiol o'r Effaith yn asesu a yw ymyriad yn gweithio, mae Gwerthusiad seiliedig ar Ddamcaniaeth o'r Effaith yn asesu sut mae ymyriad yn gweithio (neu ddim yn gweithio). Gwerthusiad sy'n profi 'damcaniaeth newid' ymyriad neu resymeg yr ymyriad yw Gwerthusiad seiliedig ar Ddamcaniaeth o'r Effaith, a ph'un a yw'r ymyriad yn cael ei gyflwyno mewn ffordd sy'n gyson â rhesymeg wreiddiol yr ymyriad.

Yn ystod y cyfnod 2007-2013, nid yw'r Tîm Strategaeth wedi cynnal llawer o Werthusiadau seiliedig ar Ddamcaniaeth o'r Effaith ar lefel rhaglen, ond defnyddiwyd y dull hwn wrth werthuso Echel 3 ac Echel 4 o'r Cynllun Datblygu Gwledig. Fodd bynnag, mae Gwerthusiadau seiliedig ar Ddamcaniaeth o'r Effaith yn hynod werthfawr ar lefel prosiect a chynllun lle mae'n bosibl canolbwyntio'n fanwl ar y ffordd y mae ymyriad yn gweithredu. Felly, bydd y Tîm Strategaeth yn gweithio gyda noddwyr prosiectau a rheolwyr cynlluniau i sicrhau bod Gwerthusiadau seiliedig ar Ddamcaniaeth o'r Effaith yn parhau i gael eu cynnal ar y lefel hon.

At hynny, mewn rhannau o'r Rhaglenni lle nad oes modd cynnal Gwerthusiadau Gwrthffeithiol o'r Effaith, bydd y Tîm Strategaeth yn ystyried p'un a allai rhai Gwerthusiadau seiliedig ar Ddamcaniaeth o'r Effaith wedi'u dylunio'n ofalus ar lefel rhaglen neu Flaenoriaeth gynrig dirnadaeth ddefnyddiol. Dyna'r dull gweithredu a fabwysiadwyd wrth werthuso Echel 3 ac Echel 4 lle nad oedd Gwerthusiad Gwrthffeithiol o'r Effaith yn ddichonadwy er mwyn deall y gwahaniaeth a wnaed gan y meysydd hyn o'r

---

<sup>14</sup> "Concepts and Recommendations", y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol - Polisi Rhanbarthol, Mawrth 2014, t.7

Cynllun Datblygu Gwledig. Un maes lle y gall fod yn fuddiol cynnal Gwerthusiad seiliedig ar Ddamcaniaeth o'r Effaith ar lefel rhaglen / Blaenoriaeth yw mewn perthynas â 'gwerth ychwanegol'. Yn hyn o beth dylid nodi, yng nghyd-destun y Rhaglenni ESI, fod 'gwerth ychwanegol' yn golygu rhywbeth gwahanol i 'effaith'. Mae effaith yn ymwneud ag effaith ymyriadau a ariennir gan y Rhaglenni ac sy'n cael ei mesur ar lefel dangosydd canlyniadau ond gyda thystiolaeth gwerthuso i amcangyfrif y sefyllfa wrthffeithiol. Gwerth ychwanegol yw'r gweithgareddau ychwanegol y mae arian Ewropeaidd wedi'u gwneud yn bosibl ac mae'n cael ei fesur ar lefel y dangosydd allbynnau. Mewn papur a gyflwynwyd i Bartneriaeth Gwerthuso ESF ym mis Rhagfyr 2008, lluniodd y Comisiwn Ewropeaidd deipoleg o werth ychwanegol a oedd yn cynnwys pedwar math:

- **Cyfaint** - mae gweithredu ESF yn 'ychwanegu' at weithredu sy'n bodoli eisoes, naill ai drwy gefnogi gweithredu cenedlaethol yn gyffredinol ('efelychu') neu feysydd penodol o bolisi cenedlaethol ('hybu')
- **Cwmpas** - mae gweithredu ESF yn 'ehangu' gweithredu sy'n bodoli eisoes drwy gefnogi grwpiau neu feysydd polisi na fyddent fel arall yn cael cymorth
- **Rôl** - mae gweithredu ESF yn cefnogi datblygiadau arloesol lleol/rhanbarthol a fabwysiedir ar lefel genedlaethol neu gamau gweithredu arloesol cenedlaethol sy'n cael eu 'prif ffrydio' wedyn.
- **Proses** - mae gweithredu ESF yn dylanwadu ar weinyddiaethau Aelod-wladwriaethau a sefydliadau sy'n rhan o'r rhaglenni<sup>15</sup>

Bydd y Tîm Strategaeth yn ystyried defnyddio'r deipoleg hon mewn Gwerthusiadau seiliedig ar Ddamcaniaeth o'r Effaith ar lefel rhaglen / Blaenoriaeth yn y cyfnod 2014-2020.

Bydd y Tîm Strategaeth yn gwerthuso effaith pob Blaenoriaeth, gan ganolbwyntio ar gyfraniad y Rhaglenni i unrhyw newidiadau a welwyd yn y dangosyddion canlyniadau. Caiff hyn ei gyflawni drwy gymysgedd o Werthusiadau Gwrthffeithiol o'r Effaith a Gwerthusiadau seiliedig ar Ddamcaniaeth o'r Effaith ar lefel prosiect / cynllun a rhaglen. O ran Blaenoriaethau lle y rhagwelir nifer fach o ymyriadau efallai y bydd yn fwy priodol i'r gwerthusiadau hyn o'r effaith gael eu cynnal ar lefel prosiect / cynllun e.e. Glastir yn y Blaenoriaethau Amgylchedd yn y Cynllun Datblygu Gwledig a'r prosiectau trafndiaeth ym Mlaenoriaeth Cysylltedd a Datblygu Trefol ERDF. Ar gyfer gwerthusiadau o'r fath ar lefel prosiect a chynllun bydd y Tîm Strategaeth yn cael ei gynrychioli ar y grŵp llywio ar gyfer y gwerthusiadau. Ar gyfer gwerthusiad o effaith ymyriadau trafndiaeth, bydd y gwerthusiad yn ceisio nodi budd economaidd unrhyw ymyriad.

Mae'r Tîm Strategaeth yn annog noddwyr prosiectau i gynnal gwerthusiadau sylfaen er mwyn pennu llinellau sylfaen y gellir mesur newidiadau yn eu herbyn yn dilyn gweithgareddau prosiect.

---

<sup>15</sup>"Methodological note: A Framework to describe the Community Added Value of the ESF", y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol - Cyflogaeth, 2008

## **PWYLLGOR MONITRO RHAGLENNI CYMRU, CRONFEYDD STRWYTHUROL A BUDDSODDI EWROPEAIDD 2014 – 2020:**

### **Strategaeth Monitro a Gwerthuso – Diwygiadau Arfaethedig a Diweddariad ar Gynnydd**

#### **Mater**

1. Diben y papur hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar y cynnydd a wnaed o ran gweithredu'r Strategaeth Monitro a Gwerthuso ar gyfer Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd.

#### **Argymhelliad**

2. Gofynnir i'r aelodau wneud y canlynol:
  - **Cymeradwyo'r** diwygiadau arfaethedig i'r Strategaeth Monitro a Gwerthuso;
  - Nodi a rhoi sylwadau ar y cynnydd a wnaed.

#### **Cefndir**

3. Noda Erthygl 110(1) o'r Rheoliadau Darpariaethau Cyffredin y bydd y PMRh yn archwilio cynnydd a wnaed o ran rhoi'r cynllun gwerthuso<sup>1</sup> ar waith a'r gwaith dilynol a wneir ar ganfyddiadau'r gwerthusiadau. Cymeradwyodd y PMRh y Strategaeth Monitro a Gwerthuso yn y cyfarfod ym mis Medi 2015 ond cynigir rhai diwygiadau, fel y'i trafodir isod. Rhoddir diweddariad ar gynnydd yn y 12 mis diwethaf hefyd isod. Mae'r Tîm Strategaeth yn arwain y gwaith o fonitro a gwerthuso Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd.

#### **Diwygiadau Arfaethedig**

4. Cafodd y Strategaeth Monitro a Gwerthuso ei drafftio a'i chymeradwyo gan y PMRh yn 2015. Ers hynny, mae rhaglenni 2014-2020 wedi cyrraedd y cam cyflawni, mae Gwerthusiadau Terfyn Rhaglen rhaglenni 2007-2013 ar eu ffurf derfynol ac mae'r Grŵp Cyngori Monitro a Gwerthuso wedi'i sefydlu ac wedi cyfarfod deirgwaith. Cafodd y PMRh ddiweddariad ar gynnydd y Strategaeth yn y cyfarfod ym mis Rhagfyr 2016 hefyd; yn ogystal â diweddariadau ar ddarnau penodol o waith, megis rhag-werthusiadau. Hefyd, yn ystod y cyfnod hwn, pleidleisiodd y DU i adael yr UE. Yn anochel, mae'r digwyddiadau hyn

---

<sup>1</sup> Yng Nghymru, cyfeirir at y cynllun gwerthuso fel y Strategaeth Monitro a Gwerthuso.

wedi arwain at rywfaint o fyfyrion ar yr amserlen werthuso, ac, o ganlyniad, mae'r Tîm Strategaeth wedi nodi rhai astudiaethau ymchwil ychwanegol a drafodwyd â'r Grŵp Cynghori Monitro a Gwerthuso ym mis Medi 2017. Nodir y rhain yn Nhabl 2 ac yn Nhabl 3 yn y Strategaeth (tudalennau 12-15).

5. Yn wreiddiol, y bwriad oedd y byddai'r Strategaeth yn cynnal arolygon rheolaidd o fusnesau a gefnogir o dan ERDF a'r Cynllun Datblygu Gwledig ac yn rhannu data ar lefel gweithrediad / cynllun o'r arolygon hyn â'r rhai sy'n gyfrifol am weithrediad ERDF a gwerthusiadau lefel cynllun o'r Cynllun Datblygu Gwledig fel na fyddai'n rhaid iddynt gynnal eu harolygon eu hunain. Mae'r dull gweithredu hwn yn cyfateb i'r hyn sy'n digwydd ar gyfer y rhai sy'n cymryd rhan o dan ESF, lle mae arolwg ar sail y rhaglen gyfan yn darparu data ar gyfer gwerthusiadau ar lefel y rhaglen ac ar lefel gweithrediad. Fodd bynnag, hyd yma, nid yw'r Tîm Strategaeth wedi cael cymaint o ddata ar fusnesau a gefnogir o dan ERDF ag y mae wedi'u cael ar y rhai sy'n cymryd rhan o dan ESF. Trafododd y Tîm Strategaeth hyn â'r Grŵp Cynghori Monitro a Gwerthuso yn ei gyfarfod ym mis Medi 2017. Cytunwyd â'r Grŵp Cynghori Monitro a Gwerthuso y dylai'r Tîm Strategaeth, o ran ERDF, oedi cyn comisiynu unrhyw arolwg o fusnesau a gynorthwywyd tan o leiaf 2019 er mwyn sicrhau maint sampl digonol. Yna, câi arolwg o fusnesau ar sail rhaglen gyfan ei gomisiynu, gan weithio'n agos gyda gweithrediadau er mwyn sicrhau bod yr arolwg yn diwallu eu hanghenion. O ran y Cynllun Datblygu Gwledig, cynghorodd y Grŵp Cynghori Monitro a Gwerthuso y dylai'r Tîm Strategaeth gomisiynu arolygon o fusnesau a gynorthwywyd fel rhan o werthusiadau lefel cynllun o'r Cynllun Datblygu Gwledig wedi'u rheoli gan y Tîm Strategaeth, ac yn gyson â'r gwaith arolygu ehangach sydd yn yr arfaeth.

### **Diweddariad Cynnydd: Gwerthuso Rhaglenni 2007-2013**

6. Mae'n anochel y bydd oedi cyn y gellir gwerthuso rhaglenni a gyflwynir, o gofio bod angen i weithgarwch ddigwydd cyn y gellir ei werthuso mewn ffordd ddefnyddiol. Am y rheswm hwn, dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Tîm Strategaeth wedi parhau i ganolbwyntio ei waith ar werthusiadau o Raglenni 2007-2013, ac wedi parhau i gynllunio ar gyfer dulliau gwerthuso 2014-2020 ar yr un pryd.
7. Cyhoeddodd y Tîm Strategaeth y ddau brif werthusiad ar sail arolwg o Raglenni ESF ac ERDF, y **Dadansoddiad Cyfunol o Arolygon yr ESF o Bobl a Adawodd, 2009-2013 a Gwerthusiad o'r Cymorth i Fusnesau a ddarparwyd gan ERDF.**<sup>2</sup>

---

<sup>2</sup> Mae'r adroddiadau ar gael yn <http://gov.wales/funding/eu-funds/previous/programme-evaluation/58899873/?lang=cy> a <http://gov.wales/funding/eu-funds/previous/programme-evaluation/59017922/?lang=cy>.

8. Hefyd, cwblhaodd y Tîm Strategaeth y **Gwerthusiadau Terfyn Rhaglen o Raglenni Cronfeydd Strwythurol 2007-2013 a'r Cynllun Datblygu Gwledig** yn derfynol. Caiff y rhain eu cyhoeddi cyn hir.
9. Mae'r Tîm Strategaeth hefyd wedi bod yn datblygu manyleb ar gyfer **Gwerthuso Seilwaith ERDF** sydd ar fin cael ei thendro. Er bod llawer o brosiectau seilwaith ERDF wedi cael eu gwerthuso'n annibynnol, yn aml, cynhaliwyd y gwerthusiadau hyn tua'r adeg roedd y prosiectau yn cael eu rhoi ar waith, neu'n fuan wedi hynny, a oedd yn golygu nad oedd modd ymchwilio i agweddau penodol, megis sut y defnyddir y seilwaith, yn aml. Er bod Gwerthusiad Terfyn Rhaglen o raglenni 2007-2013, roedd hwn yn seiliedig ar werthusiadau o raglenni a phrosiectau a wnaed eisoes yn unig, sy'n golygu bod bylchau yn ein gwybodaeth ynghylch sut mae gwahanol fathau o seilwaith yn cysylltu â'i gilydd ac yn cael eu defnyddio. Bydd adroddiad cyntaf y gwerthusiad yn mynd i'r afael â'r nod cyntaf isod ac yn cael ei gyhoeddi ym mis Hydref 2018. Bydd yr ail adroddiad yn mynd i'r afael â'r ail nod a'r trydydd nod isod a bydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2019. Nodau'r gwerthusiad arfaethedig yw:
- ymchwilio i'r ffordd y caiff y seilwaith newydd/gwell ei ddefnyddio a'i gynnal a'i gadw.
  - ymchwilio a yw'r seilwaith newydd a gwell o fewn tri rhanbarth Cymru (Gogledd Cymru, De-orllewin a Chanolbarth Cymru, a De-ddwyrain Cymru) yn gweithio gyda'i gilydd, er budd y rhanbarth o ran yr economi leol, trigolion a busnesau, ac os felly sut;
  - ystyried dichonolrwydd cynnal gwerthusiad effaith o'r seilwaith a nodi dulliau a argymhellir.

### **Diweddariad Cynnydd: Gwerthuso Rhaglenni 2014-2020**

10. Yn ystod 2017 cyhoeddodd y Tîm Strategaeth y **Rhag-asesiad o un o Offerynnau Ariannol ERDF ar Safleoedd Busnes**.<sup>3</sup> Yn 2016, roedd y Tîm Strategaeth wedi comisiynu Regeneris i asesu dichonolrwydd Offerynnau Ariannol i gefnogi pedwar math o seilwaith: ymchwil ac arloesedd; ynni morol; band eang; a safleoedd busnes. Daeth ymarfer sgrinio cychwynnol a gwblhawyd gan Regeneris i'r casgliad bod mwy o gyfle i ddefnyddio Offerynnau Ariannol i gefnogi safleoedd busnes o ran y mathau hyn o seilwaith.
11. Yna, asesodd Regeneris amodau'r farchnad a oedd yn effeithio ar y cyflenwad o safleoedd busnes yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, gan ganfod a oes unrhyw anghenion buddsoddi nad yw'r farchnad yn eu diwallu ond y gellid eu diwallu drwy Offerynnau Ariannol. Daeth Regeneris i'r casgliad **na fyddai Offerynnau Ariannol yn fodd priodol i gefnogi datblygiad safleoedd busnes yng**

<sup>3</sup> Mae'r adroddiad ar gael yn: <http://gov.wales/funding/eu-funds/2014-2020/programme-evaluations/financial-instruments/?lang=cy>

**Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd.** Er i Regeneris ddod o hyd i dystiolaeth o fethiant yn y farchnad, gellir priodoli hyn yn bennaf i hyfywedd safleoedd posibl yn hytrach nag argaeledd cyllid. Roedd Regeneris o'r farn bod y problemau hyn o ran hyfywedd yn rhwystyr rhy fawr i offeryn ariannol fynd i'r afael ag ef drwy gyllid ad-daladwy. Daeth i'r casgliad bod achos o hyd dros arian grant, mewn achosion o'r fath, lle y ceir buddiannau cymdeithasol i wneud cynlluniau o'r fath yn hyfyw o safbwynt budd y cyhoedd. Mae'r adroddiad hefyd yn amlinellu nifer o egwyddorion i WEFO a buddiolwyr eu hystyried wrth roi grantiau am safleoedd busnes, gan gynnwys ymwybyddiaeth o effeithiau dadleoli posibl, ac erys y rhain yn berthnasol i fuddsoddiadau adfywio eraill.

12. Yn ystod 2017, parhaodd y Tîm Strategaeth i weithio gydag IFF Research, sef y contractwyr ar gyfer yr **Arolwg o Gyfranogwyr ESF** er mwyn paratoi ar gyfer gwaith maes. Mae'r gwaith paratoi hwn yn cymryd mwy o amser na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol oherwydd yr amser ychwanegol sydd ei angen i gydweithio ar y modiwlau gweithrediad-benodol (setiau o gwestiynau sy'n benodol i fathau gwahanol o ymyriad) a'r gwaith sydd ynghlwm wrth ddatblygu proses dderbyniol ynglŷn â gwybodaeth preifatrwydd er mwyn cydymffurfio â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol newydd a ddaw i rym ym mis Mai 2018. Dylai'r gwaith maes ddechrau cyn hir.
13. Mae'r Tîm Strategaeth hefyd wedi gweithio gydag economegwyr Llywodraeth Cymru i reoli **dadansoddiad economaidd er mwyn diweddarau ymchwil i ffactorau sy'n effeithio ar gynhyrchiant llafur yng Nghymru** (sy'n is na rhannau eraill o'r DU). Caiff yr adroddiad ar yr astudiaeth hon ei gyhoeddi ddechrau'r flwyddyn nesaf.
14. Mae'r Tîm Strategaeth wedi cyhoeddi tendr ar gyfer y **Gwerthusiad o Wasanaeth Cyswllt Ffermio y Cynllun Datblygu Gwledig**. Mae Cyswllt Ffermio yn darparu gwasanaethau trosglwyddo gwybodaeth, cyngor a hyfforddiant i fusnesau ffermio a choedwigaeth yng Nghymru. Bydd yr astudiaeth yn werthusiad canol tymor estynedig i bob diben a bydd yn ystyried nifer o feysydd, gan gynnwys sut y cafodd y cynllun ei ddylunio a'i weithredu, ei gysondeb â chynlluniau a strategaethau eraill yr UE a chynlluniau a strategaethau cenedlaethol, y cynnydd a wneir tuag at dargedau ac amcanion ac asesiad parhaus o ganlyniadau'r cynllun i gyfranogwyr. Bydd y gwerthusiad yn para tan fis Hydref 2019, gan arwain at adroddiad terfynol a fydd yn rhoi argymhellion defnyddiol ynghylch pa elfennau o'r cynllun sy'n gweithredu yn ôl y bwriad a lle y gellir gwneud gwelliannau posibl. Bydd canfyddiadau'r gwerthusiad hwn yn llywio ymhellach waith gwerthuso yn y dyfodol ar y cynllun hwn.
15. Mae'r Tîm Strategaeth wedi hysbysebu'r fanyleb i gynnal yr **Astudiaeth Gwmpasu ar gyfer Cymorth i Ffoaduriaid**. Bydd y prosiect ymchwil hwn yn ystyried y sgiliau y mae ffoaduriaid yn meddu arnynt a'r sgiliau yr hoffent eu datblygu yng Nghymru. Bydd yr astudiaeth yn ystyried pa gymorth y byddai ei angen ar ffoaduriaid i ddatblygu ac ymarfer eu sgiliau yn y cyd-destun

Cymreig, gan gynnwys cymorth menter ac anghenion hyfforddi. Bydd yr ymchwil yn ystyried y cyfleoedd sydd ar gael, gan gynnwys y rhai ym maes amaethyddiaeth ac yn fwy cyffredinol, y cyfleoedd hynny lle y gallai Llywodraeth Cymru gynnig cymorth y tu allan i'r Cynllun Datblygu Gwledig. Caiff arfer gorau ei adolygu fel rhan o'r ymchwil hon, yn ogystal â'r dulliau sydd ar gael i gefnogi ffoaduriaid. Bydd yr astudiaeth hon yn rhoi cyfres o argymhellion ymarferol ar roi cymorth i ymfudwyr. Mae nifer o gynigion wedi dod i law ar gyfer yr ymchwil a chaiff y contract ei ddyfarnu ar ddechrau mis Tachwedd. Pan gaiff y contract ei ddyfarnu bydd y Tîm Strategaeth a'r swyddogion polisi arweiniol perthnasol yn cyfarfod â'r contractwr llwyddiannus i bennu'r cynllun gwaith terfynol fel rhan o gam cychwyn y contract. Disgwylir i'r gwaith maes ddechrau ar ddechrau 2018.

16. Mae'r Tîm Strategaeth wedi dechrau dylunio manyleb y gwerthusiad ar gyfer **Cynllun Rheoli Cynaliadwy'r Cynllun Datblygu Gwledig**. Nod y cynllun rheoli cynaliadwy yw cefnogi prosiectau cydweithredol ar raddfa tirwedd i wella'r ffordd y rheolir adnoddau naturiol a hefyd gynnig manteision i fusnesau ffermio a gwledig. Mae'r fanyleb ar gam cynnar iawn yn ei datblygiad a bydd angen i'w chwmpas a'i nodau gael eu mireinio gyda mewnbwn gan gydweithwyr polisi. Un o brif nodau'r gwerthusiad fydd asesu llwyddiant a gwerth canfyddedig dulliau cydweithredol o reoli'r dirwedd.
17. Mae'r Tîm Strategaeth mewn cysylltiad â'r contractwyr (Agra CEAS) yn fynych er mwyn monitro hynt yr **Astudiaeth ddichonoldeb o Amaeth-yswriant**. Bydd yr astudiaeth yn ystyried a oes tystiolaeth o fethiant yn y farchnad o ran darparu amaeth-yswriant i ffermwyr ar gyfer digwyddiadau trychinebus. Os oes tystiolaeth o fethiant yn y farchnad, bydd yr ymchwil yn ystyried a yw'n briodol i Lywodraeth Cymru ddatblygu amaeth-yswriant i'w gynnig, ac os felly, i ddatblygu cyfres o opsiynau a allai fod yn sail dros ymchwil neu waith datblygu pellach. Dechreuodd y gwaith maes ym mis Mai gyda chyfweiliadau â swyddogion polisi arweiniol o Lywodraeth Cymru ac mae'r contractwyr bellach wrthi'n cyfweld â rhanddeiliaid allanol, gwaith a fydd yn cael ei gwblhau erbyn dechrau mis Tachwedd.
18. Mae'r Tîm Strategaeth hefyd yn ymgysylltu â chydweithwyr ymchwil eraill yn Llywodraeth Cymru er mwyn cyfrannu darn o ymchwil i **gyfraniad amaethyddiaeth i gymunedau gwledig**. Mae'r astudiaeth yn seiliedig ar y syniad na ellir deall cyfraniad amaethyddiaeth i gymunedau gwledig mewn termau economaidd yn unig ac y gall fod amaethyddiaeth yn cael effeithiau cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach eraill ar gymunedau gwledig. O ystyried ei bod ar gam cynnar yn ei datblygiad mae angen gwaith pellach i fireinio cwmpas a nodau'r astudiaeth a rhoi ffocws cliriach. Bydd y Tîm Strategaeth yn parhau i gydgyssylltu â chydweithwyr ymchwil a pholisi yn Llywodraeth Cymru er mwyn mireinio'r fanyleb.

**Diweddariad Cynnydd: Gwaith Monitro a Gwerthuso ar lefel Gweithrediad**

19. Mae'r Tîm Strategaeth yn parhau i roi cyngor a chymorth i Fuddiolwyr Arweiniol ar waith monitro a gwerthuso ar lefel gweithrediad. Mae hyn yn cynnwys rhoi adborth ar gynlluniau busnes ac adborth a chanllawiau ar gynlluniau monitro a gwerthuso. Rydym hefyd yn parhau i roi cymorth a chanllawiau ar ddrafftio manylebau ar gyfer gwerthusiadau allanol.

#### **Diweddariad Cynnydd: Grŵp Cyngori Monitro a Gwerthuso**

20. Cyfarfu'r Grŵp Cyngori Monitro a Gwerthuso ym mis Chwefror ac ym mis Medi 2017. Trafododd y grŵp y Cofnod o Ganfyddiadau Allweddol ac Argymhellion y Gwerthusiad, y dull o werthuso Arbed, opsiynau ar gyfer cynnal ymchwil a dadansoddiad mewnol o ddata monitro, y manylebau drafft ar gyfer y Gwerthusiad o Gyswllt Ffermio a'r Gwerthusiad o Seilwaith ERDF, y dull o werthuso dangosyddion canlyniadau ERDF ac arolygu busnesau a newidiadau i'r Strategaeth Monitro a Gwerthuso yng ngoleuni Brexit.

**Swyddog Arweiniol WEFO: Kathryn Helliwell**  
**Cymeradwywyd gan: Rob Halford**